

# Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA  
Prif Weithredwr,  
Chief Executive,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

**DYDD IAU, 15EG RHAGFYR, 2016**

**AT: HOLL AELODAU'R BWRDD GWEITHREDOL**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **BWRDD GWEITHREDOL** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **10.00 A.M.** AR **DDYDD IAU, 22AIN RHAGFYR, 2016** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**



**AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA**

<b>Swyddog Democrataidd:</b>	<b>Michelle Evans Thomas</b>
<b>Ffôn (llinell uniongyrchol):</b>	<b>01267 224470</b>
<b>E-bost:</b>	<b>MEEvansThomas@sirgar.gov.uk</b>
<b>Cyf:</b>	<b>AD016-001</b>



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)  
**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

# Y BWRDD GWEITHREDOL

## AELODAETH: 10 AELOD

Y Cyngorydd	Portffolio:
<b>Y Cyngorydd Emlyn Dole</b>	<b>Yr Arweinydd (Plaid Cymru)</b> Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol; Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol; Cynrychioli'r Cyngor - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Eiriolwr Gwleidyddol y Cyngor; Penodi'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Penderfynu ar Bortffolios yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol; Cyswllt â'r Prif Weithredwr
<b>Y Cyngorydd David Jenkins</b>	<b>Dirprwy Arweinydd - Adnoddau (Plaid Cymru)</b> Cyllid a'r Gyllideb; TGCh; Rheoli Eiddo / Asedau; Caffael; Budd-daliadau Tai; Refeniw; Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd.
<b>Y Cyngorydd Pam Palmer</b>	<b>Dirprwy Arweinydd (Annibynnol)</b> Rheolwr Busnes y Cyngor; Hyrwyddwr Cymunedol; Ffocws Cwsmeriaid a Pholisi; Cyswllt â'r Heddlu; Diogelwch Cymunedol; Cynllunio Cymunedol Cyfiawnder Cymdeithasol/Trosedd ac Anhrefn; Hyrwyddwr Gwrth-dlodi; Cynaliadwyedd; Bioamrywiaeth; Llysgennad Ieuenctid; Materion Gwledig a Chadeirio'r Bwrdd Gweithredol yn absenoldeb yr Arweinydd.
<b>Y Cyngorydd Hazel Evans</b>	<b>Gwasanaethau Technegol (Plaid Cymru)</b> Sbwriel; Glanhau Strydoedd; Gwasanaethau Cludiant; Cynnal a Chadw Tiroedd; Gwasanaethau Adeiladau; Gwasanaethau Arlwyo; Gwasanaethau Gofalwyr Adeiladau; Glanhau Adeiladau; Cynlluniau Argyfwng; Llifogydd.
<b>Y Cyngorydd Meryl Gravell</b>	<b>Adfywio a Hamdden (Annibynnol)</b> Datblygu Economaidd; Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru; Datblygu Cymunedol; Chwaraeon; Canolfannau Hamdden; Amgueddfeydd; Llyfrgelloedd; Parc Gwledig
<b>Y Cyngorydd Gareth Jones</b>	<b>Addysg a Phlant (Plaid Cymru)</b> Ysgolion; Gwasanaethau Plant; Anghenion Addysgol Arbennig; Diogelu; Cartrefi Seibiant; Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol; Addysg i Oedolion a Dysgu Cymunedol; Gwasanaethau Ieuenctid; yr Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; Llysgennad yr Eisteddfod
<b>Y Cyngorydd Linda Evans</b>	<b>Tai (Plaid Cymru)</b> Tai (Cyhoeddus a Phreifat); Cydraddoldeb; Materion Pobol Hŷn
<b>Y Cyngorydd Jim Jones</b>	<b>Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd (Annibynnol)</b> Gorfodi Materion Amgylcheddol; Sbwriel; Gwastraff Di-drwydded; Baw Cŵn; Gwasanaethau Parcio; Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd.
<b>Y Cyngorydd Mair Stephens</b>	<b>Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio (Annibynnol)</b> Adnoddau Dynol; Hyfforddiant; Compact Simpson; Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth; Y Tîm Effeithlonrwydd Corfforaethol; Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg; Llysgennad Cyngorau Tref a Chymuned.
<b>Y Cyngorydd Jane Tremlett</b>	<b>Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Annibynnol)</b> Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion; Gofal Preswyl; Gofal Cartref; Anableddau Dysgu; Iechyd Meddwl; Cysylltu/ Cydweithredu/Integreiddio â'r GIG; Hyrwyddwr Gofalwyr; Llysgennad Anabledd; Hyrwyddwr Gofal Dementia; Hyrwyddwr 50+ a Chynrychiolydd Grwp Llywio

# A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.
3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR YR 21AIN TACHWEDD, 2016.
4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU
5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

11 - 16

**5.1 CWESTIWN GAN MR ROBERT WILLOCK I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Mr Jones. Yn ein cyfarfod cyntaf gyda chi'r llynedd, dywedoch fod 30% o wersi yn Gymraeg yn ormod i'r plant Saesneg. Fel addysgwr, sut ydych wedi dod i'r casgliad y bydd trochi plant yn llwyr yn eu hiaith wanaf yn fwy buddiol i'r plant na dysgu Cymraeg ail iaith?”

**5.2 CWESTIWN GAN MS NIKKI LLOYD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Cynhaliwyd cynllun peilot gan yr Ysgol i ymchwilio i drochi disgyblion yn y Gymraeg mewn dosbarthiadau derbyn. Rydym wedi gwneud cais am ganlyniadau'r cynllun peilot hwn gan yr Ysgol a'r Cyngor Sir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros am y canlyniadau hyn. Adeg y cynllun peilot hwn, dim ond y rhieni oedd yn y cyfarfod yn yr Ysgol gafodd wybod amdano, ac ni ddosbarthwyd unrhyw lythyrau dilynol. Dylai'r dystiolaeth a ganfuwyd o'r cynllun peilot hwn fod wedi cael ei chasglu a'i chyflwyno gyda'r cynnig. Yr unig bryd cawsom wybod am y cynllun peilot oedd pan roddwyd gwybodaeth inni drwy Ryddid Gwybodaeth, ac nid yw'r wybodaeth wedi cael ei chyhoeddi. Nid yw'r dystiolaeth a'r canlyniadau wedi cael eu cyflwyno gyda'r cynnig, ac nid yw'n hysbys a oes galw gwirioneddol am newid. Yn ôl y Côt Trefniadaeth Ysgolion, dylid asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath mewn ardal a dangos tystiolaeth ar ei gyfer. O edrych ar y sefyllfa bresennol yn Ysgolion Llangennech, ar hyn o bryd mae 121 o blant o'r tu allan i'r dalgylch yn dod i Ysgol Llangennech, ac, ar yr un pryd, mae 111 o blant yn gadael y pentref i gael addysg (mae 20 o'r

disgyblion hyn wedi gadael yn y misoedd diwethaf o ganlyniad i'r cynnig hwn a'r ansicrwydd). Mae'n amlwg bod y ffactorau hyn wedi cael eu hanwybyddu. Pam nad oes asesiad digonol o'r galw wedi cael ei gynnal?"

**5.3 CWESTIWN GAN MRS MICHAELA BEDDOWS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

"Mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Craffu, dywedodd Mr Sully mai ei fwriad yw newid yr holl ysgolion Dwy Ffrwd yn rhai cyfrwng Cymraeg a newid yr holl ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhai Dwy Ffrwd ac yn y blaen....Bydd hyn yn arwain at waredu'r holl ysgolion cyfrwng Saesneg sydd yn Sir Gaerfyrddin yn y pen draw. A allwch gadarnhau ai hwn hefyd yw cynllun addysg yr Awdurdod yn y tymor hir?"

**5.4 CWESTIWN GAN MR STEVE HATTO I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

"Yn ôl adroddiad diweddaraf PISA, mae Cymru'n dal y tu ôl i weddill y DU mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg. Gallai'r ffaith nad yw plant yn cael eu haddysgu yn eu hiaith gyntaf fod yn rheswm uniongyrchol dros hyn. Ni fydd plant nad ydynt mor ddisglair yn academiaidd yn cyrraedd eu potensial llawn os nad ydynt yn deall yn llawn y wers sy'n cael ei dysgu ac os na fydd rhieni'n gallu eu helpu gartref. A yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn credu bod hyrwyddo'r Gymraeg i'r fath raddau ar draul safon ein haddysg yn aberth gwerth ei wneud?"

**5.5 CWESTIWN GAN MRS JULIA REES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

"Fel rhiant plentyn â gofynion dysgu ychwanegol, yn amlwg rwy'n teimlo'n gryf iawn ynghylch yr hyn sy'n digwydd yma heddiw. Cafodd fy mab ei osod gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn canolfan asesu tymor byr, un o blith 3 yn unig yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd ei osod yno i asesu ei ofynion cyn ei ryddhau i addysg brif ffrwd fel nifer o blant eraill bob blwyddyn. Mae'r 3 canolfan asesu hyn yn addysgu drwy gyfrwng y Saesneg ac nid oes canolfan gyfatebol Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Fel sydd wedi cael ei nodi o'r blaen, dywedwyd wrthym mai nod y cyngor yw dirwyn yr holl addysg drwy gyfrwng y Saesneg i ben erbyn 2022, ac mai rhan o'r cynllun hirdymor hwn yn unig yw Ysgol Llangennech. Sut gall y cyngor ddirwyn addysg drwy gyfrwng y Saesneg i ben yn y sir pan gaiff llawer o blant bob blwyddyn eu gosod gan arbenigwyr y Sir yn y canolfannau asesu Saesneg eu hiaith hyn, os na fydd

ysgolion Saesneg y gallant gael eu rhyddhau iddynt ar ôl eu hasesu?”

**5.6 CWESTIWN GAN MR DEAN BOLGIANI I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Yn ôl gwybodaeth a ddaeth i law yn ddiweddar o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Ysgolion Bryn a Bynea eisoes wedi gwrthod ceisiadau am le yn yr ysgolion, er gwaethaf y ffaith y dywedwyd wrthym mewn cyfarfodydd blaenorol nad oedd yr ysgolion yn llawn. Yn yr Hendy y mae'r Ysgol Gyfrwng Saesneg agosaf, ac nid oes ganddi lwybr diogel i'r ysgol. Rydych wedi rhoi gwybod inni drwy gydol yr ymgynghoriad hwn nad yw'n fwriad gan yr Awdurdod i unrhyw blentyn adael Ysgol Llangennech, ond mae'n amlwg eich bod eisoes wedi gyrru rhai plant ymaith a diflannodd y croeso pan ddatganodd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn agored fod plant sy'n siarad Saesneg yn niweidiol i addysg plant sy'n siarad Cymraeg. Os gwaredir addysg drwy gyfrwng y Saesneg o Langennech, gwaredir hefyd y rhyddid sydd gan rieni i ddewis. A fyddech cystal ag ateb y cwestiwn hwn y tro hwn a dweud ble yr ydych yn mynd i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n ceisio Addysg drwy Gyfrwng y Saesneg, gan na fydd ar gael mwyach yn Llangennech ar gyfer y sawl sy'n ei cheisio?”

**5.7 CWESTIWN GAN MRS KAREN HUGHES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Aelodau o gymuned Llangennech yw'r 'KeepDualStreamCommittee', sydd wedi rhoi eu hamser a'u harian yn wirfoddol i sicrhau bod llais gan y mwyafrif yn Llangennech. Hyd yn hyn, atebion megis 'Mae'n rhaid gwneud hynny oherwydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' neu 'Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwybod beth sydd orau o ran addysg eich plentyn' neu 'Does dim galw am Ffrwd Ddeuol' sydd wedi cael eu rhoi i unrhyw gwestiynau. Yn syml, datganiadau damcaniaethol, camarweiniol, nad ydynt yn rhai ffeithiol yw'r rhain ac maent yn profi nad oes sylw'n cael ei roi i'r materion sy'n cyfrif go iawn. Methir cydnabod hyd yn oed bryderon ynghylch plant ag anableddau, galluoedd dysgu, dyfodiad rhaniadau cymdeithasol, traffig cynyddol trwy Langennech wrth i blant gael eu cludo yno ac oddi yno yn ddianghenraid i gael addysg yn eu dewis iaith, ynghyd ag effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd ac ar hyrwyddo ffordd o fyw iach. Hefyd rhaid inni beidio ag anghofio'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg ei hun, yr oedd y rhan fwyaf o'r rhieni'n ei chroesawu gan fod Llangennech wedi bod yn gefnogol bob amser o'r diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith. Rydym yn syfrdan nad oes un o'r ffactorau hyn yn rhan o'r Asesiad Cymunedol, er

bod angen cyfreithiol i roi 'ystyriaeth ddyledus' iddynt. Mae'n ymddangos mai ymarfer ticio bocsys yn unig yw hwn ac nad oes neb yn ei gymryd o ddifrif nac yn darparu atebion y gellir eu gweithredu. Yn hytrach mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei ddefnyddio fel dull i amddiffyn yr hyn a wneir. Mae'n eironig mai diben yr Aseiad Cymunedol yw llywio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a thynnu sylw at risgiau er mwyn sicrhau bod yr hyn a weithredir yn addas at y diben. Ni chofnodwyd dim o'r materion a godwyd gan y Gymuned yn eich aseuadau risg. O ganlyniad, rhaid gofyn beth yw diben cynnal yr ymgynghoriad hwn pan mae'r rhan fwyaf o'r barnau a'r pryderon yn cael eu hanwybyddu. A allwch egluro'r rhesymau dros anwybyddu proses wybodus a ddemocrataidd ar gyfer gwneud penderfyniadau, a sut y gallwch weld hyn yn rhywbeth positif?"

**5.8 CWESTIWN GAN MR NIGEL HUGHES I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

"Bydd cael gwared ar y ffrwd ddeuol yn Llangennech yn cael effaith anferthol o ran annog pobl broffesiynol nad ydynt yn siarad Cymraeg i beidio â symud i'r ardal. Os oes ganddynt blant sydd wedi cael eu haddysg yn Saesneg yn eu blynyddoedd cynnar, maent yn annhebygol o symud i'r ardal. Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar brisiau tai a buddsoddiadau o'r tu allan i'r sir. Mae fel petai strategaeth hirdymor Cyngor Sir Caerfyrddin am greu sir lle caiff pobl eu hynysu a'u gwahanu. A allwch egluro sut ydych yn bwriadu denu busnesau a doniau newydd i'r sir pan fyddwch ond yn addysgu plant mewn un o ddwy iaith gydnabyddedig Cymru, heb roi dewis i deuluoedd? Dyma gamsyniad arall gan y cyngorwyr lleol a ysgrifennodd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, nad yw wedi ystyried yr effeithiau hirdymor yn ôl pob tebyg."

**5.9 CWESTIWN GAN MR PHILLIP WILLOCK I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

"Rydym ar fin gweld a ydych chi, fel y diduedd Mr Campbell, yn credu mewn addysg Gymraeg trwy orfodaeth. Rydych wedi gofyn am sylwadau'r cyhoedd trwy'r ymgynghoriad statudol a bellach rydym yn awyddus iawn i weld a ydych yn mynd i wrando arnynt. O ystyried bod mwyafrif ymatebion Llangennech yn gwrthwynebu'r newid, a ydych yn mynd i fabwysiadu ymagwedd awdurdodaidd at yr ymgynghoriad hwn?"

**5.10 CWESTIWN GAN MRS SALLYANN THOMAS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Cynhaliwyd ymgynghoriad eang yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru i ganfod barn amrywiol ffynonellau am ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr iaith Gymraeg. Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw creu miliwn o siaradwyr dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, erbyn 2050, ac mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadolygu o hyd. Yn ddiamheuaeth, bydd y canfyddiadau'n cael effaith sylweddol ar sut ydym yn darparu ein system addysg mewn Ysgolion Cynradd. Pa resymau sydd gennych dros beidio ag aros tan fod argymhellion ymgynghoriad panel annibynnol Cymru yn dod i law ar ddechrau 2017, cyn penderfynu ar unrhyw newid i unrhyw un o'n hysgolion yn Sir Gaerfyrddin?”

**5.11 CWESTIWN GAN MS VICKI FREEMAN I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Mae llawer o ddoctoriaid a nyrsys yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o gefndiroedd ethnig gwahanol. Mae nifer fawr o nyrsys o Ynysoedd y Philipinos ac India, ac mae mwyafrif llethol y doctoriaid o'r Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell. Mae Saesneg yn ail iaith iddynt eisoes. Mae llawer o swyddi gwag yn Sir Gaerfyrddin o ran y ddwy alwedigaeth. Mae trafodaeth wedi bod ynghylch pam y mae cyn lleied o bobl yn gwneud cais am y swyddi hyn. Yr ateb gan nifer ohonynt oedd gan fod eu plant yn siarad dwy iaith eisoes, maent o'r farn y byddai'n rhy anodd symud i'r ardal hon pan fo'r Gymraeg yn cael ei gorfodi ar fewnfudwyr nad ydynt yn ei medru. Roedd hwn yn bryder penodol yn achos plant 8 neu 9 oed nad oeddent erioed wedi dod i gysylltiad â'r iaith Gymraeg. A yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymwybodol fod dilyn trywydd lle gwaredir addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn mynd i gael effaith ar seilwaith cyfan y sir ac atal mewnfudo proffesiynol i'n GIG lleol a busnesau eraill?”

**5.12 CWESTIWN GAN MS ORLA WILLIAMS I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

“Mae CSC yn gwahanu ac yn gwthio i'r cyrion ddysgwyr y ffrwd Saesneg a dysgwyr dwyieithog cyfredol ysgol Llangennech, a rhai'r dyfodol, trwy beidio â darparu llwybr addas i'r dysgwyr hynny. Yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru, mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal. Ond dim os ydych yn byw yn Nwyrain Sir Gaerfyrddin. Mae symud i sefyllfa lle

addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn Llangennech, lle mae canran uchel o'r rhieni yn rhai dosbarth canol o'r tu allan i'r dalgyloch sydd ar eu ffordd i gyffordd 48 yr M4, a mynnu ar Gymraeg yn unig, yn gynllun gwallus gan y Cyngor Sir. Pa ddarpariaeth sy'n cael ei rhoi ar waith i wella perfformiad yn Ysgol Gynradd yr Hendy ac Ysgol Gyfun y Strade i gyfiawnhau'r arfer gwaharddol hwn ac i ddarparu addysg sydd o'r un safon uchel yn Llangennech i rieni sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu'n ddwyieithog, gan nad oes gan Ysgol Bryn yr un ethos dwyieithog, perfformiad, deilliannau nac arweinyddiaeth â'r hyn sydd gan Ysgol Llangennech ar hyn o bryd, sef pam y mae rhieni'n dewis y ffrwd ddwyieithog. Bydd cadw'r ffrwd ddwyieithog yn Llangennech yn helpu i gyrraedd targed y llywodraeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ni fydd atal teuluoedd rhag cael addysg ddwyieithog yn rhoi anogaeth na chroeso i'r teuluoedd hynny sy'n barod i gymryd y camau cyntaf tuag at fod yn rhugl. Bydd y polisi arfaethedig hwn yn annog rhai teuluoedd i beidio â siarad Cymraeg, ac yn creu rhwyg a darpariaeth addysg anghyfartal a chynhennus yn Nwyrain Llanelli. Heb os nac oni bai mae'n well croesawu pobl, fel sydd wedi cael ei brofi gan astudiaethau yng Nghatalonia, y Ffindir a Lithwania, lle mae perfformiad, PISA a pherfformiad rhyngwladol yn tystio i lwyddiant addysg gwir ddwyieithog. Oni fyddai chwilio am atebion cynhwysol yn fwy buddiol i'r disgyblion presennol ac i genedlaethau'r dyfodol yn ein cymuned ac yn sicrhau bod y Cyngor hwn yn gadael gwaddol gwell?"

**5.13 CWESTIWN GAN MR DARREN SEAWARD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-**

"Mae'r Cyngorydd Gwyn Hopkins wedi dweud sawl gwaith mai lleiafrif uchel eu cloch sy'n gwrthwynebu'r newidiadau, ac mae wedi sôn wrth y wasg am hynny er nad yw'n wir. O gofio bod mwy na 750 o wrthwynebiadau, sef yr apêl fwyaf yn hanes Llangennech yn ôl pob tebyg, mae'n anffodus nad yw Mr Hopkins, ar ôl bod yn Gyngorydd Sir am fwy nag 20 mlynedd, yn deall anghenion a dymuniadau'r etholwyr yn well. Hefyd mae'n rhaid gofyn y cwestiwn, pa benderfyniadau gwael eraill sydd wedi cael eu gwneud yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Rydym o'r farn y byddai'n decach i bawb, yn cynnwys yr ymgeisydd newydd, fod y penderfyniad hwn yn cael ei ohirio tan ar ôl etholiadau mis Mai 2017, pryd y caiff ymgeisydd newydd ei benodi. Mae'n bosibl y bydd modd adfer hyder bryd hynny ac y bydd gan y pentref lais sy'n ei gynrychioli. A ydych yn cytuno y dylid gohirio?"



## 5.14 CWESTIWN GAN MRS JACQUELINE SEWARD I'R CYNGHORYDD GARETH JONES, AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT:-

“Tristwch mawr i ni yw gweld i ba raddau y mae ein cymuned, a oedd unwaith yn un glos, wedi cael ei rhannu gan y cynnig hwn. Mae'n ymddangos ein bod wedi anghofio am yr hyn sy'n bwysig yma, sef bod gennym ysgol ddwy ffrwd hynod lwyddiannus sy'n darparu ar gyfer pawb. Mae gan Ysgol Llangennech enw rhagorol a cheisir lle ynddi gan lawer, sydd hyd yn oed yn barod i deithio o'r tu allan i'r ardal i gael eu haddysgu yn Llangennech. Byddai nifer o'r plant yn y Ffrwd Gymraeg heb roi cynnig arni petai'r ysgol yn un Gymraeg yn unig a dyma'r hyn y mae'n rhaid inni gydnabod. Mae Llywodraeth Cymru am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dylai'r Gymraeg fod yn rhywbeth y mae pobl yn dyheu amdano ac nid yn rhywbeth sy'n cael ei orfodi, a thrwy amddifadu rhieni rhag cael dewis, yr unig beth y byddwn yn ei wneud fydd gwanhau'r Gymraeg ac nid cynyddu'r defnydd ohoni. Mae Llangennech eisoes yn cyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a bydd yn parhau i wneud hynny fel ysgol ddwy ffrwd. Mae angen i ysgolion eraill ddilyn ein hesiampl. Gadewch inni edrych ar yr effaith mae'r cynnig hwn wedi ei chael ar gymuned Llangennech, sydd wedi bod yn gefnogol i'r Gymraeg ers blynyddoedd. Mae'r mater yn peri inni feddwl sut y byddai ysgolion eraill, yn enwedig yr holl ysgolion cyfrwng Saesneg, yn ymateb pe baent yn wynebu'r un cynnig â'r hyn a ddymunir gan Mr Sully, sef gwneud pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn un Gymraeg ei chyfrwng. Bydd hyn yn achosi anghydfod ac yn niweidiol i'r Gymraeg yn y pen draw, ac nid dyna'r hyn ydym ei eisiau yn bendant. Rydym am i'n plant ddal ati i ddysgu Cymraeg fel y maent yn gallu ei wneud nawr yn y ffrwd ddeuol, ond ar gyflymdra sy'n addas iddynt ac yn unol â dewis rhieni. Mae ein hymarfer diwethaf wedi rhoi tystiolaeth gadarn inni fod 750 o bobl yn erbyn y cynnig. Cafwyd 698 o sylwadau a gefnogai'r cynnig, ond yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth rydym wedi cael gwybod bod cyfran helaeth o'r rhai a gyflwynodd sylwadau ddim yn dod o'r pentref na'r sir hyd yn oed. Rydym wedi gofyn unwaith eto o dan gais Rhyddid Gwybodaeth am fanylion pellach ynghylch strydoedd, fel y gellir gwneud dadansoddiad go iawn. Ond yn anffodus, yn ôl yr arfer, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn hwylus. Cafodd ffigyrau a phobl eu cam-lywio am flynyddoedd lawer cyn y cynnig hwn, er mwyn cyflwyno darlun ffug o'r galw yn y pentref. Mae pobl Llangennech wedi lleisio eu barn, ac mae'n hen bryd gwranddo arnynt. A yw'n bosibl ichi mewn difrif wneud penderfyniad mor bwysig am ddyfodol ac am addysg ein plant pan fo cynifer o gwestiynau yn dal heb gael eu hateb?”

- |     |   |           |
|-----|---|-----------|
| 6.  | <b>Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG- CYNNIG I GAU YSGOL BABANOD LLANGENNECH AC YSGOL IAU LLANGENNECH A SEFYDLU YSGOL GYMUNEDOL GYNRADD LLANGENNECH.</b>  | 17 - 296  |
| 7.  | <b>CRAFFU AR Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS.</b>  | 297 - 302 |
| 8.  | <b>ATAL, YMYRRAETH GYNNAR A HYBU BYW'N ANNIBYNNOL.</b>  | 303 - 320 |
| 9.  | <b>CYNLLUN ABSENOLDEB STAFF AR GYFER YSGOLION.</b>  | 321 - 342 |
| 10. | <b>SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2017-2018.</b>  | 343 - 376 |
| 11. | <b>CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2016-2019.</b>  | 377 - 410 |
| 12. | <b>CANLLAWIAU A CHYTUNDEB LEFEL GWASANAETH CYNGOR SIR CAERFYRDDIN YNGHYLCH CODI TÂL AM GYNGOR CYN CYFLWYNO CAIS AC AR ÔL CAEL CANIATÂD I GAIS, MEWN PERTHYNAS Â DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (DEDDF CYNLLUNIO (CYMRU) 2015) A PHROSIECTAU SEILWAITH O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL (DEDDF CYNLLUNIO 2008).</b> | 411 - 430 |
| 13. | <b>UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYN YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.</b>   |           |

# Eitem Rhif 3

## Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 21 Tachwedd 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Chair)

**Y Cynghorwyr:**

L.D. Evans, M. Gravell, D.M. Jenkins, G.O. Jones, P.A. Palmer, L.M. Stephens, J. Tremlett, H.A.L. Evans and T.J. Jones

**Yn bresennol fel sylwedyddion:**

Y Cynghorwyr D.M. Cundy ac W.T. Evans

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

M. James, Prif Weithredwr  
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau  
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
R. Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant  
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd  
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Adfywio a Pholisi)  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith  
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd  
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio  
D. Hockenull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.40 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
H.A.L. Evans	7 - Adolygu'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol	Ei chwaer yw Prif Weithredwr Cymdeithas Tai
H.A.L. Evans	13 – Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018 – Cynigion Cychwynnol	Mae'n byw mewn etholaeth y mae'r cynigion yn effeithio arni

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 17EG HYDREF, 2016**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 17<sup>eg</sup> Hydref 2016 yn gofnod cywir.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## **5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan y cyhoedd.

## **6. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2015/16 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR GAERFYRDDIN**

Cafodd y Bwrdd Gweithredol Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 ynghylch gweithredu Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, a luniwyd yn unol â gofynion Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol, sef y cyntaf i gael ei lunio, wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31<sup>ain</sup> Hydref 2016, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, ac roedd yn ddatganiad ffeithiol yn unig ynghylch gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yn darparu llinell sylfaen y gallai'r adran ei defnyddio i asesu a monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol, a ydynt yn gweithredu ac yn gweithio'n effeithiol, ac yn helpu i nodi a oedd unrhyw dueddiadau hirdymor sy'n golygu bod angen o bosib roi ystyriaeth i ddiwygiadau posibl i'r Cynllun yn y dyfodol.

Dywedwyd bod y gwaith monitro wedi dechrau ar gyfer yr ail adroddiad, ac y byddai'r Cyngor yn ceisio sylwadau hyd at fis Mawrth 2017 ynghylch gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a fyddai wedyn yn cyfrannu at yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno, drwy broses wleidyddol y Cyngor, i Lywodraeth Cymru.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 11.1 cyfeiriodd y Cynghorydd D.M. Cundy at bwysigrwydd y ddogfen, gan ei bod yn rhoi manylion am weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mhob rhan o'r sir, a mynegodd farn y byddai'n cael budd o gyfraniad holl Aelodau'r Cyngor. Yn unol â hynny, gofynnodd fod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd bod y Cyngor yn cynnal trafodaeth flynyddol ynghylch yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

- 6.1 Bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16 - Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin yn cael ei dderbyn**
- 6.2 Bod trafodaeth flynyddol yn cael ei chynnal ynghylch yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar Gynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru**

## **7. ADOLYGU'R POLISI YNGHYLCH MYNEDIAD AT DAI CYMDEITHASOL**

(SYLWER: Gan fod y Cynghorydd H.A.L. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon eisoes, nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra trafodid yr eitem hon).

Cafodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad i'w ystyried ar yr adolygiad a gynhaliwyd ynghylch Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol y Cyngor a luniwyd yn sgil ymgynghori'n eang â'r cyhoedd a phartneriaid y Cyngor. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod gofal wedi'i gymryd, wrth lunio'r adroddiad, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â

gofynion deddfwriaethol ac yn ymateb i'r ymgynghoriadau a oedd wedi dod i law. Y prif newidiadau i'r polisi oedd:

- Symleiddio'r polisi,
- Byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i bobl yn Sir Gaerfyrddin ac i'r rheiny sydd â chysylltiad â'r Sir;
- Lleihau nifer y bandiau cymhwys o bedwar i ddau;
- Dileu'r system bwyntiau.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR**

**7.1 Derbyn canlyniadau'r ymarfer ymgynghori,**

**7.2 Cymradwyo'r fersiwn drafft o'r Polisi Mynediad at Dai Cymdeithasol diwygiedig.**

## **8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad monitro ynghylch y gyllideb refeniw a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf fel yr oedd ar 31<sup>ain</sup> Awst 2016 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016/17.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant o £1,971k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £2,975k gan yr adrannau. Rhagwelid tanwariant o £667k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

12.1 derbyn yr Adroddiad Monitro ynghylch y Gyllideb;

**12.2 bod y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfaoedd cyllidebol yn feirniadol ac yn cymryd camau priodol i ddarparu eu gwasanaethau yn unol â'r cyllidebau a ddyrannwyd iddynt.**

## **9. DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2016-17**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ynghylch gwariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2016/17, fel yr oedd ar 31<sup>ain</sup> Awst, 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad diweddaru ynghylch y rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## **10. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW Y RHAGOLYGN O RAN CYLLIDEB REFENIW 2017/2018 i 2019/20**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad uchod a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar Gyllideb Refeniw 2017/18 a'r ddwy flynedd ariannol dilynol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am amserlen y broses gyllidebu, yn rhoi crynodeb o setliad dros dro Llywodraeth Cymru ac amserlen y setliad terfynol, ac yn clustnodi'r gwasgfydd dilysu a'r gwasgfydd cyllidebol y byddai angen i'r Aelodau roi sylw iddynt wrth bennu cyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf. Hefyd roedd yr adroddiad yn sylfaen i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei

chynnal yn ystod Tachwedd 2016 – Ionawr 2017 gyda phwyllgorau craffu y Cyngor a'r gymuned cyn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ac wedyn i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu elfennau allweddol y fersiwn drafft o strategaeth y gyllideb ac yn tynnu sylw at y ffaith y byddai setliad niwtral dros dro Sir Gaerfyrddin, er ei fod yn cael croeso, yn dal yn cael effaith negyddol ar adnoddau'r Cyngor o ystyried ffactorau chwyddiant, newidiadau demograffeg a chyfrifoldebau newydd neu'r galw am wasanaethau. Fodd bynnag, roedd hefyd yn galluogi'r Cyngor i ailystyried y targedau effeithlonrwydd mewn perthynas ag ysgolion a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor a gynigiwyd yn ei ragolygon cyllidebol, ac yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol, parcio mewn canol trefi, cludiant ysgol ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a oedd yn codi tâl am ofal preswyl o £24-£30k.

Nodwyd bod y strategaeth yn cynnwys £7.8 miliwn ar gyfer gwaith dilysu hanfodol ynghyd â £2.4 miliwn yn ychwanegol i ymateb i bwysau gwariant newydd a nodwyd gan adrannau, a bod £1.8 miliwn o'r swm hwn wedi cael ei ddyrannu i Ofal Cymdeithasol. Unwaith eto roedd yr adrannau wedi clustnodi arbedion effeithlonrwydd fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a oedd yn werth cyfanswm o £8.8 miliwn ym Mlwyddyn 1 ynghyd â £16 miliwn yn ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd ganlynol gan sicrhau y gallai'r Awdurdod, ar sail y rhagamcanion presennol, ddarparu gwasanaethau hanfodol ar yr un pryd â cheisio sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor ar lefel dderbyniol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi golwg gyffredinol ar y cronfeydd wrth gefn, a oedd i'w hadolygu ymhellach, gan ragweld y byddai unrhyw arian wrth gefn sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen gyfalaf a chyflawni cyfleoedd adfywio, a fyddai'n cynnal twf yn y Sir yn y dyfodol.

Roedd y cynigion cyllideb cyfredol, gan ystyried y ffactorau uchod, wedi cyfyngu'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor am 2017/2018 i 2.5%.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDL, fod cynnwys adroddiad y gyllideb yn cael ei nodi a'i gymeradwyo fel sylfaen i ymgynghori, a bod ymgais benodol yn cael ei gwneud i gael sylwadau gan ymgynghoreion ynghylch y cynigion effeithlonrwydd y manylwyd arnynt yn atodiad 'A' i'r adroddiad a ddisbarthwyd.**

## 11. Y RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD - 2017/18 - 2021/22

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn bwrw golwg gychwynnol ar y rhaglen gyfalaf 5 mlynedd o 2017/18 i 2021/22, a fyddai'n sail i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb gyda'r aelodau a phartion perthnasol eraill. Byddai'r adborth o'r broses ymgynghori, ynghyd â chanlyniad y setliad terfynol, yn cyfrannu i'r adroddiad terfynol ynghylch y gyllideb a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r aelodau i'w ystyried yn Chwefror, 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo, at ddibenion ymgynghori, y rhaglen gyfalaf arfaethedig.**

## **12. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH**

Yn unol â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 23<sup>ain</sup> Chwefror, 2016 - gweler Cofnod 9), cafodd y Bwrdd Gweithredol y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod o 1<sup>af</sup> Ebrill 2016 hyd 30<sup>ain</sup> Medi 2016.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **13. ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMURU 2018 - CYNIGION CYCHWYNNOL**

Gan gyfeirio at Gofnod 13 o'i gyfarfod ar 17<sup>eg</sup> Hydref, 2016, ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o gynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ynghylch Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018, i'r graddau y maent yn effeithio ar Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag ymateb anwleidyddol drafft iddo ar sail yr heriau gweinyddol a logistaidd a godwyd gan y cynigion.

Dywedodd y Prif Weithredwr, wrth gyfeirio at yr ymateb drafft, fod swyddogion, wrth archwilio'r cynigion, wedi ymdrechu i gadw cymaint o'r sir gyda'i gilydd â phosibl, yn ogystal ag ystyried gofynion mathemategol y Comisiwn Ffiniau. Wrth wneud hynny, cynigiwyd y dylid cadw'r holl etholaethau gogleddol presennol yn y sir yn etholaeth arfaethedig Sir Gaerfyrddin, ac eithrio Llangyndebyrn, y cynigiwyd y byddai'n cael ei chynnwys yn etholaeth newydd Llanelli a Lliw. Awgrymwyd hefyd na ddylid derbyn y cynnig i gynnwys wardiau etholiadol Llangyfelach a Mawr yn etholaeth Llanelli a Lliw, ac y dylid eu cynnwys yn Etholaeth Gorllewin Abertawe.

Cadarnhaodd hefyd fod yr ymateb arfaethedig wedi bod yn seiliedig ar y materion gweinyddol a logistaidd a godwyd gan y cynigion, ac y byddai pleidiau gwleidyddol y Cyngor, ac unigolion, yn gallu ymateb yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ffiniau ynghylch y cynigion.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 Cytuno ar yr ymateb a gynigir i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ynghylch Adolygiad o Etholaethau Seneddol yng Nghymru 2018 – Cynigion Cychwynnol;**

**13.2 Nodi y byddai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cynnal 5 gwrandawriad cyhoeddus fel rhan o'r adolygiad, a bod gwrandawriad Sir Gaerfyrddin wedi cael ei gynnal ar 12<sup>fed</sup>-13<sup>eg</sup> Hydref yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg.**

## **14. RHAGLEN WAITH GYCHWYNNOL Y BWRDD GWEITHREDOL**

Bu'r Bwrdd Gweithredol, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaenraglen Waith a luniwyd drwy gydgyssylltu â'r holl adrannau a Rheolwr Busnes y Bwrdd Gweithredol a oedd yn tynnu sylw at y prif benderfyniadau polisi a chyllidebol oedd i'w gwneud dros y 12 mis nesaf. Nodwyd y byddai'r rhaglen yn dal i gael ei hadolygu a'i chyhoeddi ddwywaith y flwyddyn gan sicrhau y byddai rhaglen gyfredol ar waith yn barhaus.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Flaenraglen Waith a ddiweddarwyd yn cael ei chymeradwyo i'w chyhoeddi.**

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**



Eitem Rhif 6

# Y BWRDD GWEITHREDOL 22AIN O RAGFYR 2016

## Y RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG- CYNNIG I GAU YSGOL BABANOD LLANGENNECH AC YSGOL IAU LLANGENNECH A SEFYDLU YSGOL GYMUNEDOL GYNRADD LLANGENNECH

### Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Argymhellir bod y Bwrdd Gweithredol:

1. Yn ystyried y cyflwyniadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol.
2. Gan ei fod yn fodlon nad oes cynigion cysylltiedig eraill, yr ymgynghorwyd ynghylch y cynnig statudol a'i fod wedi'i gyhoeddi'n unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ac ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, y gwrthwynebiadau ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad yn cefnogi'r cynnig yn yr adroddiad gwrthwynebu, yn argymhell i'r Cyngor Sir fod y cynnig yn cael ei weithredu fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol.

**Rhesymau:** Er mwyn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a'r gweithdrefnau statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

**Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu Perthnasol:** DO - Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant 21ain Tachwedd 2016

Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant:

1. Bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.
2. Gan ei fod yn fodlon nad oes cynigion cysylltiedig eraill, yr ymgynghorwyd ynghylch y cynnig statudol a'i fod wedi'i gyhoeddi'n unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, ac ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori, y gwrthwynebiadau ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad yn cefnogi'r cynnig yn yr adroddiad gwrthwynebu, yn argymhell i'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnig yn cael ei weithredu fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol.

**Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad:** OES 19eg Rhagfyr 2016

**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad:** OES 18fed Ionawr 2017

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y Portffolio:** Cyng. Gareth Jones

<b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> Addysg a Phlant <b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Gareth Morgans <b>Awdur yr adroddiad:</b> Simon Davies	<b>Swyddi:</b>  Cyfarwyddwr addysg a Phlant Gweithredol  Rheolwr Moderneiddio Ysgolion	<b>Rhifau Ffôn / Cyfeiriadau E-bost:</b>  01267 246649 <a href="mailto:EDGMorgans@sirgar.gov.uk">EDGMorgans@sirgar.gov.uk</a>  01267 246471 <a href="mailto:SiDavies@sirgar.gov.uk">SiDavies@sirgar.gov.uk</a>
--	---	--

**EXECUTIVE SUMMARY**

**EXECUTIVE BOARD  
22<sup>ND</sup> DECEMBER 2016**

**MODERNISING EDUCATION PROGRAMME**

**PROPOSAL TO DISCONTINUE LLANGENNECH INFANT  
SCHOOL AND LLANGENNECH JUNIOR SCHOOL AND  
ESTABLISH LLANGENNECH COMMUNITY PRIMARY  
SCHOOL**

## Background

Since the inception of the Modernising Education Programme, it has been set out to create Community Primary Schools to replace Infants and Junior Schools. Following the retirement of Llangennech Infant school's Headteacher at the end of the Summer term 2013 a soft federation has been in place with the Headteacher of Llangennech Junior School leading both settings. On 24<sup>th</sup> September 2014, the Governing Bodies of both Llangennech Infants and Llangennech Junior schools resolved to pursue a formal federation as from April 2015.

The Authority now wishes to proceed with a proposal to create a Community Primary school to replace Llangennech Infants and Llangennech Junior schools. The details of the proposal are outlined below and in the attached Consultation Document.

The Local Authority currently offers full time learning provision for 4-11 year olds through the medium of Welsh and English at the Federated Llangennech Infants and Junior Schools. As part of the new 3-11 primary school that will include nursery provision, it is proposed to change the current linguistic categories of Llangennech Infant school (Dual Stream (DS)) and Llangennech Junior school (Dual Stream (DS)) to a new Welsh Medium (WM) language category school which will increase the provision of Welsh Medium education in Carmarthenshire and bilingualism in the Llangennech area. It will ensure linguistic continuity from the nursery sector along the key stages to the secondary sector so that every pupil becomes fluent and confident in Welsh and English as detailed in the Welsh in Education Strategic Plan (WESP) (2014-2017).

## Proposal

As a result of the small extension to the consultation period, the pre-election period and the high number of responses received during the consultation period; the dates for the proposal have changed. This was to ensure that sufficient time was allowed for people to express their views and that the school holiday period did not impede on the process.

- To discontinue Llangennech Infant school on 31<sup>st</sup> August 2017
- To discontinue Llangennech Junior school on 31<sup>st</sup> August 2017
- As from 1<sup>st</sup> September 2017, to establish a new 3-11 Welsh Medium (WM) language category Community Primary School with nursery provision (hereinafter called the 'New School') on the existing sites and buildings of the current Llangennech Infants and Llangennech Junior schools. The current capacity of both schools will remain unchanged but will be reviewed and adjusted accordingly should the demands arise in the future.

In accordance with Executive Board's instructions, a formal consultation exercise was undertaken between 25<sup>th</sup> January 2016 and 18<sup>th</sup> March 2016. The results of the consultation exercise are contained in the attached Consultation Report and were presented to the ECS Scrutiny Committee and then to the Executive Board for consideration and determination on whether or not to publish a Statutory Notice.

In July 2016 approval was given by the Executive Board for the publication of the Statutory Notice. The Statutory Notice (attached) was published on 5<sup>th</sup> September 2016. The notice provided objectors with 28 days in which to forward their objections in writing to the Council. The Statutory Notice period was due to end on the 2<sup>nd</sup> October 2016. However, following a request from an interested party, the Director of Education and Children's Services (RS) agreed to extend the statutory objection period by one week, until October 9<sup>th</sup> 2016. A total of 1,418 submissions were received to the Statutory Notice.

The attached Objection Report which summarises the objections and the supportive

comments received and the Local Authority's responses to these submissions, has been presented to the ECS Scrutiny Committee and ultimately will be presented to the County Council for their determination.

This provides the ECS Scrutiny Committee and Executive Board the opportunity to offer comment and a recommendation to County Council whether or not to implement the proposal as laid out in the Statutory Notice.

Should the County Council agree to implement the proposal, Llangennech Infant and Llangennech Junior schools will be discontinued on the 31<sup>st</sup> August 2017 and a new 3-11, Welsh Medium, Community Primary School will be established on 1<sup>st</sup> September 2017.

**Recommendation:**

Being satisfied that there are no other related proposals; that the statutory proposal has been consulted upon and published in accordance with the School Organisation Code and contains all the relevant information and, having considered the consultation document and consultation report, the objections and any responses to the notice supporting the proposal in the objection report, that the Executive Board recommend to the County Council the implementation of the proposal as laid out in the Statutory Notice.

<b>DETAILED REPORT ATTACHED?</b>	<b>YES:</b> <b>Consultation Document</b> <b>Consultation Report</b> <b>Statutory Notice</b> <b>Objection Report</b>
----------------------------------	---

## IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report.

**Signed:**      **G. Morgans**                      **Acting Director of Education and Children's Services**  
                     **S. Davies**                                      **School Modernisation Manager**

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>YES</b>

## 1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

Developments are consistent with the Authority's Corporate Strategy, Children and Young People's Plan and the Modernising Education Strategic Outline Programme.

### National Policy Considerations

#### **Welsh Government Welsh-Medium Education Strategy (2010)**

In 2010 the Welsh Government published its national policy for developing Welsh medium education across the nation. The following extracts from the national strategy set out the Welsh Government's views on the importance of Welsh medium education to outcomes for learners and to the ambition to develop bilingual citizens.

*"Welsh medium education from the early years, with robust linguistic progression through every phase of education, offers the best conditions for developing future bilingual citizens.*

*A key focus is on supporting learners to achieve fluency in Welsh and English through Welsh medium education, from the early years onwards.*

*For children from non-Welsh speaking backgrounds, whose initial and main contact with Welsh is through school, this intensive Welsh medium provision is through a process of linguistic immersion.*

*Welsh medium education between the ages of three or four and approximately seven usually means delivering provision primarily through the medium of Welsh. At Key Stage 2 English language skills are also developed though appropriate use of the language as a subject and medium. A key consideration is the nature of the linguistic balance between Welsh and English and the intensity of Welsh required in order for learners to reach fluency in both Welsh and English over time. It is generally accepted that at least around 70% of curricular time should be through the medium of Welsh if learners are to acquire a sufficiently sound command of the language to enable them to use it across a broad range of contexts with confidence and fluency. The Welsh Assembly Government accepts this guiding principle for Welsh medium schools at primary and secondary level.*

*Learners in Welsh medium settings achieve comparable outcomes in both Welsh and English first language, which suggests the success of the sector in developing natural bilingualism.*

*The advantages that bilingualism can bring are well documented and include the promotion of cognitive skills, increasing mental agility and broadening speakers' range of cultural experiences. Research in Canada reveals that bilingualism enhances attention and cognitive control in children and older adults and in 2007 highlighted the impact of bilingualism on delaying the onset of dementia symptoms. Research findings published by the University of Edinburgh in 2009 revealed that speakers of two languages found it easier to focus on a range of tasks, blocking out potential distractions.*

*Welsh medium education from the early years, with robust linguistic progression through every phase of education, offers the best conditions for developing young people who are truly bilingual."*

The Government's Strategy sets targets for local authorities to increase the proportion of seven year old children being taught through the medium of Welsh.

There is a clear expectation that all local authorities incorporate the provisions and requirements of the national strategy in their own local Welsh in Education Strategic Plans,

which are on a statutory footing.

### **Welsh Government Welsh Language Strategy 2012 to 2017- A Living Language: A Language for Living**

This national policy considers the conditions that are needed to promote a greater use of the Welsh language by children and young people in all aspects of their lives and proposes a set of high level actions to secure this goal.

The Strategy declares its aim as *“to increase the provision of Welsh medium activities for children and young people and to increase their awareness of the value of the language”* with the desired outcome being *“children and young people using more Welsh”*.

It includes the following statements related to education and schools:

*“Over the last thirty years we have seen a considerable increase in the number of young people able to speak Welsh (from 14.9% of 3 to 14 year olds in 1971 to 37.2% in 2001). But these figures need to be treated with caution, since it is likely that over half of these are learning Welsh as a second language. As such, for many Welsh speaking children from homes without Welsh speaking parents/carers, the school provides one of the few opportunities for them to use the language.*

*Providing practical opportunities for children and young people to use Welsh ... the best way of developing a feeling of value towards using the language.*

*Among other factors ....the perceived value of the language as a skill for work ... important elements.*

*We ... face challenges within the education system to ensure that children and young people continue to choose Welsh medium education when making choices at key stages of the education – between the primary and secondary sectors, and between the secondary sector and further or higher education. While the Welsh Medium Education Strategy addresses these challenges, we believe that the success of those measures depends, to a great extent, on convincing children and young people of the value of Welsh, economically and culturally.”*

### **Welsh Government – Increasing the Number of Communities where Welsh is the Main Language (December 2013)**

In December 2013 the Welsh Government published the report of its Task and Finish Group that had been established to review the status of the Welsh language and advise on the actions required to regenerate the use of the language. The following brief statements from the report are relevant to the schools sector.

In his introduction the Group Chair declared *“we call on the education system to be progressive ... so that all young people can become fluent and confident in using Welsh and English.”*

Recommendations were made, with a particular focus upon Carmarthenshire and other targeted areas of Wales, for action to *“increase the number and percentage of pupils who are fluent in Welsh and English by the time they leave school.”*

### **Welsh Government – Draft Strategy for a Million Welsh Speakers by 2050**

On the 1<sup>st</sup> August 2016 the First Minister and Minister for Lifelong Learning and Welsh Language, speaking at the national eisteddfod, launched a draft strategy to realise the Welsh Government's vision of a million Welsh speakers by 2050.

The draft strategy identifies 6 key areas for action, one of which is education, for which the strategy declares “we need to see a significant increase in the number of people receiving Welsh-medium education and who have Welsh language skills. Early years provision is also essential, as the earlier a child comes into contact with the language, the more opportunity he or she has to become fluent”.

It also notes: “Because of the importance of education, ensuring there is a workforce that meets the need for Welsh-medium education and training is the starting point for creating more speakers. This means planning to support the training of teachers and learning assistants, expanding sabbatical schemes for the present workforce, and significantly increasing the number of workers in the childcare and early years sectors”.

The draft strategy establishes an objective to:

“create a workforce with the appropriate skills to educate and provide services through the medium of Welsh” and to achieve his by:

- “Significantly increasing the number of teachers and early years practitioners who are able to teach through the medium of Welsh;
- Increasing the number of Welsh medium childcare places, to start as many children as possible on the journey to having two languages”.

and an objective to:

- “significantly increase the number of children and young people educated through the medium of Welsh or bilingually in order to create more speakers” and to achieve this by:
- “Increasing capacity to provide Welsh-medium education by supporting local authorities to plan to increase provision through their Welsh in Education Strategic Plans (WESPs);
- Moving schools along the language continuum to increase the availability of Welsh-medium school places;
- Meeting increasing demand for Welsh-medium education through capital investment where appropriate;
- Expanding Welsh language immersion provision for latecomers, based on the latest evidence, and ensure that provision is consistent;
- Teaching Welsh as one language in order to create a continuum to improve progression and raise standards”.

The draft strategy declares that “the education system will be key in creating future Welsh speakers”, therefore “our priority over the next five years will be to increase the system’s capacity to meet the need to expand Welsh-medium education and improve the way Welsh is taught in our English-medium schools”.

## Estyn

In November 2014 Estyn published a document entitled “Linguistic Progression and Standards in Ten Bilingual Welsh Schools” which reported the findings of its review into the linguistic progression of pupils in Key Stage 4 and identifying and sharing good practice in relation to bilingual education.

Included amongst the findings of the review are the following conclusions:

- “In general, pupils who follow the most additional GCSE courses through the medium of Welsh have the best ability to discuss and write in Welsh”.

- *“Pupils have the misconception that studying subjects through the medium of Welsh can hinder their academic success. In fact, pupils who follow their GCSE course through the medium of Welsh achieve as well as, if not better than, those who follow most of their GCSE course through the medium of English”.*

### **Local Policy Considerations**

#### **Carmarthenshire County Council Welsh Language Development Strategy**

In 2013 Carmarthenshire County Council established a cross-party group of elected members to review the status of the Welsh language in the county following the outcome of the 2011 Census of the Population, which recorded a significant decline in the proportion of the population with Welsh language skills.

The group published a comprehensive report in early 2014 and at its meeting on the 15<sup>th</sup> April 2014 the County Council formally accepted the recommendations made by the group for the development of the Welsh language in the county.

The County Council adopted a total of 73 recommendations made by the group, including 21 that are directly related to the education service, including the following:

*“The County Council works closely with the staff and governing bodies of Carmarthenshire’s dual stream schools in order for them to become Welsh schools.”*

All of the schools related recommendations were integrated within the Carmarthenshire Welsh in Education Strategic Plan.

#### **Welsh in Education Strategic Plan (2014 – 2017)**

Section 85(1) of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 requires the County Council to produce a Welsh in Education Strategic Plan for its area, keep the Plan under review and, if necessary revise it. Carmarthenshire County Council’s Welsh in Education Strategic Plan has been adopted by the County Council and approved by the Welsh Government in accordance with Section 85(2) of the Act.

Section 2 of the Plan sets out a series of actions to realise the Council’s objectives for the development of the Welsh language in its schools.

For Outcome 1, to increase the number of 7 year old learners who are educated through the medium of Welsh, the Plan includes a specific action to *“target 3 dual stream/transitional schools to transfer to being Welsh schools by 2017”*.

There are also targets to increase the percentage of learners achieving Level 4 Plus at the end of Key Stage 2, i.e. increasing fluency, and to increase the number and percentage of learners from Welsh/bilingual primary schools transferring to Welsh/bilingual secondary schools.

### **2. Legal**

Appropriate consultation will need to be initiated in accordance with the relevant statutory procedures.



### **3. Finance**

Revenue implications will be catered for within the Local Management of Schools Fair Funding Scheme.

### **4. Risk Management Issues**

The proposal to close Llangennech Infants and Llangennech Junior schools and open a new Llangennech Community Primary School and also change the language category from Dual Stream to Welsh Medium may impact on the demand for school places at the school and other schools in the Llanelli area. The situation will be monitored as part of the Schools Admission Process and ongoing data forecasting and analysis through the Authority's Modernising Education Programme.

### **5. Staffing Implications**

Staffing implications will be addressed in accordance with the County Council's Redeployment Policy and Procedures.

### **6. Physical Assets**

A new Double Mobile classroom has been installed on the current Llangennech Infant school site. This will provide the school with additional accommodation but it will not increase the capacity of the new school. The situation will be monitored and will review the situation if the pupil figures continue to rise.

## **CONSULTATIONS**

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below:

<b>Signed:</b>	<b>G. Morgans</b>	<b>Acting Director of Education and Children's Services</b>
	<b>S. Davies</b>	<b>School Modernisation Manager</b>

**1. Scrutiny Committee** – The Scrutiny Committee were formally notified of the Statutory Notice period. The committee were asked to consider and comment on the findings of the statutory notice period on 21st November 2016.

**2. Local Member(s)** – Local members were formally notified of the Statutory Notice period. Submissions were received from Cllr. Gwyneth Thomas, Cllr. Gwyn Hopkins. Submissions were also received from Cllr. Cefin Campbell and Cllr. J. S. Williams

**3. Community / Town Council** – The community council were notified of the formal Statutory Notice period. Submissions were received by the Community Council.

**4. Relevant Partners** – Were notified of the Statutory Notice period.

**5. Staff Side Representatives and other Organisations** – Teaching and non-teaching unions were notified of the Statutory Notice period.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

Title of Document	File Ref No. / Locations that the papers are available for public inspection
Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017	<a href="http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=en">http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=en</a>
MEP Annual Report 2013/14 and Programme 2014/15	<a href="http://www.carmarthenshire.gov.uk">www.carmarthenshire.gov.uk</a> County Council Agenda 14 <sup>th</sup> January 2015

## YR ADRAN ADDYSG A PHLANT

*Ein Gweledigaeth...Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o bob oed gyflawni eu potensial addysgol llawn*

**Y Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn y Dyfodol  
ar gyfer Plant sy'n Byw yn ardal  
Llangennech**

## DOGFEN YMGYNGHORI

**Robert Sully**  
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant



Diogelu Plant a Gwella Safonau Addysg i Bawb



**Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Simon Davies, Y Rheolwr Moderneiddio Ysgolion (rhif ffôn 01267 246471)**

**Statws y Ddogfen: ar gael i'r cyhoedd**

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch  
mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp  
sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant  
01267 246474.

## Hanes y Fersiwn

Fersiwn	Sylwadau	Dyddiad
0.1	Drafft cychwynnol i'w ystyried	
0.2	Diwygiadau pellach i'r drafft cychwynnol	


## Rhagair

Yn rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgol a hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i les plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin lawer o athrawon dawnus iawn, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a ddyluniwyd i fodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfleoedd cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y manau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys y bobl y pennwyd bod ganddynt fuddiant yn y mater. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



**Robert A Sully**  
**Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**

## Cynnwys

Rhif	Pwnc	Tudalen
1.	Rhagarweiniad	5
2.	Y Cyd-destun – y Trefniadau Presennol ( <i>Status quo</i> )	5
3.	Gwerthuso'r Trefniadau Presennol	16
4.	Yr Amcanion	18
5.	Yr Opsiynau ar gyfer Newid	20
6.	Y Cynnig	26
7.	Y Broses Ymgynghori a'r Broses Statudol	31
8.	Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned	35
9.	Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	37
10.	Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	38
11.	Atodiad D – Proffil Ardal	45
12.	Atodiad E – Rhestr Byrfodau	49
13.	Atodiad F – <i>Pro forma</i> Ymateb	50

## 1. Rhagarweiniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yn rhan o'r broses hon, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch trefniadau addysg at y dyfodol yn ardal Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. Mae'r cynigion ynghylch newid a gaiff eu nodi yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r amcan tymor hir hwnnw.

Yn unol â'r hyn a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2013/14 a Rhaglen 2014/15 y Rhaglen Moderneiddio Addysg, bwriad yr Awdurdod yw adolygu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Llangennech at y dyfodol.

Nod y ddogfen hon yw ysgogi'r broses ymgynghori drwy egluro'r opsiwn a ffefrir gan yr Awdurdod ar gyfer darparu addysg gynradd yn y dyfodol i ddisgyblion Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. Mae'r ddogfen hefyd yn amlygu pam nad yw'r opsiynau eraill a ystyriwyd yn cael eu ffafrio, yn ogystal â chynnig cyfle i ymgynghoreion gyflwyno unrhyw sylwadau neu gynigion eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried.

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y Côt Trefniadaeth Ysgolion (2013). Hefyd bydd yn cynnwys y bobl y pennwyd bod ganddynt fuddiant yn y mater, gan gynnwys llywodraethwyr ysgolion, staff ysgolion, rhieni a disgyblion.

Bwriedir gweithredu'r newidiadau ffurfiol o fis Ionawr 2017 ymlaen.

Prif ddiben y ddogfen hon yw cyflwyno gwybodaeth a chasglu sylwadau'r rhai y pennwyd bod ganddynt fuddiant yn y mater. Efallai y carech ddefnyddio'r *pro forma* ymateb a geir yn **Atodiad F** ar dudalen 50 o'r ddogfen hon i gyflwyno unrhyw ymateb neu gellir gwneud hynny drwy anfon neges e-bost at: [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk).

## 2. Y Cyd-destun – y Trefniadau Presennol (*Status quo*)

### 2.1 Y Cefndir

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Sir i edrych ar nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'n ofynnol iddo sicrhau eu bod yn y man iawn a bod ganddynt y cyfleusterau iawn ar gyfer y dyfodol a'r adnoddau iawn i ddarparu addysg a dysgu i ddisgyblion. Mae newidiadau yn y cwricwlwm ac yn y modd y bydd y plant yn cael eu haddysgu yn y dyfodol yn golygu bod yn rhaid inni edrych hefyd ar yr adeiladau presennol er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn y dyfodol.



Un o amcanion cyfredol yr Awdurdod yw creu Ysgol Gynradd Gymunedol i gymryd lle ysgolion babanod ac ysgolion iau a manteisio ar gyfle pan fydd Pennaeth Ysgol Babanod/lau yn penderfynu ymddeol neu ymadael â'i swydd. Gall ysgolion cynradd cymunedol ddarparu llif parhaus o addysg i blant, gan olygu na cheir y tarfu sy'n gallu digwydd os yw'r disgyblion yn symud ysgol yn ifanc.

Yn dilyn ymddeoliad Pennaeth Ysgol Babanod Llangennech ddiwedd Tymor yr Haf blwyddyn academaidd 2013, mae ffedereiddio llac (cydweithio ffurfiol) wedi digwydd eisoes, gyda Phennaeth Ysgol Iau Llangennech yn gyfrifol am y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Ar 24<sup>ain</sup> Medi 2014, penderfynodd cyrff llywodraethu Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ffedereiddio'n ffurfiol o fis Ebrill 2015 ymlaen.

Ystyrir bod ffedereiddio yn gam pwysig at uno'r ddwy ysgol i greu un ysgol gynradd.

Yn Llangennech, ar hyn o bryd mae'r Awdurdod lleol yn gallu cynnig darpariaeth ddysgu, ysgol gynradd, ran-amser, i blant 4–11 oed, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth greu'r ysgol gynradd newydd i blant 3–11 oed, sef ysgol a fydd yn cynnwys darpariaeth feithrin, bwriedir newid categorïau iaith presennol Ysgol Babanod Llangennech (Dwy Ffrwd – (DFf) ac Ysgol Iau Llangennech (Dwy Ffrwd – DFf) yn ysgol categori iaith Cyfrwng Cymraeg – (CC) a fydd yn cynyddu'r addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn Sir Gaerfyrddin ac yn sicrhau bod dwyieithrwydd yn cynyddu yn ardal Llangennech. Bydd yn sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd er mwyn i bob disgybl ddod yn rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) (2014–2017).

## 2.2 Yr ysgol/ysgolion y gallai'r cynnig hwn effeithio arni/arnynt

Mae'r ysgolion cynradd cymunedol canlynol o amgylch dalgylchoedd Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech:

Ysgol Gynradd yr Hendy, Sir Gaerfyrddin (DFf)  
Ysgol Gynradd y Bryn, Sir Gaerfyrddin (CS)  
Ysgol Gynradd y Bynea, Sir Gaerfyrddin (CS)  
Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Sir Gaerfyrddin  
Ysgol Gynradd Llannon, Sir Gaerfyrddin (CC)  
Ysgol Gynradd Swiss Valley, Sir Gaerfyrddin (SC\*)

*\*Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg*


Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Sir Gaerfyrddin (CC)  
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Pentip, Sir Gaerfyrddin

## 2.3 Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgolion

Enw'r Ysgol	Y Math o Ysgol	Categori Iaith	Nifer Derbyn	Nifer y Lleoedd	Nifer CYBLD, Ion 2015 CALI (gan gynnwys Meithrin)	Ystod Oedran
Yr Hendy	Cynradd Cymunedol	DFf	25	197	158.5	4–11
Y Bryn	Cynradd Cymunedol	CS	30	246	215	3–11
Y Bynea	Cynradd Cymunedol	CS	23	167	131	3–11
Brynsierfel	Cynradd Cymunedol	CC	30	240	201.5	3–11
Llannon	Cynradd Cymunedol	CC	11	91	106	4–11
Swiss Valley	Cynradd Cymunedol	SC	30	243	224	4–11
Dewi Sant	Cynradd Cymunedol	CC	60	420	455	3–11
Pentip	Gwirfoddol a Gynorthwyr	CS	27	218	182	4–11

Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2015 (oedran ar 31/08/14)  
 CALI – Cyfwerth ag Amser Llawn (disgybl rhan-amser = 0.5)

**Mae'r diagram canlynol yn amlinellu dalgylchoedd yr ysgolion sydd o amgylch Ysgol Iau Llangennech ac Ysgol Babanod Llangennech.**



Wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer disgyblion Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech, roedd yr Awdurdod wedi edrych ar yr ysgolion a enwir uchod ond wedi eu diystyru oherwydd y rhesymau a roddir yn adran 5 o'r ddogfen ymgynghori hon. Felly'r opsiwn a ffefrir gan yr Awdurdod yw dod â'r ddarpariaeth i ben yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech a sefydlu ysgol gynradd newydd ar safleoedd hen Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. Gan na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar addysg y disgyblion, penderfynwyd gweithredu'r newidiadau hyn o fis Ionawr 2017 ymlaen.

## 2.4 Nifer y Disgyblion


Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ym mis Ionawr 2015 a'r pedair blynedd flaenorol.

Ysgol Babanod Llangennech	3 oed (RhA)	3 oed	4 oed (RhA)	4 oed	5 oed	6 oed	7 oed	8 oed	9 oed	10 oed	Cyfanswm Cyfrif Pennau	Cyfanswm (CALI)
lon-15	0	38	0	54	61	63	0	0	0	0	216	216
lon-14	0	27	0	59	61	72	1	0	0	0	220	220
lon-13	0	33	0	59	72	54	0	0	0	0	218	218
lon-12	0	30	0	72	51	55	0	0	0	0	208	208
lon-11	0	47	0	54	57	50	0	0	0	0	208	208

Ysgol Iau Llangennech	3 oed (RhA)	3 oed	4 oed (RhA)	4 oed	5 oed	6 oed	7 oed	8 oed	9 oed	10 oed	Cyfanswm Cyfrif Pennau	Cyfanswm (CALI)
lon-15	0	0	0	0	0	0	70	55	55	50	230	230
lon-14	0	0	0	0	0	0	56	52	48	46	202	202
lon-13	0	0	0	0	0	1	53	47	43	56	200	200
lon-12	0	0	0	0	0	0	48	42	55	55	200	200
lon-11	0	0	0	0	0	0	40	54	54	46	194	194

DATA CYBLD 2015 (Oedran ar 31/08/14)

CALI – Cyfwerth ag Amser Llawn (disgybl rhan-amser = 0.5)



## 2.5 Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion

Mae'r tabl canlynol yn dangos union gyfanswm y disgyblion ac amcanestyniadau ynghylch nifer disgyblion Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech am y pum mlynedd nesaf.

	CALI union	Amcanestyniadau ynghylch Cyfanswm y Disgyblion (CALI)				
		lon 2015	lon 2016	lon 2017	lon 2018	lon 2019
<b>Babanod Llangennech</b>	216	212	209	207	205	204
<b>Iau Llangennech</b>	230	243	249	253	241	235
<b>Cyfanswm</b>	<b>446</b>	<b>455</b>	<b>458</b>	<b>460</b>	<b>446</b>	<b>439</b>

Mae'r tabl isod yn ddadansoddiad o oblygiadau darparu lleoedd i Fabanod a Disgyblion Iau Llangennech yn yr ysgol newydd.

	Union Gyfanswm y Disgyblion (CALI*) lon 2015	Amcanestyniadau – Cyfanswm Disgyblion (CALI*)				
		lon 2015	lon 2016	lon 2017	lon 2018	lon 2019
Y Lleoedd Cyfredol yn Ysgol Babanod Llangennech	171	221**	221**	221**	221**	221**
Y Lleoedd cyfredol yn Ysgol Iau Llangennech	223	240**	240**	240**	240**	240**
<b>Y Cyfanswm (cyfun)</b>	<b>394</b>	<b>461</b>	<b>461</b>	<b>461</b>	<b>461</b>	<b>461</b>
<b>Babanod Llangennech</b>	216	212	209	207	205	204
<b>Disgyblion Iau Llangennech</b>	230	243	249	253	241	235
<b>Amcanestyniadau o'r cyfansymiau</b>	<b>446</b>	<b>455</b>	<b>458</b>	<b>460</b>	<b>446</b>	<b>439</b>
Lleoedd gwag/yn fyr	<b>+ 52</b>	<b>6</b>	<b>3</b>	<b>1</b>	<b>15</b>	<b>22</b>

\* **CALI – cyfwerth ag amser llawn**

\*\* **Adolygwyd y lleoedd ym mhob ysgol gynradd 4–11 oed o fis Medi 2015 ymlaen**

Fel y gwelir o'r tabl uchod, nid oes digon o leoedd yn yr ysgol yn 2015 i ddarparu lleoedd ar gyfer disgyblion presennol Llangennech. Fodd bynnag, oherwydd i'r lleoedd cynradd gael eu hadolygu ym mis Medi 2015, cynyddwyd y lleoedd ar gyfer Babanod Llangennech a Disgyblion Iau Llangennech. O ganlyniad i'r cynnydd yn y lleoedd yn y ddwy ysgol, dengys yr amcanestyniadau y bydd yr ysgolion yn llawn, neu bron yn llawn, o 2016 tan 2018.

Mae trefniadau ar gael i osod ystafell ddosbarth symudol ddwbl ar safle presennol Ysgol Babanod Llangennech. Bydd yn ystafell ychwanegol i'r ysgol ond ni fydd yn cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd. Byddwn yn monitro'r sefyllfa a byddwn yn ei hadolygu os bydd nifer y disgyblion yn dal i godi.

## 2.6 Gwybodaeth am Lleoedd i Ddisgyblion

Cafodd y dull cyfrifo lleoedd ysgol ei newid yn 2006 yn sgil gweithredu "*Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru*" sef canllawiau newydd Cynulliad Cymru a gafodd eu gweithredu gan yr Awdurdod yn 2008. Y dull Cofrestru Mwy Agored (MOE) a ddefnyddid cyn 2008. Dangosir nifer y lleoedd dros ben ar gyfer Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn y tabl canlynol.

	Lleoedd Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru				
	Ion-11	Ion-12	Ion-13	Ion-14	Ion-15
<b>Y Lleoedd yn Ysgol Babanod Llangennech</b>	171	171	171	171	171
Nifer y Disgyblion	208	208	218	220	216
Lleoedd gwag	-37	-37	-47	-49	-45
% y lleoedd gwag	-22%	-22%	-27%	-29%	-26%
<b>Y Lleoedd yn Ysgol Iau Llangennech</b>					
<b>Y Lleoedd yn Ysgol Iau Llangennech</b>	223	223	223	223	223
Nifer y Disgyblion	194	200	200	202	230
Lleoedd gwag	29	23	23	21	-7
% y lleoedd gwag	13%	10%	10%	9%	-3%

Fel y gellir gweld yn y tabl uchod, rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ionawr 2014, roedd lefel sylweddol o leoedd gwag yn Ysgol Iau Llangennech (9–13%). Tra bo gormod o ddisgyblion yn Ysgol Babanod Llangennech. Newidiodd y duedd hon yn 2015 gan nad oes lleoedd gwag yn yr un o'r ddwy ysgol mwyach ac mae niferoedd y disgyblion yn Ysgol Babanod Llangennech yn dal yn uchel.

## 2.7 Data Presenoldeb Ysgolion

Mae gwella presenoldeb yn flaenoriaeth genedlaethol. Os nad yw'r plant yn yr ysgol ni allant ddysgu.

Mae'r Awdurdod yn dadansoddi data a'u rhannu ynghylch pob ysgol gynradd bob hanner tymor er mwyn helpu ysgolion i hoelio sylw ar bresenoldeb. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio data am ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 1 i 6. Mae'n defnyddio'r un dull â'r Ddychweleb Presenoldeb statudol bob mis Medi. Mae'r tabl canlynol yn dangos data presenoldeb diweddaraf Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech:

Ysgol	Data Presenoldeb 2013/14	Data Presenoldeb 2014/15 (Tymor yr Hydref)	Uwch/Is na'r Targed	Targed 2014/15	Targed 2015/16
Ysgol Babanod Llangennech	94.7	95.7	0.2 ↑	95.5	95.5
Ysgol Iau Llangennech	95.3	96.1	0.5 ↑	95.6	95.9

## 2.8 Y Cyfleusterau o ran Adeiladau

Codwyd y wybodaeth ganlynol o'r arolwg eiddo diweddaraf a gynhaliwyd yn yr ysgol yn 2009:

### 2.8.1 Ysgol Babanod Llangennech

Mae Ysgol Babanod Llangennech ger y B4297, Heol Pontarddulais ym mhentref Llangennech yn Sir Gaerfyrddin ac mae oddeutu 3 milltir o Lanelli.

Mae tri adeilad ar y safle: Y prif adeilad yw Adeilad Un ac ystafelloedd dosbarth dros dro yw Adeilad Dau ac Adeilad Tri. Adeiladwaith traddodiadol sydd i Adeilad Un a agorwyd ym 1975, ac mae iddo nifer o estyniadau bach, ac fe wnaed newidiadau i'r tu mewn ers hynny. Y diweddaraf yw estyniad ar ffurf lolfa haul a oedd ar fin cael ei gwblhau adeg yr arolwg.

Adeilad brics ydyw ac iddo do ar oleddf o deils concrit sydd mewn cyflwr da. Mae gan y lolfa haul newydd do dalennau lled dryloyw. Mae unedau UPVC gwyn wedi'u gosod yn lle'r drysau, ffenestri a wynebfyrddau pren, ac mae tramwyfa dan do allanol wedi'i hadeiladu'n ddiweddar ar y ffordd i'r brif fynedfa.

Y tu allan, mae maes parcio, lle chwarae, lle cynnau glas, tai chwarae, offer chwarae, storfeydd a gerddi.

Dan Raglen Genedlaethol Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, cwblhawyd arolwg o holl ysgolion Sir Gaerfyrddin ar ran yr Awdurdod. Roedd canlyniadau Ysgol Babanod Llangennech fel a ganlyn:

Cyflwr B – Rhesymol

Addasrwydd B – Rhesymol

## 2.8.2 Ysgol Iau Llangennech

Mae Ysgol Iau Gynradd Gymunedol Llangennech ar lethr ym mhentref Llangennech yn Sir Gaerfyrddin. Mae rhwng yr A4138 i'r gogledd a'r B4297 i'r de, ac mae'r ysgol ar ochr ddwyreiniol y pentref, tua 3 milltir o ganol Llanelli.

Mae dau adeilad ar y safle. Cafodd Adeilad Un, sef prif adeilad yr ysgol, ei adeiladu yn yr 1950au. Adeilad unllawr ydyw ac iddo islawr sy'n cynnwys boelderdy a dwy ystafell storio, a adeiladwyd o frics, ac mae iddo gyfuniad o doeon ffelt ar wastad ac ar oleddf graddol. Mae'r coridorau canolog yn is na'r ystafelloedd o'u cwmpas, sydd wedi achosi problemau yn y gorffennol yn sgil difrod dŵr. Cafodd y problemau hyn eu datrys ac erbyn hyn mae toeon ar oleddf graddol yn lle llawer o'r toeon gwastad gwreiddiol. Gosodwyd unedau UPVC gwydr dwbl yn lle nifer mawr o'r drysau a'r ffenestri metel sengl gwreiddiol.

Y neuadd chwaraeon yw Adeilad Dau sydd hefyd yn adeilad unllawr o frics a rendrwyd ac iddo doeon ffelt. Deellir i'r neuadd chwaraeon gael ei hail-doi tua 2000 a chafodd yr ystafell ddosbarth, y boelderdy a'r storfeydd eu toi yn 2009. Unedau UPVC gwydr dwbl yw'r drysau a'r ffenestri isel ac mae unedau gwydrog, wedi'u proffilio, uchel gan y neuadd chwaraeon.

Nid oedd tystiolaeth o ddifrod dŵr i nenfydau Adeilad Un, ac mae'r toeon ffelt ar wastad ac ar oleddf graddol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a'u hatgyweirio'n ôl yr angen.

Cafodd toeon gwastad Adeilad Dau eu hailorchuddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Y tu allan, mae maes parcio, lle chwarae, llecynnau glas, tai chwarae, offer chwarae, storfeydd a gerddi.

Dan Raglen Genedlaethol Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, cwblhawyd arolwg o holl ysgolion Sir Gaerfyrddin ar ran yr Awdurdod. Roedd canlyniadau Ysgol Iau Llangennech fel a ganlyn:

Cyflwr C – Gwael

Addasrwydd B – Rhesymol

## 2.9 Y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion yn cael ei chyflwyno. Nid system sy'n seiliedig ar ddata'n unig ydyw. Mae safon yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion yn cael eu hystyried hefyd. Ni fydd y system yn disodli adroddiadau Estyn. Bydd Estyn yn parhau i arolygu ysgolion ac wrth wneud hynny bydd y system genedlaethol ar gyfer categori ysgolion yn cael ei gwirio ganddo'n allanol.

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion ac yn eu rhoi mewn categori cefnogaeth ar sail y wybodaeth ganlynol:

- Ystod o fesurau perfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Hunanwerthuso cadarn gan yr ysgol ar ei chapsiti i wella o ran arweinyddiaeth, addysgu a dysgu.
- Aseiad o hunanwerthuso'r ysgol gan gynghorwyr her yn y consortia rhanbarthol, a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol.

Bydd y system gategoreiddio newydd yn rhoi darlun clir a theg o gynnydd ysgol. Mae pennu categori ysgol yn broses dri cham. Yn gyntaf, ar ôl i'r data perfformiad a'r hunanwerthuso gael eu dadansoddi, caiff categori cefnogaeth drafft ei bennu ar gyfer pob ysgol. Caiff y categori hwn ei drafod â'r ysgol ar sail consortia rhanbarthol ac yna deuir i gytundeb â'r awdurdod lleol yn ei gylch.

Mae'r tabl isod yn crynhoi data Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech;

### Y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion – Data 2014

Ysgol	Grŵp Safonau	Capasiti Gwella	Categori Cefnogaeth
Ysgol Babanod Llangennech	2	A	Gwyrdd
Ysgol Iau Llangennech	2	A	Gwyrdd

Fel y dengys y tabl uchod, mae Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech wedi'u gosod yn y categori Gwyrdd sy'n dynodi eu bod yn ysgolion effeithiol iawn a gaiff eu rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch eu blaenoriaethau gwella.

## 2.10 Adroddiadau Estyn

### 2.10.1 Ysgol Babanod Llangennech

Dan raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn comisiynu adolygiadau o bob ysgol. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Mehefin 2015 a gall ymgynghorwyr gyrchu'r canfyddiadau un ai drwy wefan Estyn sef [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru) neu gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am gopi. (Mae'n bosibl y codir tâl am lun-gopi.)

#### Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Dywed adroddiad Arolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015 fod Ysgol Babanod Llangennech yn ysgol dda. *“Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'n dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac mae ganddo rôl allweddol mewn hybu cydweithio pwrpasol a rhannu arfer dda. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli'n cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r athrawon yn ymroddedig a brwdfrydig ac mae'r holl staff yn cydweithio'n agos iawn fel tîm. Mae gan y*



*Ilywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.*

*"Mae ymddygiad disgyblion yn dda iawn yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o staff yr ysgol am gyngor a chymorth. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw'n iach, ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r cyngor ysgol wedi ei sefydlu'n dda, ac mae'r aelodau yn deall eu rolau'n glir. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau yn yr ysgol.*

*"Mae'r ysgol yn creu ethos Cymreig llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae cymryd rhan mewn eisteddfod leol ac Eisteddfod yr Urdd yn ehangu profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn dda. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am y byd ehangach trwy ddysgu am a chefnogi elusennau tramor.*

*"Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr holl staff a'r disgyblion. Mae hyn yn arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol ym mhob dosbarth. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn holi disgyblion yn effeithiol i gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac i ymestyn eu syniadau.*

*"Mae gan yr ysgol berthynas gref gyda rhieni [ac mae] ethos agored a chroesawgar yn llwyddo i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda holl aelodau cymuned yr ysgol."*

Dangosir arfarniadau'r arolygiad yn y tabl canlynol:

<b>Cwestiynau Allweddol</b>	<b>Barn yr Arolygiad</b>
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	<b>Da</b> – Llauer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	<b>Da</b> – Llauer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	<b>Da</b> – Llauer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol

### **2.10.2 Ysgol Iau Llangennech**

Dan raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn comisiynu adolygiadau o bob ysgol. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2010 a gall ymgylgoreion gyrchu'r canfyddiadau un ai drwy wefan Estyn sef [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru) neu gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am gopi. (Mae'n bosibl y codir tâl am lun-gopiö.)

#### Prif ganfyddiadau'r adroddiad

Dywed adroddiad Arolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2010 fod Ysgol Iau Llangennech yn ysgol dda. [Caiff ei rhedeg yn dda iawn gan bennaeth ymroddedig sy'n meddu ar] weledigaeth glir ynglŷn â [chyfeiriad a] strategaeth tymor hir yr ysgol. *"Mae'r uwch dîm rheoli a'r llywodraethwyr yn adnabod safonau'n drylwyr ac*

yn datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag ystod o faterion. O ganlyniad, mae polisiâu newydd wedi arwain at welliannau arwyddocaol yn lefelau presenoldeb, ynghyd ag ymddygiad disgyblion.

“Mae ymddygiad y disgyblion drwyddi draw yn ardderchog. Maent yn gwrtais a serchog ac yn dangos parch a charedigrwydd at ei gilydd. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae gan bob un agwedd bositif tuag at fwyta'n iach ac yn mwynhau gweithgareddau corfforol ...[gan gynnwys] y cynghorau eco ac ysgol. Ym Mlynnyddoedd 3 a 4, mae disgyblion yn elwa ar gael sesiynau 'Wake-up, Shake-up' yn yr awyr agored, sy'n gwella lefelau canolbwyntio a'u ffitrwydd corfforol cyffredinol.

“Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei ddatblygu'n drwyadl yn y gwaith mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth, a hefyd yng ngweithgareddau'r cyngor eco. Mae amgylchedd allanol yr ysgol, gan gynnwys yr ardd lysiau a'r manau dysgu allanol, yn datblygu i fod yn gyfraniad gwerthfawr i brofiadau'r disgyblion.

“Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i ddatblygu ethos o Gymreictod. Mae arddangosfeydd pwrpasol yn y dosbarthiadau a'r coridorau yn cynnwys geirfa addas sy'n hybu gallu'r disgyblion i ddatblygu'r Gymraeg ac agweddau positif at Gymreictod.

“Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn â'r gymuned leol gan roi ymdeimlad o berthyn i'r disgyblion

“Mae trefniadau pontio effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgol y babanod.”

Dangosir arfarniadau'r arolygiad yn y tabl canlynol:

<b>Cwestiynau Allweddol</b>	<b>Barn yr Arolygiad</b>
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	<b>Da</b> – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	<b>Da</b> – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	<b>Da</b> – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol

Mae'r raddfa pedwar pwynt a ddefnyddiwyd ar gyfer y priif ddyfarniadau yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

1. **Rhagorol** – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector.
2. **Da** – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol.
3. **Digonol** – Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
4. **Anfoddhaol** – Mae'r meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau.

## **3. Gwerthuso'r Trefniadau Presennol**

### **3.1 Ansawdd a safonau mewn addysg**

#### **3.1.1 Deilliannau (safonau a lles)**

Byddai Ysgol Gynradd Gymunedol newydd Llangennech yn rhoi, i'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn cael eu haddysgu yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech, ysgol sydd â darpariaeth a safonau da, o dan arweinyddiaeth ragorol Tîm Rheoli cryf a Chorff Llywodraethu ymroddedig ac effeithiol.

Ni fydd unrhyw effaith ar allu ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yn y Cyfnod Sylfaen neu unrhyw Gyfnod Allweddol.

Ym mis Mehefin 2015 ac ym mis Rhagfyr 2010, barnodd Estyn fod y safonau yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn dda, ac mae'r safonau hyn wedi'u cynnal oddi ar yr arolygiadau blaenorol a chodwyd y safonau eto mewn rhai pynciau.

Roedd y canlyniadau ym mhroffion cenedlaethol 2014 fel a ganlyn:

#### **Ysgol Babanod Llangennech**

- Mae'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen wedi bod yn y chwarter uchaf ac yn uwch na chyfartaledd y teulu ers y tair blynedd diwethaf.
- Mae canlyniadau'r profion cenedlaethol yn unol â'r asesiadau athrawon hyn ac yn dystiolaeth bellach o safonau uchel yr ysgol e.e. yn 2014, yn chwarter 2 yr oedd y ganran a oedd yn sgorio 85+ ym mhob prawf, ac yn chwarter 1 yr oedd y ganran a oedd yn sgorio 115+ ym mhob prawf.

#### **Ysgol Iau Llangennech**

- Mae patrwm fod safonau'n cael eu codi ym mhob pwnc, ac mae'r dangosydd pynciau craidd wedi'i feincnodi uwchlaw'r canolrif a chyfartaledd y teulu ers y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae canlyniadau'r profion cenedlaethol yn dystiolaeth bellach o safonau da'r ysgol gan fod bron pob dangosydd ar gyfer pob pwnc ar draws Blynyddoedd 3–6 yn 2014 wedi'i feincnodi uwchlaw'r canolrif.
- Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gyfoethog, amrywiol a llwyddiannus o weithgareddau allgyrsiol ac mae'r rhain o safon neilltuol o dda e.e. enillydd Côr y Flwyddyn 2015 cyfres *Songs of Praise*, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2015, cyrraedd rownd derfynol Côr Cymru 2015 a bod yn enillwyr Traws Gwlad Dyfed, yn enillwyr dan raglen *Entrepreneur* Llywodraeth Cymru ac yn enillwyr sirol mewn cystadlaethau rygbi a phêl-rwyd.

#### **3.1.2 Y Ddarpariaeth – Ysgol Babanod Llangennech**

Mae Ysgol Babanod Llangennech yn ysgol ddwy ffrwd sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg mewn dwy ffrwd ar wahân. Darperir addysg ddwyieithog yn y ddau ddosbarth derbyn ac yna mae'r disgyblion yn trosglwyddo un ai i'r ffrwd Gymraeg neu i'r ffrwd Saesneg.

Ym mis Mehefin 2015, roedd Estyn o'r farn fod yr addysgu o safon dda. Dengys monitro mewnol a chan yr Awdurdod Lleol fod y safon addysgu hon wedi'i chynnal a'i gwella eto wrth i'r ysgol ymateb i'r problemau a glustnodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O dan arweinyddiaeth glir y cydlynnydd, mae'r ysgol yn nodi'r disgyblion hynny y mae arnynt angen cymorth dysgu ychwanegol, a hynny'n gynnar. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn i ddatblygiad y disgyblion hyn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

### **3.1.3 Y Ddarpariaeth – Ysgol Iau Llangennech**

Mae Ysgol Iau Llangennech yn ysgol ddwy ffrwd sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Ym mis Rhagfyr 2010, roedd Estyn o'r farn fod safon yr addysgu yn dda/rhagorol. Dengys monitro mewnol a chan yr Awdurdod Lleol fod y safon addysgu hon wedi'i chynnal a'i gwella eto wrth i'r ysgol ymateb i'r problemau a glustnodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Gyda thîm mwy o athrawon, bydd y cynnig yn darparu trefniadau bugeiliol gwell a chymorth wedi'i dargedu i grwpiau penodol o ddisgyblion. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi'r ysgol i ddarparu amrywiaeth eang o raglenni penodol i gynorthwyo'r dysgu. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ADY yn cael ei chryfhau i ddarparu amrywiaeth eang o arbenigaeth mewn meysydd lle mae angen hynny.

### **3.1.4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Ffederiddio**

O fis Ebrill 2015, penderfynodd Cyrff Llywodraethu Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech fynd ati i greu ffederasiwn ffurfiol. Caiff ei arwain yn dda iawn gan Bennaeth Ysgol ymroddedig, sydd â gweledigaeth glir ar gyfer strategaeth tymor hir yr ysgol.

Bydd y cynnig hwn yn dod â mwy o gyfleoedd hefyd o ran datblygiad staff gan gynnwys cyfle i ddatblygu eu sgiliau dros y cyfan o'r cwricwlwm oed cynradd.

## **3.2 Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Mae'r Cyngor wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol.

## **3.3 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**

### **3.3.1 Lleoedd Gwag**

Fel y dengys y tabl yn adran 2.6 nid oedd lleoedd gwag yn Ysgol Babanod Llangennech nac yn Ysgol Iau Llangennech ym mis Ionawr 2015. Fel y nodwyd yn nogfen Côt Trefniadaeth Ysgolion (2013) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, lle bo mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent gyflwyno cynigion ad-drefnu ysgolion pe bai hynny'n gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae lefelau 'sylweddol' o leoedd gwag mewn ysgolion unigol, sef 25% neu ragor (yn ôl y diffiniad yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru, 21/2011).

Os gweithredir y cynnig hwn, ac er mwyn cynorthwyo a diwallu'n briodol ofynion ychwanegol yr ysgol a hefyd yr amcanestyniadau ynghylch nifer y disgyblion yn ardal Llangennech, mae trefniadau'n bodoli ar hyn o bryd i osod ystafell ddsbarth symudol ddwbl ar safle Ysgol Babanod bresennol Llangennech. Bydd hyn yn rhoi ystafell ychwanegol i'r ysgol ond ni fydd yn cynyddu nifer y lleoedd cyfredol yn yr ysgol newydd. Bydd yr ystafell ychwanegol o gymorth i'r ysgol reoli'r niferoedd ac yn rhoi lle ychwanegol iddi tra bo disgyblion y ffrwd Saesneg bresennol yn dal yn yr ysgol.

### **3.3.2 Costau cludiant**

Os gweithredir y cynnig, ni fydd cost ychwanegol o ran cludo disgyblion i'r ysgol newydd.

### **3.3.3 Costau cyfalaf/ Derbyniadau cyfalaf**

Yn y tymor byr, a thrwy osod ystafell ddsbarth symudol ychwanegol, bydd digon o ystafelloedd ar safle Ysgol Llangennech ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. Yn y tymor hwy, bwriedir adolygu nifer y lleoedd presennol a'i addasu'n briodol os bydd y galw'n cynyddu yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae Llangennech yn rhan o elfen Band C o Raglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif y Cyngor.

### **3.3.4 Cyllidebau Ysgol**

#### **Ysgol Babanod Llangennech**

Ar sail data 2015/16 mae'r gost gyllidebol fesul disgybl yn £3,668, sydd £71 yn llai na chyfartaledd y sir, sef £3,739.

#### **Ysgol Iau Llangennech**

Ar sail data 2015/16 mae'r gost gyllidebol fesul disgybl yn £3,356. Mae hyn £383 yn llai na chyfartaledd y sir sef £3,739.

## **4. Yr Amcanion**

Ein gweledigaeth yn Sir Gaerfyrddin yw darparu ysgolion dichonol, cynaliadwy ac effeithlon, sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif gyda'r ysgol iawn yn y lle iawn ar gyfer y disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd dysgu o safon uchel. Ein nod tymor hir, dan Raglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yw creu, yn yr ysgol, amgylchedd dysgu a fydd yn diwallu anghenion y cymunedau ac yn cynnig y ddarpariaeth ddysgu orau i'r ardal.

Cenhadaeth ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yw:

*“trawsnewid y rhwydwaith o ysgolion meithrin, cynradd, ac uwchradd sy'n gwasanaethu'r sir yn adnodd strategol a gweithredol effeithiol, sy'n diwallu'r anghenion presennol ac anghenion y dyfodol o ran addysg mewn ysgolion ac addysg gymunedol gysylltiedig, gan fuddsoddi lle bo'n briodol mewn datblygu a gwella adeiladau, isadeiledd a mannau agored fel y gellir lleoli, cynllunio, adeiladu, neu addasu ysgolion mewn modd*

*priodol er mwyn sicrhau bod pobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin yn cael eu datblygu mewn modd cynaliadwy.”*

Amcanion strategol ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yw:

- Datblygu rhwydwaith ysgolion sy'n gynaliadwy'n addysgol ac yn defnyddio adnoddau'n effeithlon yn y tymor hir.
- Datblygu patrwm darparu er mwyn bod pob lleoliad dysgu yn gallu darparu addysg o safon uchel i'w holl ddysgwyr cofrestredig, naill ai fel sefydliad unigol neu fel rhan o ffederasiwn ffurfiol neu drwy gydweithio â lleoliadau neu ddarparwyr eraill.
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n ei galluogi i ddarparu addysg yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif, gan hwyluso gwreiddu'r amcanion craidd er mwyn codi safonau addysgol a chynnal y perfformiad o safon uchel.
- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol.
- Ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio'r holl ysgolion sydd i'w cadw yn y tymor hir, er mwyn iddynt gydymffurfio, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, â'r safonau dylunio a fabwysiadwyd.
- Cyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach, er enghraifft, adnewyddu ac adfywio cymunedol, ffyrdd iach o fyw ac ati, trwy ddatblygu seilwaith galluogi priodol.
- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag i lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.
- Cyflunio ysgolion a buddsoddi mewn adeiladau/safleoedd ysgol modern er mwyn i'r system ysgolion gyfan yn Sir Gaerfyrddin allu cynorthwyo i weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn effeithiol a sicrhau deilliannau gwell i blant ac i bobl ifanc.

Mae amcanion strategol y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cyd-fynd yn dda â'r amcanion cenedlaethol;

- Gwell amgylcheddau dysgu i blant, ynghyd â gwell deilliannau addysgol.
- Arbed mwy o arian drwy ddefnyddio adnoddau'n well er mwyn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystad addysg.
- Cael system addysg sy'n fwy cynaliadwy gan leihau costau rheolaidd a'r ôl troed carbon.

## 5. Yr Opsiynau ar gyfer Newid

Wrth ddatblygu'r opsiwn a ffeirir, ystyriodd y Cyngor Sir amrywiaeth o opsiynau gwahanol. I ystyried yr opsiynau, cawsant eu gwerthuso ar sail y prif amcanion a'r meini prawf er mwyn pennu pa opsiwn oedd yn gweddu orau i ddyheadau Sir Gaerfyrddin. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym o fis Ionawr 2017 ymlaen.

### 5.1 Y Prif Opsiynau a Ystyriwyd

Opsiwn 1	Y sefyllfa bresennol – cadw'r ddwy ysgol ar y ffurf bresennol
Opsiwn 2	Ffedereiddio
Opsiwn 3	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech, gydag un Corff Llywodraethu.
Opsiwn 4	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, ddwy ffrwd, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech.
Opsiwn 5	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd y Bryn i'r disgyblion sydd angen addysg cyfrwng Saesneg.
Opsiwn 6	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd yr Hendy i'r disgyblion sydd angen addysg dwy ffrwd.
Opsiwn 7	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig, i'r disgyblion sydd angen addysg cyfrwng Saesneg, ddarpariaeth un ai yn Ysgol Gynradd y Bryn neu yn Ysgol Gynradd yr Hendy.

## 5.2 Manteision/Anfanteision Pob Opsiwn

<b>Opsiwn 1 – Y Sefyllfa Bresennol</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.</li> <li>Ni fydd angen gweithdrefnau statudol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd y trefniadau presennol yn parhau, gyda diffyg cydlyniaeth o ran y ddarpariaeth.</li> <li>Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r galw presennol yn yr ysgolion.</li> <li>Opsiwn cost uwch.</li> <li>Costau uwch o ran staffio.</li> <li>Fe gollir cyfleoedd i sicrhau synergerddau</li> </ul>

<b>Opsiwn 2 – Ffedereiddio</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyrir bod ffedereiddio yn gam pwysig at uno'r ddwy ysgol i greu un ysgol gynradd.</li> <li>Cyfleoedd i rannu adnoddau</li> <li>Byddai dwy ysgol yn mynd yn un ysgol gynradd.</li> <li>Ni fyddai'r disgyblion yn treulio mwy o amser yn teithio.</li> <li>Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn yr ardal.</li> <li>Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth Ysgol.</li> <li>Byddai cael un ysgol yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad sy'n gymorth i greu cymuned, a byddai'n datblygu'r ymdeimlad hwnnw.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd ysgol categori Cyfrwng Cymraeg (CC) – byddai Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn parhau'n ysgolion categori Dwy Ffrwd (DFf).</li> <li>Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin sy'n sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>Nid yw'n unol â strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg i gael gwared ar ysgolion babanod ac ysgolion iau.</li> <li>Gellir diddymu ffederasiynau.</li> </ul>



### Opsiwn 3 (yr Opsiwn a Ffefrir)

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech, gydag un Corff Llywodraethu.**

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Sefydlu ysgol categori iaith Cyfrwng Cymraeg (CC) benodedig ar ôl cyfnod ffedereiddio, ac iddi un Corff Llywodraethu.</li><li>• Cyfleoedd i rannu adnoddau.</li><li>• Byddai dwy ysgol yn mynd yn un ysgol gynradd.</li><li>• Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li><li>• Ni fyddai'r disgyblion yn treulio mwy o amser yn teithio.</li><li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn yr ardal gyda phob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li><li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth Ysgol.</li><li>• Byddai cael un ysgol yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad sy'n gymorth i greu cymuned, a byddai'n datblygu'r ymdeimlad hwnnw.</li><li>• Bydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin sy'n sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ni fyddai ysgol categori Dwy Ffrwd (DFf) benodedig – byddai Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn parhau'n ysgolion categori dwy ffrwd.</li></ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Bydd darpariaeth feithrin benodedig yn yr ysgol.</li> <li>• Pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd, bydd yr holl ddisgyblion ar eu hennill oherwydd eu bod yn medru dwy iaith.</li> </ul>	
---	--

#### Opsiw 4

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, ddwy ffrwd, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech.**

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu ysgol categori Dwy Ffrwd benodedig ar ôl cyfnod ffedereiddio.</li> <li>• Cyfleoedd i rannu adnoddau.</li> <li>• Byddai dwy ysgol yn mynd yn un ysgol gynradd.</li> <li>• Ni fyddai'r disgyblion yn treulio mwy o amser yn teithio.</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn yr ardal.</li> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth Ysgol.</li> <li>• Byddai cael un ysgol yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad sy'n gymorth i greu cymuned, a byddai'n datblygu'r ymdeimlad hwnnw.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd ysgol categori Cyfrwng Cymraeg (CC) benodedig – byddai Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn parhau'n ysgolion categori Dwy Ffrwd (DFf).</li> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> </ul>

## Opsiwn 5

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd y Bryn i ddisgyblion sydd angen addysg Cyfrwng Saesneg (CS).**

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwy ffrwd).</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.</li> <li>• Byddai cael dwy ysgol yn agos i'w gilydd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad, ac yn datblygu'r ymdeimlad hwnnw, yn ardaloedd y Bryn a Llangennech.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd ysgol benodedig, categori Dwy Ffrwd – Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion gan fod Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn 2.04 milltir (5 munud) i ffwrdd o Llangennech.</li> <li>• Dim digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn ar gyfer disgyblion Cyfrwng Saesneg Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> </ul>

## Opsiwn 6

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd yr Hendy i ddisgyblion sydd angen addysg ddwy ffrwd.**

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwy ffrwd).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector</li> </ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.</li> <li>• Byddai cael dwy ysgol yn agos i'w gilydd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad, ac yn datblygu'r ymdeimlad hwnnw, yn ardaloedd yr Hendy a Llangennech.</li> </ul>	<p>meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Dim digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy ar gyfer holl ddisgyblion Cyfrwng Saesneg Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion gan fod Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy 1.07 milltir (5 munud) i ffwrdd o Llangennech.</li> </ul>
--	---

## Opsiw'n 7

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig, i ddisgyblion sydd angen addysg Cyfrwng Saesneg (CS), ddarpariaeth un ai yn Ysgol Gynradd y Bryn neu yn Ysgol Gynradd yr Hendy.**

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwy ffrwd).</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Saesneg dymor hir yn ardal y Bryn.</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg a Saesneg yn y tymor hir yn ardal yr Hendy.</li> <li>• Byddai cael tair ysgol yn agos i'w gilydd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad, ac yn datblygu'r</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Ni fydd gan Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy ddigon o leoedd ar gyfer holl ddisgyblion Cyfrwng Saesneg (CS) Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> </ul>

<p>ymdeimlad hwnnw, yn ardaloedd y Bryn, yr Hendy a Llangennech.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd gan Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn ddigon o leoedd ar gyfer holl ddisgyblion Cyfrwng Saesneg (CS) Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion gan fod Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy 1.07 milltir (5 munud) i ffwrdd o Llangennech.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion gan fod Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn 2.04 milltir (5 munud) i ffwrdd o Llangennech.</li> </ul>
--	---

## 6. Y Cynnig

### 6.1 Y Rhesymeg dros Newid

Yn dilyn ymddeoliad Pennaeth Ysgol Babanod Llangennech ar ddiwedd Tymor yr Haf, blwyddyn academaidd 2013, mae ffedereiddio llac (cydweithio ffurfiol) wedi digwydd eisoes, gyda Phennaeth Ysgol Iau Llangennech yn gyfrifol am y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Ar 24<sup>ain</sup> Medi 2014, penderfynodd cyrff llywodraethu Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ffedereiddio'n ffurfiol o fis Ebrill 2015 ymlaen. Ystyrir bod ffedereiddio yn gam pwysig at uno'r ddwy ysgol i greu un ysgol gynradd.

Yn Llangennech, ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Lleol yn gallu cynnig darpariaeth ddysgu, ysgol gynradd, ran-amser, i blant 4–11 oed, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn yr ysgol gynradd newydd i ddisgyblion 3–11 oed, a fydd yn cynnwys darpariaeth feithrin, bwriedir newid categorïau ieithyddol presennol Ysgol Babanod Llangennech (Dwy Ffrwd) – (DFf) ac Ysgol Iau Llangennech (Dwy Ffrwd) – (DFf) i greu ysgol newydd categori Cyfrwng Cymraeg – (CC) a fydd yn cynyddu'r addysg Cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hefyd yn sicrhau y cynyddir dwyieithrwydd yn ardal Llangennech. Bydd yn sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin drwy'r cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd er mwyn i bob disgybl ddod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (2014–2017).

Bydd y cynnig yn darparu trefniadau bugeiliol gwell a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Bydd hyn yn ei dro yn galluogi'r ysgol i ddarparu amrywiaeth ehangach o raglenni penodol i gynorthwyo'r dysgu. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ADY yn cael ei chryfhau i ddarparu amrywiaeth eang o arbenigaeth mewn meysydd lle mae angen hynny.

Hefyd bydd y cynnig hwn yn cynnig mwy o gyfleoedd datblygiad staff gan gynnwys cyfle i ddatblygu eu sgiliau o ran y cyfan o'r cwricwlwm oed cynradd.

## 6.2 Y Cynnig

Wrth benderfynu ar yr opsiwn a ffeirir, ystyriwyd opsiynau eraill, fel yr amlygir yn adran 5.3 o'r ddogfen hon. Cynnig yr Awdurdod yw dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech, ac iddi un Corff Llywodraethu.

Pennwyd mai'r cynnig canlynol yw'r opsiwn a ffeirir gan yr Awdurdod ar gyfer darparu addysg gynradd yn y dyfodol yn yr ardal. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ym mis Ionawr 2017.

## 6.3 Y Dalgylch

### 6.3.1 Cynradd

O'r 1<sup>af</sup> Ionawr 2017, ni fydd newid o ran dalgylchoedd Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

### 6.3.2 Uwchradd

I blant sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech, y trefniadau o ran addysg uwchradd fydd Ysgol Bryngwyn ac Ysgol y Strade (y ffrwd Gymraeg).

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn anfon eu plentyn/plant i'r ysgol sydd yn y dalgylch lleol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion gwahanol. Os byddwch yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig eich dalgylch nac yn ysgol agosaf i'ch cartref, mae rhai materion y bydd angen ichi eu hystyried cyn gwneud penderfyniad.

- Os nad yw plentyn yn mynychu ysgol y dalgylch na'r ysgol agosaf i gyfeiriad y cartref a bod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddewis y rhieni, mae'r cyfrifoldeb yn llwyr ar y rhieni/gofalwr i gludo'r disgybl i'r ysgol ac oddi yno ac i dalu am gost y cludo hwnnw.
- Os mynegir dymuniad i ddewis ysgol benodol, bydd yr Awdurdod Lleol a llywodraethwyr yr ysgol yn cydymffurfio'n gyfreithlon â'r dewis a fynegir. Yn yr un modd ag y gwneir â phob cais, os mynegir dymuniad i ddewis ysgol benodol, bydd angen ystyried ac asesu hynny yn ystod y broses dderbyn er mwyn sicrhau nad yw'r Awdurdod yn mynd dros y terfyn o ran nifer y disgyblion a dderbynnir i'r ysgol honno ar gyfer y grŵp blwyddyn perthnasol.

## 6.4 Manteision ac Anfanteision y Cynnig

### Manteision

- Mynediad i ysgol sydd â darpariaeth a safonau da dan arweiniad Tîm Rheoli cryf.

- Ysgol gymunedol sy'n cynnig addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.

### Anfanteision

- Gwrthwynebiad y gymuned leol i'r cynnig.
- Colli addysg Cyfrwng Saesneg yn ardal Llangennech.
- Angen proses statudol i weithredu'r cynnig.

## 6.5 Y Risgiau a'r Gwrthfesurau

Risg		Gwrthfesur
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013.
2.	Materion staffio o ran sicrhau cyflogaeth arall addas.	- Mae gan yr Awdurdod bolisiâu staffio yr argymhellir eu gweithredu o ran ad-drefnu ysgolion.
3.	Integreiddio disgyblion i'r ysgol newydd.	- Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r disgyblion, y mae arnynt angen addysg Cyfrwng Saesneg, i sicrhau pontio ac integreiddio hwylus i'r ysgol newydd.

## 6.6 Rheoli a Threfnu

O benderfynu ar yr opsiwn a ffefrir a chreu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3-11 oed - sef ysgol a fydd yn cynnwys darpariaeth feithrin - yn Llangennech, gobaith yr Awdurdod Lleol yw y bydd y disgyblion sydd yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ar hyn o bryd yn parhau â'u haddysg yn Ysgol Gymunedol Llangennech, sef yr ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, a fydd yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin ac yn sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd er mwyn i bob disgybl ddod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014-2017).

Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ddisgyblion sydd yn ffrwd Saesneg bresennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech. O fis Medi 2017, bydd yr holl ddisgyblion a fydd yn dod i Flwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn y bydd angen llai o le i addysgu'r disgyblion drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith ar reoli a threfnu yr Ysgol Gynradd Gymunedol newydd ar gyfer disgyblion o Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech .

<b>Data CYBLD Ionawr 2015</b> (Oedran ar 31/08/14)						
<b>Dosbarth</b>	<b>Ysgol Babanod Llangennech</b>			<b>Ysgol Iau Llangennech</b>		
	<b>Cymraeg</b>	<b>Saesneg</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Cymraeg</b>	<b>Saesneg</b>	<b>Cyfanswm</b>
Meithrin2	38	0	38			
Derbyn	54	0	54			
Blwyddyn 1	48	13	61			
Blwyddyn 2	46	17	63			
Blwyddyn 3				51	19	70
Blwyddyn 4				39	16	55
Blwyddyn 5				37	18	55
Blwyddyn 6				35	15	50
<b>Cyfanswm</b>	<b>186</b>	<b>30</b>	<b>216</b>	<b>162</b>	<b>68</b>	<b>230</b>

## 6.7 Arbedion Refeniw

Os gweithredir y cynnig hwn, ni fydd dim arbedion refeniw. Nid yw hyn yn ystyried unrhyw gyfyngiadau cyllidebol arfaethedig o ran y dyraniad Ariannu Teg na chostau cludiant ychwanegol.

Byddai unrhyw arian a arbedid yn y dyfodol yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth addysg.

## 6.8 Y Costau fesul Disgybl

### Ysgol Babanod Llangennech

Ar sail data 2015/16 mae'r gost gyllidebol fesul disgybl yn £3,668. Mae hyn £71 yn llai na chyfartaledd y sir, sef £3,739.

### Ysgol Iau Llangennech

Ar sail data 2015/16 mae'r gost gyllidebol fesul disgybl yn £3,356. Mae hyn £383 yn llai na chyfartaledd y sir, sef £3,739.

## 6.9 Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Babanod Llangennech. Nifer derbyn presennol yr ysgol: 55 (o fis Medi 2015 ymlaen).

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Iau Llangennech. Nifer derbyn presennol yr ysgol: 60 (o fis Medi 2015 ymlaen).

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn disgybl i'r ysgol mae manylion cyswllt Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:

Yr Uned Llywodraethu a Derbyn i Ysgolion  
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin  
Yr Adran Addysg a Phlant  
Bloc 2  
Y Prif Adeilad



Parc Dewi Sant  
Caerfyrddin. SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 246449  
Rhif Ffacs: 01267 246746  
E-bost: [rjonesevans@sirgar.gov.uk](mailto:rjonesevans@sirgar.gov.uk)

## 6.10 Aseiad o'r Effaith ar Gludiant

Os gweithredir y cynnig, ni fydd goblygiadau cludiant i ddisgyblion Ysgol Babanod Llangennech nac Ysgol Iau Llangennech.

### Llwybrau Diogel i'r Ysgol

Ni chafodd dim ceisiadau Llwybrau Diogel i'r Ysgol eu cyflwyno o ardal Llangennech.

## 6.11 Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler **Atodiad A** o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion llawn am yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned sef aseiad a gafodd ei gynnal ynghylch Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

## 6.12 Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler **Atodiad B** o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion llawn am yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gafodd ei gynnal ynghylch Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

## 6.13 Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler **Atodiad C** o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion am yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sef aseiad ynghylch Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

## 6.14 Effaith y cynnig ar y staff

### 6.14.1 Staff Ysgol Babanod Llangennech

Ar hyn o bryd, mae 1 Pennaeth, 2 Bennaeth Cynorthwyol ar secondiad ac 11 o Athrawon yn yr ysgol. Mae gan yr Awdurdod bolisiâu a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion a bydd y rhain yn cael eu gweithredu. Bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo staff yr ysgol i gael cyflogaeth arall addas os bydd unrhyw fodd o wneud hynny, drwy brosesau adleoli.

### 6.14.2 Staff Ysgol Iau Llangennech

Ar hyn o bryd mae 1 Pennaeth, 2 Bennaeth Cynorthwyol ar secondiad ac 8 o Athrawon yn yr ysgol. Mae gan yr Awdurdod bolisiâu a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion a bydd y rhain yn cael eu

gweithredu. Bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo staff yr ysgol i gael cyflogaeth arall addas os bydd unrhyw fodd o wneud hynny, drwy brosesau adleoli.

## 7. Y Broses Ymgynghori a'r Broses Statudol

### 7.1 Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2013).

### 7.2 Â phwy arall yr ymgynghorir?

Anfonwyd y ddogfen hon at y bobl ganlynol sydd â buddiant yn y mater:

Staff (Athrawon a Staff Atodol)	Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid
Ysgol Babanod Llangennech	Ysgol Babanod Llangennech
Ysgol Iau Llangennech	Ysgol Iau Llangennech
Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin	Cynghorwyr Cymuned / Cyngor Cymuned Llangennech
Cynghorwyr Cyngor Sir Lleol	Comisiynydd y Gymraeg
Aelod Cynulliad (AC) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)	Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT)
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)	Undeb y GMB
UNSAIN	*Yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos yn Sir Gaerfyrddin
Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G)	Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol
Cyfarwyddwyr Addysg – yr holl Awdurdodau Cyfagos	ERW – Ein Rhanbarth ar Waith
Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol	Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Gweinidogion Cymru
Estyn	Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol a'r

	Eglwys Gatholig
Brightbeginings Nursery	Cylch Meithrin Llangennech

\* Anfonwyd y ddogfen ymgynghori at Bennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr ysgolion cynradd cymunedol yr Hendy, y Bryn, Brynsierfel, y Bynea, Swiss Valley, Llannon, Dewi Sant ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr Pentip, Ysgolion Uwchradd (Ysgol y Strade a Bryngwyn).

### 7.3 Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd modd ichi fynegi eich barn rhwng 25<sup>ain</sup> Ionawr 2016 a'r 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016.

Gallwch fynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr neu drwy lenwi'r ffurflen ymateb a geir yn **Atodiad F**, a dylai ddod i law'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant (Mr R. A. Sully) erbyn canol dydd, 18<sup>fed</sup> Mawrth, 2016, fan hwyraf. Nodir y cyfeiriad isod:

Mr R. A. Sully, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB  
neu anfonwch e-bost at: [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk)

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno isod.

### 7.4 Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gydag aelod o'r Tîm Gwella Ysgolion. Cynhelir y sesiwn hon yn Ysgol Iau Llangennech a bydd cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol yn bresennol.

Bydd y wybodaeth, a gesglir o'r sesiwn ymgynghori â'r disgyblion, yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Cyngor Sir i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

### 7.5 Ystyried eich Sylwadau

Cyn pen 13 wythnos ar ôl 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016, bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd bydd copiâu papur o'r adroddiad ar gael drwy wneud cais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a fu â disgyblion Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd rhagddo â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd rhagddo â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## **7.6 Hysbysiad Statudol**

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i arddangos yn yr ysgolion a enwyd a'r rhai cyfagos yn yr ardal. Bydd copiâu o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau staff. (Gall yr ysgol dddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost hefyd.)

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 niwrnod.

## **7.7 Dod i benderfyniad ynghylch y Cynnig**

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn dod i benderfyniad ynghylch y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i'w law.

## **7.8 Hysbysu am y penderfyniad**

Ar ôl dod i benderfyniad ynghylch y cynnig, rhoddir gwybod i bawb sydd â buddiant yn y mater fod y penderfyniad ar gael a chaiff y penderfyniad ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## 7.9 Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses a'r amserlen statudol fel a ganlyn:

Ionawr 2016	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartion penodedig ac eraill sydd â buddiant yn y mater.
Mawrth 2016	Dyddiad cau cyflwyno barn i'r Adran Addysg a Phlant ynghylch y cynnig.
Mehefin 2016	<p>Cyn pen 13 wythnos ar ôl 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei roi gerbron y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Craffu ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Penderfynir mynd rhagddo â chyhoeddi'r Hysbysiad Statudol NEU dod â'r cynnig i ben.</p> <p>Os penderfynir mynd rhagddo, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion y mae'n effeithio arnynt. Bydd copiâu o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i rieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff.</p> <p>Ar ôl y cyhoeddi, bydd cyfnod o 28 niwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>
Gorffennaf 2016	<p>Diwedd y cyfnod hysbysu 28 niwrnod, ffurfiol ar gyfer gwrthwynebu.</p> <p>Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn dod i benderfyniad ynghylch y cynnig. Gall Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a ddaeth i'w law.</p>
Tachwedd 2016	<p>Y dyddiad cau ar gyfer hysbysu'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.</p> <p>Ar ôl dod i benderfyniad ynghylch y cynnig, rhoddir gwybod i bawb sydd â buddiant yn y mater fod y penderfyniad ar gael a bydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p>

## **8. Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

### **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

#### **Gwybodaeth Gyffredinol**

#### **Ysgol Babanod Llangennech**

Mae Ysgol Babanod Llangennech ar safle gwastad ar gwr pentref Llangennech ger Llanelli. Mae tri adeilad ar y safle. Adeilad Un yw'r brif ysgol. Ystafelloedd dosbarth dros dro yw Adeilad Dau ac Adeilad Tri. Adeiladwaith traddodiadol sydd i Adeilad Un a agorwyd ym 1975, ac mae iddo nifer o estyniadau bach, a newidiwyd y tu mewn ers hynny. Adeilad brics ydyw ac iddo do ar oleddf o deils concrit. Mae gan y lolfa haul newydd do dalennau lled dryloyw. Mae unedau UPVC gwyn wedi'u gosod yn lle'r drysau, ffenestri a wynebyrddau pren gwreiddiol, ac mae tramwyfa dan do allanol wedi'i hadeiladu ar y ffordd i'r brif fynedfa. Y tu allan, mae maes parcio, lle chwarae, llecynnau glas, tai chwarae, storfeydd offer chwarae a gerddi.

#### **Ysgol Iau Llangennech**

Mae Ysgol Iau Llangennech ar lethr ym mhentref Llangennech ar gyrion Llanelli. Mae dau adeilad ar y safle. Cafodd Adeilad Un, sef prif adeilad yr ysgol, ei adeiladu yn yr 1950au. Adeilad unllawr ydyw, ac iddo islawr sy'n cynnwys y boelerdy a dwy ystafell storio, a adeiladwyd o frics, ac mae iddo gyfuniad o doeon ffelt ar wastad ac ar oleddf graddol. Gosodwyd unedau UPVC gwydr dwbl yn lle nifer mawr o'r drysau a'r ffenestri metel sengl gwreiddiol. Y neuadd chwaraeon yw Adeilad Dau sydd hefyd yn adeilad unllawr o frics a rendrwyd ac iddo doeon ffelt, gwastad. Deellir i'r neuadd chwaraeon, a'r ystafell ddosbarth, y boelerdy a'r storfeydd, gael eu hail-doi. Unedau UPVC gwydr dwbl yw'r drysau a'r ffenestri isel ac mae unedau gwydrog, wedi'u proffilio, uchel gan y neuadd chwaraeon.

Mae Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn ward Llangennech sydd â phoblogaeth o 4,964. O ran amddifadedd, mae ward Llangennech 1 yn safle 93 ar restr Sir Gaerfyrddin ac mae ward Llangennech 2 yn safle 65 ar y rhestr a ward Llangennech 3 yn safle 85 (1 = y mwyaf amddifad).

#### **Cyfleusterau/Gweithgareddau eraill yr Ysgol**

Mae gan Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech berthynas agos â'r rhieni ac maent yn gweithio'n dda gyda'r gymuned. Mae'r rhieni ac ymwelwyr o'r gymuned yn cyfrannu'n gadarnhaol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgolion yn niferus ac yn amrywiol, gan gynnwys y clybiau Mathemateg a Chwaraeon a gynigir yn yr ysgolion. Hefyd mae gan Ysgol Iau Llangennech gôr llwyddiannus a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Côr Cymru 2015 ac a enillodd gystadleuaeth Côr y Flwyddyn 2015 cyfres deledu *Songs of Praise*. Hefyd mae disgyblion o'r ysgol wedi bod yn enillwyr gweithgareddau Traws Gwlad Dyfed, yn enillwyr rhaglen *Entrepreneur* Llywodraeth Cymru ac yn enillwyr sirol o ran chwarae rygbi a pêl-rwyd.

Mae'r gymuned yn defnyddio Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn helaeth gyda'r hwyr at ddibenion megis y tîm pêl-droed lleol sy'n defnyddio'r meysydd chwarae bob wythnos, tîm badminton y pentref a'r clwb rygbi sy'n defnyddio'r neuadd chwaraeon, ac mae Theatr Denny Twp, a'r Clwb Cristnogol, yn defnyddio'r ysgolion ar gyfer eu digwyddiadau. Yr ysgolion hefyd yw cartref Llwyth y Llan, sef adran yr Urdd.

### **Dadansoddi'r Dalgylch**

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer pob disgybl sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r mwyafrif o'r rhieni'n anfon eu plentyn/plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

### **Plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch**

Ar sail data CYBLD mis Ionawr 2015 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch gwasgariad disgyblion dalgylch Ysgol Babanod Llangennech yn dangos bod 159, o'r 216 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, yn byw yn y dalgylch a bod y 57 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Ar sail data CYBLD mis Ionawr 2015 ynghylch cyfeiriadau disgyblion, roedd y data daearyddol ynghylch gwasgariad disgyblion dalgylch Ysgol Iau Llangennech yn dangos bod 166, o'r 230 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, yn byw yn y dalgylch a bod y 64 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

## **9. Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

**9.1** Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2014–2017. Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i ddisgyblion Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech gael darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd, sef Ysgol Gymunedol Llangennech.

### **9.2 Categori Iaith**

#### Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech

O dan y trefniadau newydd ar gyfer categorïddio ysgolion ar sail y ddarpariaeth ieithyddol, mae Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn gosod eu hunain yn y categori Dwy Ffrwd (DFf) gan gynnig addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

#### Ysgol Gymunedol Llangennech

O dan y trefniadau newydd ar gyfer categorïddio ysgolion, mae'r Cyngor yn cynnig y bydd yr ysgol newydd, sef Ysgol Gymunedol Llangennech, yn dod yn ysgol Categori Cyfrwng Cymraeg (CC) ac y bydd yn sicrhau y cynyddir dwyieithrwydd yn ardal Llangennech.

### **9.3 Safonau – Y Gymraeg**

#### Ysgol Babanod Llangennech

Fel y nodwyd yn adran 2.10 o'r ddogfen ymgynghori hon, ym mis Mehefin 2015 y cynhaliwyd yr arolygiad Estyn diwethaf o Ysgol Babanod Llangennech.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredid Saesneg ar yr aelwyd a dim ond 23% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. *“Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae medrau llafar bron pob un disgybl yn gadarn mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn y ddwy ysgol.”*

Dywedwyd bod *“llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau ail iaith yn y Gymraeg. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn fedrus ac yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa sylfaenol ar gyfer ymateb i weithgareddau dyddiol.”*

#### Ysgol Iau Llangennech

Fel y nodwyd yn adran 2.10 o'r ddogfen ymgynghori hon, ym mis Rhagfyr 2010 y cynhaliwyd yr arolygiad Estyn diwethaf o Ysgol Iau Llangennech.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredid Saesneg ar yr aelwyd ond roedd 54% o'r disgyblion



yn siarad Cymraeg i safon iaith gyntaf. O ran yr 8 dosbarth yn yr ysgol, ceir pedwar dosbarth lle addysgir y disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwyd bod “*disgyblion y ffrwd Gymraeg yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur, ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r modd y mae [mwyafrif y] disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn rheolaidd yn nodwedd gref [yn yr ysgol].*”

## **10. Atodiad C – Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

### **Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith**

#### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydaddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

#### **Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen i ddileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Hefyd mae'n bwysig nodi bod awdurdodau cyhoeddus sy'n atebol i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn atebol i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth, yn rhan o'r un broses, ystyried yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau eu cael ar hawliau dynol.

## Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisïau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r aseiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

## Adrodd ynghylch aseidiadau


Os yw'n amlwg o'r aseiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

## Aseidiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Aseiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

## Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (yr Aseiad) – y broses i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau Adnoddau Dynol



## Templed ar gyfer Aseiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Atodiad 1

<b>Adran:</b> Addysg a Phlant	<b>Cwblhawyd gan (arweinydd):</b> Lowri Morgan	<b>Dyddiad yr aseiad cychwynnol:</b> Medi 2015  <b>Dyddiadau adolygu:</b> Amherthnasol
<b>Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)</b>	Dod â'r ddarpariaeth i ben yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech a chreu Ysgol Gynradd Gymunedol newydd, Cyfrwng Cymraeg	
<b>A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?</b>	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – y Rhaglen Moderneiddio Addysg	
<b>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r aseiad a'r polisi? (rhestru yn unig)</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif</li> <li>• Y Rhaglen Moderneiddio Addysg</li> <li>• Canllawiau Llywodraeth Cymru – Côt Trefniadaeth Ysgolion 2013</li> <li>• Data CYBLD 2015</li> </ul>		

<b>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.</b>	Cynnig y Cyngor Sir i ddod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a chreu Ysgol Gynradd Gymunedol newydd, Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a gytunwyd gan yr Awdurdod.		
<b>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-</b> (1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;	<b>2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd?</b> Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.	<b>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?</b>	<b>4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?</b> Amherthnasol

(4) Rhybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a (5) Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)			<b>Risgiau</b>	<b>Effeithiau cadarnhaol</b>	
Nodweddion gwarchoddedig	<b>Oed</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
	<b>Anabledd</b>	Effaith fach	Risg Ddiduedd	Yn Ysgol Babanod Llangennech, ar hyn o bryd mae 37% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn Ysgol Iau Llangennech, ar hyn o bryd mae 26% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cymorth digonol ar gael i'r disgyblion hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.	
	<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
	<b>Hil</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
	<b>Crefydd/Cred</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
	<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
	<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
	<b>Rhyw</b>	Dim effaith o gwbl	Risg Ddiduedd		
<b>Y Gymraeg</b>	Effaith fawr	Risg Ddiduedd	Yn rhan o'r cynnig, bydd categori iaith yr ysgol yn creu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, a fydd yn ategu		

				gweledigaeth y Cyngor a'i amcanion addysg Cyfrwng Gymraeg fel y'u hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2014–2017.	
	<b>Unrhyw faes arall</b>	Effaith fach	Risg Ddiduedd		

<b>5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?</b>		<b>DO</b> <input checked="" type="checkbox"/> Bydd ymgynghori anffurfiol a ffurfiol fel y nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ymgynghori'n anffurfiol â'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Yn rhan o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol, bydd ymgynghori â'r prif randdeiliaid a restrir ar dudalen 6 o'r ddogfen ymgynghori hon. <b>NADDO</b> <input type="checkbox"/>	
<b>6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai?</b> Sicrhau bod rhieni, staff a llywodraethwyr yn cael gwybodaeth lawn yn ystod pob cam ymgynghori.			
<b>7. Caffael</b> <b>Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?</b> Gofynnir ichi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. <b>Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.</b> Amherthnasol			
<b>8. Adnoddau Dynol</b> <b>Ar ôl coladu'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau Adnoddau Dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?</b> Mae gan yr Awdurdod bolisiâu a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion ac argymhellir y rhain i'w gweithredu. Bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo staff yr ysgol i gael cyflogaeth arall addas os oes unrhyw fodd gwneud hynny, drwy brosesau adleoli.			
<b>9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Aseiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad?</b> (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)		DYLAI <input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> <b>NA DDYLAI</b>
<b>Cymeradwywyd gan:</b> Prif Swyddog Addysg	<b>Gareth Morgans</b>	<b>Dyddiad: Tachwedd 2015</b>	

## Templed ar gyfer Aseiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad 2

<b>Adran:</b>	Gweler yr aseiad cychwynnol o'r effaith
<b>Cwblhawyd gan (arweinydd):</b>	
<b>Dyddiad yr aseiad manwl:</b>	
<b>Y maes a asesir: (<i>Polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad ariannol</i>)</b>	Gweler yr aseiad cychwynnol o'r effaith
<b>A yw'r swyddogaeth/y polisi/ y weithdrefn/yr arfer yn bod eisoes neu'n un newydd?</b>	Gweler yr aseiad cychwynnol o'r effaith

<b>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, yr arfer, neu'r weithdrefn a phwy fydd yn cael budd o hyn.</b>	Gweler yr aseiad cychwynnol o'r effaith
<b>2. Rhestrwch unrhyw ddogfennau, tystiolaeth, ymchwil a ddefnyddiwyd wrth gwblhau'r Aseiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb.</b> (Mae'n rhaid i hyn gynnwys data perthnasol a ddefnyddiwyd yn yr aseiad hwn)	

<b>3. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig er mwyn darparu gwybodaeth i'r asesiad hwn?</b> (rhowch fanylion; â phwy yr ymgynghorwyd a sut)				
<b>4. Beth yw'r union effaith/effaith debygol?</b>				
<b>5. Pa gamau y bwriedir eu cymryd i ddelio â'r effaith? (<i>Mae angen i'r camau gweithredu fod yn benodol, yn fesuradwy ac yn seiliedig ar ddeilliannau</i>)</b>	<b>Yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud</b>	<b>Pwy fydd yn gyfrifol</b>	<b>Pryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau</b>	<b>Sut y byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein hamcan</b>
<b>6. Sut y caiff y camau gweithredu eu monitro?</b>				
<b>Cymeradwywyd gan:</b> Pennaeth y Gwasanaeth			Dyddiad:	

Diolch ichi am gwblhau'r asesiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Asesu Effaith, cysylltwch â'r canlynol -

Y Tîm Polisi a Phartneriaeth, Adran y Prif Weithredwr

01267 22(4914) / (4676) [cydraddoldeb@sirgar.gov.uk](mailto:cydraddoldeb@sirgar.gov.uk)

Ar ôl cwblhau'r asesiad, a fyddoch cystal ag anfon copi ohono i'r cyfeiriad e-bost uchod.

## 11. Atodiad D – Proffil Ardal Llangennech

Proffil Ardal ar gyfer Codau Post: SA14 9UG, SA14 8TW ac SA14 8YB (Codau Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, h.y. LSOA, Llangennech 1, 2 a 3: W01000690, W01000691 ac W0100692) – Ysgol Llangennech

Poblogaeth:	4,964
Y Gymraeg:	Pobl sydd â gwybodaeth am y Gymraeg: 55.7% (2,667) Medru siarad Cymraeg: 39.9% (1,912) Medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg: 30% (1,438) Medru siarad Cymraeg (3–15 oed): 8.6% (65) Dim sgiliau Cymraeg o gwbl: 44.3% (2,119)
Nifer y plant a'r bobl ifanc:	(0–15 oed) 18.9% (936) (16–24 oed) 9.8% (484)
Ystyriaethau poblogaethol	Y mynd a dod poblogaethol cyffredinol o fewn yr ardal ac iddi/ohoni: y gyfradd fesul 1,000 Nid oes data ar gael mwyach.
Ethnigrwydd:	Gwyn (Prydeinig): 96.2% (4,773) Gwyn (Gwyddelig): 0.3% 0,2% (9) Gwyn (Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig): 0.3% (13) Gwyn (Arall): 1% (50) Cymysg (Gwyn/Du Caribïaidd): 0.2% (10) Cymysg (Gwyn Du a Du Affricanaidd): 0.1% (4) Cymysg (Gwyn ac Asiaidd): 0.1% (7) Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig; Cymysg Arall: 0% (2) Asiaidd Prydeinig (Indiaidd): 0.5% (27) Asiaidd Prydeinig (Pacistanaid): 0.1% (4) Asiaidd Prydeinig (Tsieineaidd): 0.4% (20) Asiaidd Prydeinig (Asiaidd Arall): 0.4% (22) Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig; Affricanaidd: 0.1% (5) Du Affricanaidd/Caribïaidd/ Du Prydeinig; Caribïaidd: 0.1% (3) Du Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig; Du Arall: 0% (1) Grŵp Ethnig Arall: 0.3% (14)



Crefydd:	Cristnogaeth: 63.2% (3,135) Bwdhaeth: 0.2% (9) Hindŵaeth: 0.3% (16) Iddewiaeth: 0% (2) Islam: 0.5% (24) Siciaeth: 0.3% (16) Crefydd arall: 0.3% (15) Heb grefydd: 28.9% (1,437) Crefydd heb ei nodi: 6.2% (310)
Gradd Amddifadedd:	Cyfanswm yr aelwydydd: 2,084 Cyfanswm yr aelwydydd nad ydynt wedi'u hamddifadu yn yr un o'r dimensiynau: 838 Nifer yr aelwydydd sydd wedi'u hamddifadu mewn 1–4 dimensiwn: 1,246

Mae CODAU POST SA14 9UG, SA14 8TW ac SA14 8YB wedi'u dynodi â thestun **Glas** ac â ffin **LAS**.

Mae Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech, ac Ysgol y Bryn, wedi'u dynodi â chylchoedd **GWYRDD**.

Yr ardaloedd y tu mewn i'r llinellau **COCH** yw'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) lle mae'r codau post dan sylw.



## MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU (MALIC)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALIC 2014) yn seiliedig ar ddaearyddiaeth fanwl iawn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs). Mae MALIC 2014 yn cael ei lunio ar sail wyth maes sef Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Tai, Mynediad i Wasanaethau, yr Amgylchedd Ffisegol, a Diogelwch Cymunedol. Fe'i cyhoeddir yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae 112 o'r rhain yn Sir Gaerfyrddin.

Yn y MALIC, Safle 1 yw'r safle mwyaf amddifad. Mae **Llangennech 1** yn safle 93 o blith y 112 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn Sir Gaerfyrddin. Mae Llangennech 1 yn safle 1,315 o blith y 1,909 LSOA yng Nghymru. Mae **Llangennech 2** yn safle 65 ar restr Sir Gaerfyrddin ac mae yn safle 1,025 o blith y 1,909 LSOA yng Nghymru. Mae **Llangennech 3** yn safle 85 ar restr Sir Gaerfyrddin ac mae yn safle 1,206 o blith y 1,909 LSOA yng Nghymru.

Mae'r lefel uchaf o amddifadedd o ran **Llangennech 1** yn y maes Diogelwch Cymunedol, sef safle 67 yn Sir Gaerfyrddin a safle 1,442 o ran ffigurau Cymru. Yn **Llangennech 2**, y maes Mynediad i Wasanaethau yw'r un amlycaf, sef safle 45 o ran ffigurau Sir Gaerfyrddin a safle 393 o ran ffigurau Cymru. Yn **Llangennech 3**, maes yr Amgylchedd Ffisegol yw'r un pennaf, sef safle 22 o ran ffigurau Sir Gaerfyrddin a safle 395 o ran ffigurau Cymru.

### Llangennech 1 – Troserch

### Llangennech 2 – y Bryn

### Llangennech 3 – Parc Llangennech

LSOA	Y Mynegai Cyffredinol		Meysydd: Incwm		Cyflogaeth		Iechyd		Addysg		Tai		Mynediad i Wasanaethau		Yr Amgylchedd Ffisegol		Diogelwch Cymunedol	
	93	1315	80	1241	75	1115	68	990	74	1192	70	1255	68	694	87	1396	67	1442
Llangennech 1	93	1315	80	1241	75	1115	68	990	74	1192	70	1255	68	694	87	1396	67	1442
Llangennech 2	65	1025	52	965	47	858	73	1024	56	1001	60	1068	45	393	111	1854	79	1609
Llangennech 3	85	1206	72	1134	77	1140	47	793	63	1090	108	1704	88	1123	22	395	63	1393

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (cyhoeddwyd Tachwedd 2014), Llywodraeth Cymru  
Sylwer: LSOA safleoedd 1–112 (Sir Gaerfyrddin), 1–1909 (Cymru).

## **12. Atodiad E – Rhestr Byrfoddau**

<b>ADY</b>	Anghenion Dysgu Ychwanegol
<b>ND</b>	Nifer derbyn
<b>GG</b>	Gynradd Gymunedol
<b>DFf</b>	Dwy Ffrwd
<b>CS</b>	Cyfrwng Saesneg
<b>Estyn</b>	Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
<b>CALI</b>	Cyferwerth ag Amser Llawn
<b>ALI</b>	Awdurdod Lleol
<b>RhMA</b>	Rhaglen Moderneiddio Addysg
<b>CYBLD</b>	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
<b>RhA</b>	Rhan-amser
<b>WG</b>	Wirfoddol a Gynorthwyr
<b>WESP</b>	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
<b>LIC</b>	Llywodraeth Cymru
<b>CC</b>	Cyfrwng Cymraeg
<b>SC</b>	Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg

## 13. Atodiad F – Pro forma Ymateb

A fydddech cystal â rhoi eich sylwadau ar y cynigion ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer plant cynradd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

Eich sylwadau:

A oes unrhyw faterion eraill y dymunwch dynnu ein sylw atynt?

Ticiwch y blwch os dymunwch gael gwybod am gyhoeddi adroddiad ymgynghori.

Llofnod \_\_\_\_\_

Printiwch yr Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Swydd/Categori \_\_\_\_\_  
yr ymatebydd:  
(e.e. rhiant) \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Côd post \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Dyddiad \_\_\_\_\_

**Sylwer: oni nodwch yn wahanol, bydd modd i'r cyhoedd weld eich sylwadau yn rhan o gofnodion ffurfiol y broses ymgynghori.**

Datgysylltwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at: Mr R. A. Sully, Cyfarwyddwr yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu anfonwch e-bost at [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk) erbyn 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016 fan hwyraf.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

---

# ADRODDIAD YMGYNGHORI

Y ddarpariaeth addysg gynradd yn y dyfodol i blant sy'n byw yn ardal Llangennech

---

# **Atodiad A**

**Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r Ddogfen Ymgynghori**



**Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau Llangennech**  
<p>3.84 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'n bwysig i ddisgyblion fod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg er mwyn bod yn wlad gwbl ddwyieithog.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
<p>3.85 Mae'r ymgynghorai'n teimlo bod addysg cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau amhrisiadwy sydd o fudd i bob disgybl. Bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn hybu'r iaith yn yr ardal leol ac yn caniatáu i'r ysgol gyfan fanteisio ar lawer mwy o gyfleoedd a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
<p>3.86 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
<p>3.87 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi newid y categori iaith i gyfrwng</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>

<p>Cymraeg. Dim ond tair ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn yr ardal o gymharu ag oddeutu 15 ysgol cyfrwng Saesneg. Mae cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gadael yr ysgol yn ddwyieithog ac mae hyn o fantais i bob unigolyn yn addysgol ac yn gymdeithasol. Mae'n bwysig i'r cyngor hybu dwyieithrwydd a'r Gymraeg er mwyn sicrhau dyfodol yr iaith.</p>	
<p>3.88 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg. Cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yw'r ffordd orau i hybu dwyieithrwydd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Mae llawer o fanteision i fod yn ddwyieithog gan gynnwys datblygu sgiliau prosesu a meddu ar ddealltwriaeth well o wahanol bynciau.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
<p>3.89 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg. Mae'r ystadegau'n dangos bod llawer mwy o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg o gymharu â'r ffrwd Saesneg ac mae llawer o'r disgyblion hynny yn y ffrwd Gymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg sy'n dangos bod ganddynt ffydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
<p>3.90 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau gwarchodaeth i'r Gymraeg a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal Llangennech wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf a bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd hon yn cynyddu.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
<p>3.91 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg ac yn credu y dylai pob disgybl gael y cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Fodd bynnag, mae'r ymgynghorai'n teimlo y dylai'r cyfnod ymgynghori fod wedi cael ei gynnal mewn ffordd</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>

fwy agored a thryloyw.

3.92 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg. Bydd hyn o fudd i'r disgyblion a'r ysgol a bydd yn hybu dwyieithrwydd yn yr ardal. Bydd cael addysg cyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd disgyblion yn rhugl ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i rieni sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg lawn fynd â'u plant allan o'r pentref.

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

3.93 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg ffurfiol yn gynt.

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

3.94 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg ffurfiol yn gynt.

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

3.95 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg.

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

3.96 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

<p>ffurfiol yn gynt.</p> <p>3.97 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg ffurfiol yn gynt.</p> <p>3.98 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg ffurfiol yn gynt.</p> <p>3.99 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg ffurfiol yn gynt.</p> <p>3.100 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg. Bydd y newid yn beth naturiol i'r ysgol ac mae'n hanfodol er mwyn cadw'r Gymraeg yn iaith gymunedol.</p> <p>3.101 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn sicrhau y bydd pob plentyn yn y dalgylch yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon a fydd yn sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog gan nad yw cynnig Cymraeg fel ail</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p> <p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p> <p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p> <p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p> <p>Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.</p>
--	---

iaith yn datblygu'r sgiliau hyn yn effeithiol. Hefyd, trwy newid yr ystod oedran i 3-11, bydd disgyblion yn gallu cael addysg ffurfiol yn gynt.

3.102 Mae'r ymgynghorai'n cefnogi'n llwyr y cynnig i newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg. Yr unig ffordd i sicrhau dyfodol y Gymraeg yw datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd allu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg. Mae addysg ddwyieithog o fudd i ddisgybl, nid yn anfantais.

### Heb benderfynu

4.0 Mae'r ymgynghorai'n teimlo bod yr ysgol yn gefnogol iawn i ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg nad oes ganddynt gefndir Cymraeg ac yn credu bod cael addysg ddwyieithog o fantais. Mae'r ymgynghorai'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg os oes ei hangen yn y pentref ar yr amod nad yw'n rhoi unrhyw un o dan anfantais o ran teithio i ysgolion eraill.

4.1 Mae'r ymgynghorai'n teimlo bod yr ysgol wedi cynyddu o ran ei maint yn naturiol ac wedi troi'n ysgol Gymraeg. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion Saesneg eu hiaith yn yr ysgol ac mae'n bwysig iddynt gael addysg ddwyieithog a/neu Saesneg os mai dyna eu dymuniad.

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod.

### Heb benderfynu

Nodwyd y sylw. Gweler yr ymateb uchod. Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg ac yn y ffrwd Saesneg yn dangos bod yna alw am addysg cyfrwng Cymraeg. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw i'r holl ddisgyblion presennol aros yn yr ysgol ac y bydd darpar ddisgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i ysgol y pentref a chael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na fydd y cynnig yn effeithio ar y disgyblion presennol yn yr ysgol a bydd disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i wneud hynny.

Mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol i roi i bob disgybl yr addysg orau bosibl ac mae'r Awdurdod Lleol yn credu mai darparu addysg cyfrwng Cymraeg sydd orau i bob disgybl. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014-2017 Sir Gaerfyrddin sef ***“sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2”***. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw i'r holl ddisgyblion presennol aros yn yr ysgol ac y bydd darpar ddisgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i ysgol y pentref a chael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na fydd y

### Yr effaith ar sefydliadau eraill

5.0 Mae'r ymgynghorai'n pryderu am ddyfodol ei fusnes a'i staff pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae'r ymgynghorai hefyd yn pryderu ynghylch sut y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar y llyfrgell gymunedol a'r ganolfan gymunedol pe bai'n cael ei weithredu. Mae'r ymgynghorai'n pryderu y bydd y cynnig hwn yn rhannu'r gymuned ac yn gorfodi rhai plant i fynd i ysgolion eraill y tu allan i'r pentref sy'n groes i fframwaith y Cyfnod Sylfaen sydd wedi'i seilio ar gynhwysiant, amrywiaeth ac ymdeimlad o berthyn.

### Ymateb yr Aelod Seneddol

6.0 Mae'r ymgynghorai'n teimlo y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i gael addysg ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae disgyblion yn Llangennech yn cael y cyfle hwnnw trwy fynd i'r ffrwd Gymraeg. Byddai'n wrthgynhyrchiol i'r nod o gynyddu nifer y disgyblion a all ddefnyddio'r Gymraeg pe bai disgyblion yn

cynnig yn effeithio ar y disgyblion presennol yn yr ysgol a bydd disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i wneud hynny.

### Yr effaith ar sefydliadau eraill

Mae'r llyfryn Derbyn i Ysgolion: Gwybodaeth i Rieny yn dweud **“Mae gan bob plentyn 3 oed yr hawl i gael 10 awr yr wythnos am ddim, mewn lleoliad cofrestredig ... a hynny o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd”**. Diffinnir rhan amser fel naill ai 5 sesiwn bore neu 5 sesiwn prynhawn neu gymysgedd o 5 sesiwn bore/prynhawn. Bydd angen o hyd am ddarpariaeth meithrin i bob plentyn o dan 3 oed ac i blant 3 oed y tu allan i'r oriau mae'r ysgol yn darparu darpariaeth meithrin. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw i'r holl ddisgyblion presennol aros yn yr ysgol ac y bydd darpar ddisgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i ysgol y pentref a chael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na fydd y cynnig yn effeithio ar y disgyblion presennol yn yr ysgol a bydd disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i wneud hynny.

### Ymateb yr Aelod Seneddol

Er bod disgyblion yn Llangennech yn gallu cael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, mae'r cynigion hyn wedi cael eu paratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i **“[gynyddu] darpariaeth addysg**

blewis mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg oherwydd y newid hwn.

#### Ymateb gan undebau

7.0 Mae UNISON yn dweud bod ei aelodau'n credu y dylai'r ddarpariaeth ddwy ffrwd barhau. Nid yw'r aelodau'n gwrthwynebu creu ysgol newydd ag ystod oedran 3-11 neu ffederasiwn ond maent yn teimlo y dylid cadw'r ddarpariaeth ddwy ffrwd os yw'r ymgynghoriad i ystyried diwylliant a barn rhieni a staff cymorth yr ysgol.

7.1 Mae UCAC yn cefnogi'r cynnig gan eu bod yn credu bod y cynnig yn gyson ag amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ac â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o

**cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ymlaen fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.**" Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd "**bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg**". Bwriad yr Awdurdod Lleol yw i'r holl ddisgyblion presennol aros yn yr ysgol ac y bydd darpar ddisgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i ysgol y pentref a chael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na fydd y cynnig yn effeithio ar y disgyblion presennol yn yr ysgol a bydd disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i wneud hynny. Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd yn cymryd 7 blynedd i'r cynnig gael ei weithredu'n llawn ac i'r ysgol ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg drwyddi draw.

#### Ymateb gan undebau

Nodwyd y sylw. Mae'r cynigion wedi cael eu paratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i "**[gynyddu] darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ymlaen fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.**" Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd "**bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg**".

Nodwyd y sylw a'r gefnogaeth.



<p>ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Mae UCAC yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad i'r cynnig ac wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau lles y staff. Bydd UCAC yn cydweithio â'r awdurdod lleol er budd y staff addysgu mae'n eu cynrychioli a'r gymuned addysgol ehangach yn Llangennech.</p>	
---	--

# **Atodiad D**

**YMATEB ESTYN I'R DDOGFEN YMGYNGHORI**

## **Ymateb Estyn i'r cynnig i ddod â'r ddarpariaeth Yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3-11 oed yn Llangennech, ac iddi un Corff Llywodraethu**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Gaerfyrddin.

Y cynnig yw dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3-11 oed yn Llangennech, ac iddi un Corff Llywodraethu.

Byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ym mis Ionawr 2017.

### **Crynodeb/Casgliad**

Ym marn Estyn, mae'r cynnig i uno'r ddwy ysgol yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylder am yr opsiynau a'r trefniadau amgen ar gyfer disgyblion sy'n dymuno dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg pe bai'r ffrwd Saesneg yn cau yn Ysgol Llangennech.

## **Disgrifiad a Manteision**

Mae'r cynigiwr yn darparu rhesymwaith manwl a chlir ar gyfer y cynnig i uno'r ddwy ysgol. Mae wedi rhoi amlinelliad da o'r rhesymau dros ddod a'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd i ddisgyblion 3-11 oed.

Mae'n nodi bod dyletswydd ar yr awdurdod i ystyried a gweithredu yn unol ag argymhellion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-17 sef sicrhau cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg. Yn sgil hynny, mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y cynigiwr yn golygu diweddu'r ffrwd Saesneg yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith diweddu'r ffrwd Saesneg ar y disgyblion sy'n dymuno dilyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno.

Mae'n nodi'n na fydd goblygiadau cludiant i ddisgyblion Ysgol Babanod Llangennech nac Ysgol Iau Llangennech a ni fydd newid i ddalgylchoedd y ddwy ysgol. Mae'n datgan yn glir os nad yw plentyn yn mynychu ysgol y dalgylch na'r ysgol agosaf i gyfeiriad y cartref a bod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddewis y rhieni, mae'r cyfrifoldeb ar y rhieni/gofalwr i gludo'r disgybl i'r ysgol ac oddi yno ac i dalu am gost y cludo hwnnw.

Mae'r cynigiwr yn amlygu'n glir bod y ddau gorff llywodraethu wedi ffedereiddio'n ffurfiol eisoes, a bod hynny yn gam pwysig at uno'r ddwy ysgol i greu un ysgol gynradd.

## **Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth drwyadl i effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn yr ysgol.

Mae'n cyfeirio'n ddilys at ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar y ddwy ysgol a'u categorïau a bandiau cymorth.

Mae'n honni'n rhesymol byddai manteision o ran rhannu adnoddau'n effeithiol, datblygu medrau staff o ran y cyfan o'r cwricwlwm oed cynradd a lleoli'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un pennaeth.

Mae'n nodi yn ddilys byddai'r cynnig yn sicrhau darpariaeth feithrin benodedig yn yr ysgol. Mae wedi cynnal asesiad o effaith y newid ar gydraddoldeb ac yn honni na ddylai'r cynnig gael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol. Mae'n haeru'n rhesymol y bydd darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig yn cael ei chryfhau i ddarparu amrywiaeth eang o arbenigaeth mewn meysydd gwahanol.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i aflonyddwch posibl i ddisgyblion presennol. Mae'n esbonio'n glir o fis Medi 2017 bydd yr holl disgyblion a fydd yn dod i Flwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac o ganlyniad ni fydd effaith ar ddisgyblion sydd eisoes yn ffrwd Saesneg Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar staff a'r goblygiadau iddynt yn sgil gweithredu'r cynnig hwn.

## **Ymateb yr Awdurdod Lleol i Estyn**

**Ym marn Estyn, mae'r cynnig i uno'r ddwy ysgol yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylder am yr opsiynau a'r trefniadau amgen ar gyfer disgyblion sy'n dymuno dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg pe bai'r ffrwd Saesneg yn cau yn Ysgol Llangennech.**

Bwriad yr Awdurdod yw i'r holl ddisgyblion aros yn Ysgol Llangennech ac y bydd disgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i'r ysgol a chael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, pe bai disgyblion yn penderfynu cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg byddant yn gallu gwneud cais am le yn Ysgol Gynradd Hendy sy'n darparu addysg ddwy ffrwd neu Ysgol Gynradd Bryn sy'n darparu addysg cyfrwng Saesneg.

**Mae'n nodi bod dyletswydd ar yr awdurdod i ystyried a gweithredu yn unol ag argymhellion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-17 sef sicrhau cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg. Yn sgil hynny, mae'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y cynigiwr yn golygu diweddu'r ffrwd Saesneg yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith diweddu'r ffrwd Saesneg ar y disgyblion sy'n dymuno dilyn eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith honno.**

Bwriad yr Awdurdod yw i'r holl ddisgyblion aros yn Ysgol Llangennech ac y bydd disgyblion yn y dyfodol yn parhau i fynd i'r ysgol a chael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na fydd y newid hwn yn effeithio ar y disgyblion presennol yn yr ysgol ac y byddant yn parhau i gael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg. Fodd bynnag, pe bai disgyblion yn penderfynu cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg byddant yn gallu gwneud cais am ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Hendy sy'n darparu addysg ddwy ffrwd neu Ysgol Gynradd Bryn sy'n darparu addysg cyfrwng Saesneg.

# **Atodiad E**

## **Ymgynghoriad â'r disgyblion**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 4 Mawrth 2016

gan

Mrs Llinos Jones

Cynghorydd Her

ERW

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Gwrando ar 'Lais y Dysgwr'

### Ysgol – Ysgol Babanod ac Iau Llangennech

Dyddiad: 4<sup>ydd</sup> Mawrth 2016

Cynhaliwyd y sesiwn gan Llinos Jones

Cyfwelwyd â Cyngor Ysgol Babanod ac Iau  
Llangennech

**1. Beth yr ydych yn ei wybod am y newidiadau sydd ar y gweill?**

#### Comments

- Dwy ysgol yn dod yn un ysgol gydag un enw.
- Efallai bydd yr ysgol yn newid i fod yn Ysgol Gymraeg.

**2. Beth fyddech yn edrych ymlaen ato fwyaf?**

#### Comments

- Dod i adnabod athrawon newydd.
- Byddwn ni ddim yn ddwy ran mwyach ond yn un ysgol.
- Datblygu gweithgareddau newydd.
- Defnyddio mwy o'r ysgol dop. Efallai sioe ar y cyd.

**3. A oes unrhyw ofidion?**

#### Comments

- Os mae'n ysgol fawr iawn gallai rhywun fod yn gas.



**4. Beth ydych yn meddwl os bydd plant tair blwydd oed yn dechrau yn yr ysgol?**

**Comments**

- Peth da. Gallu gweld chwaer neu frawd bach yn dod i'r ysgol.
- Byddai'r plant yn dysgu'r Gymraeg yng nghynt oherwydd eu bod yn ifanc.
- Gwneud ffrindiau yn gynharach.
- Peth da. Efallai bod angen mwy o athrawon a staff yn yr ysgol.

Negyddol:

- Anodd i'r staff oherwydd mwy o blant yn yr ysgol.
- Efallai bod yn rhaid i meithrinfeydd y pentref gau oherwydd diffyg plant.

**5. A fyddech eisiau gwisg neu fathodyn newydd i'r ysgol newydd?**

**Comments**

- Na. Pawb yn hapus â'r wisg. Gadael yr un peth.

**6. A fyddech yn hoffi bod yn rhan o ysgol fawr?**

**Comments**

- Hapus i fod yn rhan o ysgol fawr.
- Hapus. Bydd llawer o ddosbarthiadau a mwy o blant.
- Hapus gyda'r adeiladau'r ysgol.

**7. Beth yw eich barn tasai disgyblion newydd yr ysgol yn gorfod cael addysg Gymraeg.**

**Comments**

- Hapus achos byddant yn gallu siarad dwy iaith.
- Ddim yn dda achos byddai plant sy'n gweld y Gymraeg yn anodd

yn gorfod mynd i bentref arall.

- Yn hapus achos byddwn yn ddwyieithog.
- Byddai'r disgyblion Cymraeg sydd yn yr ysgol yn medru helpu'r plant Saesneg.

## **8. Beth os mae'r ddwy ysgol yn uno?**

### **Comments**

- Byddai popeth yn iawn achos byddai Mr. Anderson dal yn brifathro.
- Byddwn yn medru gwneud mwy gyda'r plant hun.

# **Atodiad F**

**Opsiynau diwygiedig ar gyfer newid**

## 5. Yr Opsiynau Diwygiedig ar gyfer Newid

Wrth ddatblygu'r opsiwn a ffeirir, ystyriodd y Cyngor Sir amrywiaeth o opsiynau gwahanol. Cafodd yr opsiynau eu gwerthuso ar sail y prif amcanion a'r meini prawf er mwyn pennu pa opsiwn oedd yn gweddu orau i ddyheadau Sir Gaerfyrddin.

### 5.1 Y Prif Opsiynau a Ystyriwyd

Opsiwn 1	Y sefyllfa bresennol – cadw'r ddwy ysgol ar y ffurf bresennol
Opsiwn 2	Ffedereiddio
Opsiwn 3	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech, gydag un Corff Llywodraethu.
Opsiwn 4	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, ddwy ffrwd, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech.
Opsiwn 5	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd y Bryn i'r disgyblion sydd angen addysg cyfrwng Saesneg.
Opsiwn 6	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd yr Hendy i'r disgyblion sydd angen addysg dwy ffrwd.
Opsiwn 7	Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig, i'r disgyblion sydd angen addysg cyfrwng Saesneg, ddarpariaeth un ai yn Ysgol Gynradd y Bryn neu yn Ysgol Gynradd yr Hendy.
Opsiwn 8	Y sefyllfa bresennol (Categori Iaith) - gydag addasiadau Disgyblion y ffrwd Saesneg i gael o leiaf 30% o wersi Cymraeg yr wythnos ac efelychu maint y gwersi Saesneg yn y ffrwd Gymraeg. Byddai'r ysgol yn aros yn ysgol ddwy ffrwd gyda ffrwd cyfrwng Cymraeg a ffrwd Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.
Opsiwn 9	Cynyddu canran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol hyd nes i'r ysgol ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg drwyddi draw.

Noder:

Mae opsiynau 8 a 9 yn ychwanegol i'r opsiynau a chafodd eu cyflwyno a'u gwerthuso yn Nogfen Ymgynghori'r Cyngor Sir.

Cafodd opsiwn 8 ei gyflwyno fel opsiwn amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori gan grŵp o bobl a oedd yn cynnwys rhai rhieni plant sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn yr ysgolion ac aelodau o'r gymuned leol sy'n gwrthwynebu'r opsiwn a ffafrir gan y Cyngor Sir. Cytunodd swyddogion y Cyngor i dderbyn a gwerthuso'r opsiwn hwn ynghyd â'r opsiynau a nodwyd gan y Cyngor Sir.

Mae opsiwn 9 yn amrywiad o opsiwn 8 a gallai hwyluso newid dros gyfnod hirach o amser.

## 5.2 Manteision/Anfanteision Pob Opsiwn

<b>Opsiwn 1 – Y Sefyllfa Bresennol</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>Ni fydd dim yn newid i'r rhanddeiliaid.</li><li>Ni fydd angen gweithdrefnau statudol.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Bydd y trefniadau presennol yn parhau, gyda diffyg cydlyniaeth o ran y ddarpariaeth.</li><li>Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r galw presennol yn yr ysgolion.</li><li>Opsiwn cost uwch.</li><li>Costau uwch o ran staffio.</li><li>Fe gollir cyfleoedd i sicrhau synergerddau.</li><li>Ni fyddai polisiau'r Cyngor ar gyfer trefniadaeth ysgolion a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu.</li></ul>

<b>Opsiwn 2 – Ffedereiddio</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>Mae ffedereiddio wedi bod yn gam pwysig at uno'r ddwy ysgol i greu un ysgol gynradd.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>Ni fydd ysgol categori Cyfrwng Cymraeg (CC) – byddai Ysgol Babanod Llangennech ac</li></ul>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd i rannu adnoddau.</li> <li>• Byddai dwy ysgol yn elwa o arweinyddiaeth a llywodraethu integredig.</li> <li>• Ni fyddai'r disgyblion yn treulio mwy o amser yn teithio.</li> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth Ysgol, gyda chyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth sydd yn cael ei ddarparu yn effeithiol ar draws y ddwy ysgol.</li> <li>• Llywodraethu integredig, cyson ar draws yr ysgol newydd.</li> </ul>	<p>Ysgol Iau Llangennech yn parhau'n ysgolion categori Dwy Ffrwd (DFf). Byddai hyn yn groes i bolisiâu sefydledig ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dinasyddion ddwyieithog.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin sy'n sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Nid yw'n unol â strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg i gael gwared ar ysgolion babanod ac ysgolion iau.</li> <li>• Gellir diddymu ffederasiynau.</li> </ul>
--	---

### Opsion 3 (yr Opsion a Ffefrir)

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech, gydag un Corff Llywodraethu.**

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu ysgol categori iaith Cyfrwng Cymraeg (CC) benodedig yn unol â pholisiâu sefydledig y Cyngor Sir.</li> <li>• Gwell effeithlonrwydd adnoddau.</li> <li>• Byddai dwy ysgol yn mynd yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd rhai rhanddeiliaid, yn enwedig rhai rheini, yn anfodlon o gael gwared y dewis o'r ffrwd Saesneg o'r ysgol leol.</li> </ul>

<p>un ysgol gynradd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fyddai'r disgyblion yn treulio mwy o amser yn teithio.</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn yr ardal gyda phob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth Ysgol, gyda chyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth sydd yn cael ei ddarparu yn effeithiol ar draws y ddwy ysgol.</li> <li>• Bydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Bydd darpariaeth feithrin benodedig yn yr ysgol.</li> <li>• Pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd, bydd yr holl ddisgyblion ar eu hennill gyda mwy o ddewis a chyfleoedd oherwydd eu bod yn medru dwy iaith.</li> </ul>	
---	--

## Opsiwn 4

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, ddwy ffrwd, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech.**

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Sefydlu ysgol categori Dwy Ffrwd benodedig ar ôl cyfnod ffedereiddio.</li><li>• Cyfleoedd i rannu adnoddau.</li><li>• Byddai dwy ysgol yn mynd yn un ysgol gynradd.</li><li>• Ni fyddai'r disgyblion yn treulio mwy o amser yn teithio.</li><li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn yr ardal.</li><li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth Ysgol.</li><li>• Byddai cael un ysgol yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad sy'n gymorth i greu cymuned, a byddai'n datblygu'r ymdeimlad hwnnw.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ni fydd ysgol categori Cyfrwng Cymraeg (CC) benodedig – byddai Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn parhau'n ysgolion categori Dwy Ffrwd (DFf).</li><li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li><li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li><li>• Ni fydd polisiâu sefydledig y Cyngor Sir ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dinasyddion dwyieithog yn cael eu diwallu.</li></ul>



## Opsiwn 5

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd y Bryn i ddisgyblion sydd angen addysg Cyfrwng Saesneg (CS).**

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwy ffrwd).</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.</li> <li>• Byddai cael dwy ysgol yn agos i'w gilydd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad, ac yn datblygu'r ymdeimlad hwnnw, yn ardaloedd y Bryn a Llangennech.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd ysgol benodedig, categori Dwy Ffrwd – Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Ni fydd polisiau sefydledig y Cyngor Sir ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dinasyddion dwyieithog yn cael eu diwallu.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion sydd â rhieni a fydd yn dewis ysgolion eraill. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn 2.04 milltir (5 munud) i ffwrdd o Llangennech.</li> <li>• Ni fydd rhieni sydd yn dewis ysgolion eraill ar gyfer eu plant yn elwa o drafnidiaeth am ddim.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn ar gyfer disgyblion Cyfrwng Saesneg Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> </ul>
--	--

## Opsiw'n 6

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig darpariaeth yn Ysgol Gynradd yr Hendy i ddisgyblion sydd angen addysg ddwy ffrwd.**

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwy ffrwd).</li> <li>• Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.</li> <li>• Byddai cael dwy ysgol yn agos i'w gilydd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad, ac yn datblygu'r ymdeimlad hwnnw, yn ardaloedd yr Hendy a Llangennech.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>• Ni fydd polisïau sefydledig y Cyngor Sir ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dinasyddion dwyieithog yn cael eu diwallu.</li> <li>• Dim digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy ar gyfer holl ddisgyblion Cyfrwng Saesneg Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion sydd â rhieni a fydd yn dewis ysgolion eraill. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol yr</li> </ul>

	<p>Hendy 1.07 milltir (5 munud) i ffwrdd o Langennech.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd rhieni sydd yn dewis ysgolion eraill ar gyfer eu plant yn elwa o drafnidiaeth am ddim.</li> </ul>
--	---

## Opsiw 7

**Dod â'r ddarpariaeth yn Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech i ben a sefydlu ysgol newydd, Cyfrwng Cymraeg, i ddisgyblion 3–11 oed yn Llangennech a chynnig, i ddisgyblion sydd angen addysg Cyfrwng Saesneg (CS), ddarpariaeth un ai yn Ysgol Gynradd y Bryn neu yn Ysgol Gynradd yr Hendy.**

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai'r holl ddisgyblion yn cael cyfle i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwy ffrwd).</li> <li>Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg dymor hir yn ardal Llangennech.</li> <li>Sicrhau darpariaeth addysg Saesneg dymor hir yn ardal y Bryn.</li> <li>Sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg a Saesneg yn y tymor hir yn ardal yr Hendy.</li> <li>Byddai cael tair ysgol yn agos i'w gilydd yn helpu i gynnal yr ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad, ac yn datblygu'r ymdeimlad hwnnw, yn ardaloedd y Bryn, yr Hendy a Llangennech.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg (CC) yn Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd.</li> <li>Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn y Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2014–2017).</li> <li>Ni fydd polisiau sefydledig y Cyngor Sir ar gyfer datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dinasyddion ddwyieithog yn cael eu ddiwallu.</li> <li>Ni fydd gan Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy ddigon o leoedd ar gyfer holl ddisgyblion Cyfrwng Saesneg (CS) Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd gan Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn ddigon o leoedd ar gyfer holl ddisgyblion Cyfrwng Saesneg (CS) Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion gan fod Ysgol Gynradd Gymunedol yr Hendy 1.07 milltir (5 munud) i ffwrdd o Langennech.</li> <li>• Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion gan fod Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn 2.04 milltir (5 munud) i ffwrdd o Langennech.</li> <li>• Ni fydd rhieni sydd yn dewis ysgolion eraill ar gyfer eu plant yn elwa o drafnidiaeth am ddim.</li> </ul>
--	---

### **Opsiwn 8 – fel y’i cyflwynwyd gan rhai aelodau o’r gymuned:**

Cafodd yr opsiwn yma ei gyflwyno gan grŵp o randdeiliaid ysgolion Llangennech, yn cynnwys rhai rhieni plant sy’n mynychu’r ffrwd Saesneg yn yr ysgolion a rai aelodau o’r gymuned leol. Cafodd yr opsiwn ei gyflwyno fel opsiwn amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae’r canlynol yn adlewyrchiad gair am air o’r opsiwn a gyflwynwyd i’r swyddogion.

*“Ar ôl cyfarfod gyda’r Cyngorydd Sir G Thomas a’r Cyngorydd Cymuned Dr Marian Slader ar ddydd Mercher, 24 Chwefror yr hyn a gynigiwyd ac a dderbyniwyd fel dewis arall teg a chyfiawn yn lle’r holl gynigion eraill yw cadw’r sefyllfa bresennol gyda rhai ychwanegiadau, h.y. byddai’r ffrwd Saesneg yn cael o leiaf 30% o wersi Cymraeg yr wythnos a byddai’n efelychu maint y gwersi Saesneg mae’r ffrwd Gymraeg yn eu cael. Pe bai hyn yn digwydd dylai’r ddwy ffrwd fod yn ddrych-ddelwedd o’i gilydd ym mlwyddyn 11. Dylai’r ddwy ffrwd allu siarad, darllen ac ysgrifennu’n ddwyieithog. Byddai hyn yn gyfle gwych ac yn arloesi gan Ysgol*

*Llangennech. Byddai cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a dilyniant yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni fyddai'r un plentyn yn cael ei symud, gallai unrhyw blentyn oedd yn cael anawsterau gyda'r naill iaith neu'r llall gael ei helpu yn y fan a'r lle. Gellid codi plant mwy disglair yn gynt i lefelau uwch a gellid meithrin eraill yn arafach. Mae angen gwneud ychydig o beirianeg, gan sefydlu'r ffrâm o waith i gynorthwyo rhieni, er enghraifft, llinellau cymorth neu linellau gwaith cartref. Monitro i'r ddwy ffrwd, mae'r posibiladau'n ddi-ben-draw. Dim rhagor o angen am ysgolion Cymraeg yn unig, dwy ffrwd a 30% yw'r ffordd ymlaen."*

### **Opsiwn 8 – fel y'i dehonglir gan yr Awdurdod Lleol**

<b>Opsiwn 8 – Y sefyllfa bresennol (Categori iaith) gydag addasiadau</b>	
<p><b>Disgyblion y ffrwd Saesneg i gael o leiaf 30% o wersi Cymraeg yr wythnos ac efelychu maint y gwersi Saesneg yn y ffrwd Gymraeg. Byddai'r ysgol yn aros yn ysgol ddwy ffrwd gyda ffrwd cyfrwng Cymraeg a ffrwd Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.</b></p>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd i rannu adnoddau.</li> <li>• Byddai dwy ysgol yn dod yn un ysgol gynradd.</li> <li>• Dim cynnydd mewn amser teithio i ddisgyblion.</li> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth.</li> <li>• Bod ag un ysgol a fydd yn helpu i gadw a datblygu'r ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad sy'n helpu i greu cymuned.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim ysgol categori iaith cyfrwng Cymraeg ddynodedig – byddai ysgol Fabanod Llangennech ac ysgol Iau Llangennech yn aros yn y categori iaith dwy ffrwd.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2014-2017).</li> <li>• Ni fydd disgyblion yn gallu datblygu sgiliau iaith Cymraeg cadarn drwy ddilyn cwricwlwm sydd â dim ond 30% o wersi Cymraeg.</li> <li>• Yr angen am weithdrefnau statudol.</li> </ul>

## **Dadansoddiad pellach o Opsiwn 8**

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai categori iaith yr ysgol yn aros yn ddwy ffrwd. Fodd bynnag, byddai'r ganran arfaethedig o Gymraeg a gâi ei haddysgu yn y ffrwd Saesneg yn golygu y byddai'r ffrwd Saesneg yn cael ei chategoreiddio'n swyddogol fel ffrwd Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Mae hyn yn arwain at ysgol ddwy ffrwd gyda ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg sy'n wahanol i'r diffiniad o ysgol ddwy ffrwd gyda ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg a nodir yn y ddogfen "**Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**" a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud gweithdrefnau statudol yn ofynnol i newid y diffiniad o ysgol ddwy ffrwd i'r ysgol a byddai angen dechrau proses ymgynghori newydd.

Er y byddai'r ffrwd yn cael ei hadnabod fel ffrwd Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg gyda chynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (ail iaith), byddai'r opsiwn yn dal i ogwyddo tuag at addysg cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn groes i'r nod yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (iaith gyntaf).

Mae'r cynigion wedi cael eu paratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i "**[gynyddu] darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ymlaen fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.**" Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd "**bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg**". Gyda'r opsiwn hwn, argymhellir i'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg gael o leiaf 30% o wersi Cymraeg yr wythnos. Fodd bynnag, byddai'r gwersi hyn yn Gymraeg ail iaith gan ni fyddai'n bosib darparu gwersi Cymraeg iaith gyntaf gydag amser cyfyngedig y cwricwlwm. Ni chredir y byddai'r ganran hon o wersi Cymraeg ail iaith yn llwyddo i sicrhau bod "**pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg**" yn unol â'r nod yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun hwn yn argymhell "**[bod] yn rhaid i o leiaf 70% o'r amser dysgu ac addysgu fod trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod**

**Allweddol 2**” er mwyn i ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 ac felly ni fyddai cael 30% o wersi Cymraeg yn ddigon. Felly mae’n annhebygol y byddai disgybl oedd yn cael 30% o wersi Cymraeg (ail iaith) yn yr ysgol gynradd yn gallu sefyll arholiad TGAU mewn Cymraeg iaith gyntaf yn llwyddiannus yn yr ysgol uwchradd.

Trwy hybu addysg ddwyieithog mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru ddod yn wlad “Dwyieithog a Mwy” ac yn Cefnogi llythrennedd triphlyg: Dysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Mae dogfen Llywodraeth Cymru Cefnogi llythrennedd triphlyg: Dysgu iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn dweud: **“Fel gwlad ddwyieithog, rydym yn dechrau o le da oherwydd rydym eisoes yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg. Mae’r ddwy iaith wedi’u gwreiddio yn ein system addysg a hyfforddiant. Felly, mae gan ein pobl ifanc fantais o ran meithrin sgiliau iaith a llythrennedd y gallant yn hawdd eu trosi i ieithoedd Ewropeaidd eraill ac i ieithoedd eraill y byd. Yn yr un modd, gall astudio iaith dramor gyfrannu at lythrennedd dysgwyr mewn Cymraeg a Saesneg.”** Mae dwyieithrwydd yn rhoi i blant wahaniad cynnar rhwng dwy iaith a dealltwriaeth o’r ffordd mae iaith yn gweithio. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ddisgyblion ddysgu trydedd iaith wedyn. Fodd bynnag, ni fyddai’r opsiwn hwn yn creu unigolion sy’n hyderus ddwyieithog yn y Gymraeg a’r Saesneg, ac felly’n eu hamddifadu o sgiliau hanfodol sy’n gwneud dysgu trydedd iaith yn haws. Mae dwyieithrwydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol ac addysgol plant yn ogystal â dod â manteision cymdeithasol. Credir hefyd y gall dwyieithrwydd gynnig rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn dirywiad galluoedd gwybyddol mewn henaint, mewn heneiddio arferol ac mewn heneiddio patholegol.

Mae’r ymgynghorai’n dweud “gellir helpu disgyblion ag anawsterau dysgu gyda’r naill iaith neu’r llall yn y fan a’r lle a gellid codi plant mwy disglair yn gynt i lefelau uwch a gellid meithrin eraill yn arafach.” Fodd bynnag, disgwylir i bob athro wahaniaethu pob darn o waith ar sail anghenion y disgybl bob amser. Mae hefyd yn bwysig nodi, pe bai opsiwn 4 yn cael ei weithredu, ni fyddai unrhyw newid i’r disgyblion presennol yn yr ysgol ac y bydd disgyblion sy’n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i wneud hynny drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu addysgol penodol wedi’i seilio ar anghenion yr unigolyn a darperir cymorth sydd wedi

ei deilwra i'r unigolion hyn. Bydd y cymorth hwn yn parhau i gael ei ddarparu i bob unigolyn sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd trwy'r cyfrwng mae'n cael ei addysg trwyddo ar hyn o bryd. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai pob disgybl yn y dyfodol yn cael y cymorth hwn trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond ar rai adegau bydd rhaid i ddisgyblion sydd â anghenion dysgu newid ysgol o achos categori iaith. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r cefnogaeth sydd ar gael yn sicrhau bod pob disgybl yn llwyddo yn yr ysgol, beth bynnag fo'r iaith. Bydd yr ysgol hefyd yn darparu cymorth digonol i rieni nad ydynt yn siarad yr iaith a bydd yn addasu maint y cymorth a ddarperir i ddisgyblion a rhieni yn ôl yr angen. Mae'n werth nodi hefyd bod ysgolion cyfrwng Cymraeg Sir Gaerfyrddin eisoes yn addysgu disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg yn llwyddiannus. Rhaid peidio ag anghofio bod y Saesneg yn bwnc cwricwlaidd statudol a bydd yn parhau i gael ei haddysgu yn yr ysgol i'r safonau uchaf.

Mae gan Gyngor Sir Gâr darged i gynyddu maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (iaith gyntaf) sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â'r targed hwn. Y ffordd orau i sicrhau bod pob unigolyn yn dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yw trwy ei drwytho yn y Gymraeg. Gellir gwneud hyn yn llwyddiannus mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae Opsiwn 4 yn rhoi cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan alluogi'r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.



**Opsiwn 9 – fel y'i trafodwyd yn ystod sgysiau gydag ymgynghoreion.**

<b>Opsiwn 9 – Cynyddu canran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn raddol hyd nes i'r ysgol ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg drwyddi draw.</b>	
<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd i rannu adnoddau.</li> <li>• Byddai dwy ysgol yn dod yn un ysgol gynradd.</li> <li>• Dim cynnydd mewn amser teithio i ddisgyblion.</li> <li>• Byddai'r holl ddisgyblion ar un safle o dan arweinyddiaeth un Pennaeth.</li> <li>• Bod ag un ysgol a fydd yn helpu i gadw a datblygu'r ymdeimlad o berthyn, treftadaeth a thraddodiad sy'n helpu i greu cymuned.</li> <li>• Caniatau amser ychwanegol i staff ddatblygu eu sgiliau iaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim ysgol categori iaith cyfrwng Cymraeg ddynodedig – byddai ysgol Fabanod Llangennech ac ysgol Iau Llangennech yn aros yn y categori iaith dwy ffrwd tan yn ddiweddarach o lawer.</li> <li>• Oedi wrth gyflawni amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2014-2017) sef cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg trwy droi ysgolion dwy ffrwd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.</li> <li>• Ni fydd pob disgybl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2014-2017).</li> <li>• Cymhleth iawn i athrawon addasu'r gyfran bob blwyddyn.</li> <li>• Newidiadau o gwricwlwm ail iaith i gwricwlwm iaith gyntaf.</li> <li>• Yr angen am nifer o</li> </ul>

**Dadansoddiad pellach o Opsiwn 9**

Mae'r cynnig hwn yn awgrymu y gellid cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o flwyddyn i flwyddyn hyd nes i'r ysgol ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn y pen draw. Mae'r data a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori'n dangos bod nifer y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn llawer llai na'r nifer yn y ffrwd Gymraeg, gan ddangos bod galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r data hyn yn awgrymu y bydd y newid hwn yn beth naturiol i'r ysgol fodd bynnag; gohirio'r newid hwn y byddai'r opsiwn hwn o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn. Mae'r cynigion y Cyngor wedi cael eu paratoi i ymateb i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i ***“[gynyddu] darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ymlaen fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.”*** Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg argymhellwyd ***“bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethol ysgolion dwy ffrwd Sir Gâr er mwyn eu troi yn ysgolion Cymraeg”***.

Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn anodd i athrawon ei weithredu. Byddai cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn yn golygu addasu'r cwricwlwm mae'r athrawon yn ei ddilyn bob blwyddyn. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn dilyn cwricwlwm Cymraeg ail iaith ond bod y disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn dilyn cwricwlwm Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r cwricwlwm mae'n ofynnol i'r athrawon ei ddilyn yn dibynnu ar ganran y gwersi Cymraeg a ddarperir a byddai hyn yn golygu y byddai'r cwricwlwm i'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn newid o Gymraeg ail iaith i Gymraeg iaith gyntaf ar ryw adeg yn ystod y newid. Mae'n bwysig nodi y byddai hyn yn newid sylweddol i'r disgyblion gan na fyddai'n bosibl darparu cwricwlwm Cymraeg iaith gyntaf gyda chanran fach o wersi Cymraeg.

Byddai newid y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn yn golygu y byddai angen cyflawni nifer o weithdrefnau

statudol gan y byddai newid canran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn yn golygu newid categori iaith y ffrwd Saesneg nifer o weithiau. Ar ôl i'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyrraedd 20%, byddai angen newid categori iaith y ffrwd Saesneg i Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, ar ôl i'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyrraedd mwy na 50%, byddai angen newid categori iaith y ffrwd Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg i Drawsnewidiol. Dim ond pan mae'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd 70% y gellir newid y ffrwd i gyfrwng Cymraeg. Mae'r categorïau iaith hyn fel y'u diffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru **“Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg”**.

Mae cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol i roi i bob disgybl yr addysg orau bosibl ac mae'r Awdurdod Lleol yn credu mai darparu addysg cyfrwng Cymraeg sydd orau i bob disgybl. Mae hyn yn cyd-fynd â'r nod yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2014-2017 Sir Gaerfyrddin sef **“sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2”**. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael eu trwytho yn y Gymraeg trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn argymhell bod **“yn rhaid i o leiaf 70% o'r amser dysgu ac addysgu fod trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2”** er mwyn i ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2.

Ni fyddai'r opsiwn hwn fel y mae yn sicrhau **“y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg”** gan na fydd pob disgybl wedi cael y maint priodol o wersi Cymraeg yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae sicrhau y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg wedi'i nodi fel un o'r nodau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin ac felly nid yw hwn yn opsiwn ymarferol.

Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newidiadau i'r disgyblion sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd ac y bydd yr holl ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg yn parhau i wneud hynny. Bydd

yr ysgol hefyd yn darparu cymorth digonol i ddisgyblion ac i rieni sy'n ddi-Gymraeg a bydd y cymorth hwn yn cael ei addasu yn ôl yr angen.

# **Atodiad G**

**Pam yr ydym yn hyrwyddo addysg ddwyieithog?**

Rydym yn byw mewn byd o amrywiaeth ieithyddol mawr.  
Mae mwy na hanner poblogaeth y byd yn tyfu i fyny **gyda mwy nag un iaith**

**"Mae terfynau fy iaith yn golygu terfynau fy myd."**

*Ludwig Wittgenstein*

**Un ymennydd ... Dwy iaith ... llawer o fanteision.**

**'Nid yw'r person sydd ag un iaith yn wirioneddol yn adnabod yr iaith'**

*Goethe*



## Pam yr ydym yn hyrwyddo addysg ddwyieithog?

Er mwyn cyflawni dyheadau Cyngor Sir Caerfyrddin fel y nodir yn adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'

*Un o'r egwyddorion pwysicaf yn yr adroddiad yw y dylai pob disgybl gael y cyfle i fod yn gyflawn ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol fel eu bod yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau iaith yn y gymuned ac yn y gweithle. Mae gwerthu manteision economaidd a chymunedol dwyieithrwydd i rieni a disgyblion yn greiddiol i hyn...*

Er mwyn cyflawni dyheadau Cyngor Sir Caerfyrddin fel y nodir yn 'Strategaeth Addysg Gymraeg Sir Gaerfyrddin'-

Cyflawni'r prif nod fel y cytunwyd gan y Cyngor llawn.

- Cynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gâr a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel y daw pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn, a hynny o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plentyn. Golyga hyn blant o oedran cyn ysgol ymlaen;

I gefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012-17

Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru yw ein gweledigaeth. Rydym am weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad yr iaith, ac sy'n ei defnyddio. Ein chwe nod yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

**iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 - 2017**

## **Er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

*Cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.*

**Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Ebrill 2010**

## **Er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru i fod yn genedl 'Dwyieithog plws 1' A Chefnogi llythrennedd triphlyg: Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod 2 a Chyfnod Allweddol 3**

*'Fel gwlad ddwyieithog, rydym yn dechrau o le da oherwydd rydym eisoes yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ddwy iaith wedi'u gwreiddio yn ein system addysg a hyfforddiant. Felly, mae gan ein pobl ifanc fantais o ran meithrin sgiliau iaith a llythrennedd y gallant yn hawdd eu trosi i ieithoedd Ewropeaidd eraill ac i ieithoedd eraill y byd. Yn yr un modd, gall astudio iaith dramor gyfrannu at lythrennedd dysgwyr mewn Cymraeg a Saesneg.'*

**Cefnogi llythrennedd triphlyg: Dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3**

## **Ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol- mae dwyieithrwydd yn llawer mwy na dwy iaith**

*Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n siarad mwy nag un iaith fanteision dros eu cyfoedion uniaith - mewn cyfathrebu, gwybyddiaeth a rhyngweithio cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys-*

- Nid yw ymennydd y plentyn yw 'naturiol uniaith'; gall ymdrin â dwy iaith (neu hyd yn oed yn fwy). Gall plant gaffael unrhyw iaith heb unrhyw 'ymdrech', yn union fel dysgu i gerdded.
- Gwahanu cynnar o'r ddwy iaith
- Cyfnodau a cherrig milltir tebyg yn natblygiad ieithyddol dysgwyr dwyieithog ac uniaith
- Dealltwriaeth ddigymell o sut mae iaith yn gweithio ⇔ ymhob iaith
- Cymhwysedd a chreadigrwydd wrth gymysgu ieithoedd
- Mae dwyieithrwydd yn helpu'r dysgu oherwydd gall plentyn feddwl am ei syniadau yn y ddwy iaith. Mae cael dau air am wrthrychau, syniadau a phrosesau yn helpu dealltwriaeth.
- Geirfa lai ym mhob iaith unigol, ond geirfa ehangach ar draws ieithoedd
- Gwell galluoedd meta-ieithyddol (*perthynas rhwng iaith a ffactorau diwylliannol eraill mewn cymdeithas*)
- Trosglwyddo agweddau ar sgiliau darllen o un iaith i'r llall



- Mae plant sy'n caffael dwy neu fwy o ieithoedd o enedigaeth yn gallu gwahaniaethu systemau gramadegol eu hieithoedd o gyfnod cynnar iawn ar a heb ymdrech amlwg.
- Ymwybyddiaeth gynharach o bersbectif pobl eraill
- Manteision cymdeithasol- mynediad at ddau ddiwylliant, yn fwy goddefgar, datblygu diddordeb mewn diwylliannau eraill, haws wrth deithio, dod o hyd i swydd
- Gwell rheolaeth o sylw a'r gallu i drin gwybodaeth sy'n gwrthdaro
- Mae un agwedd ar ymchwil yn dangos bod plant dwyieithog yn 'sylwi'n' well ar sut mae iaith yn gweithio ac yn perfformio'n well na phlant uniaith mewn tasgau sy'n gysylltiedig â ymwybyddiaeth iaith.
- Mae astudiaethau'n dangos bod plentyn dwyieithog yn gallu ymdopi'n well â thasgau sy'n cynnwys sylw, cof a chanolbwyntio. Mae'r gymnasteg meddwl sydd ei angen i reoli dau neu'n fwy o systemau ieithyddol yn cynyddu'r hyblygrwydd gwybyddol ac yn gwneud dysgu yn haws.
- Mae gan blant dwyieithog 'gêr' ychwanegol a all roi mantais iddynt mewn rhai sefyllfaoedd.
- Bydd plant yn defnyddio'r geiriau y maent yn gwybod yn hytrach na pheidio dweud unrhyw beth o gwbl. Er enghraifft, os yw plentyn yn gwybod y gair am 'hufen iâ' mewn un iaith ac nid y llall bydd ef/hi yn defnyddio'r gair yn yr iaith mae'n gwybod yn hytrach na pheidio gofyn am hufen iâ o gwbl. Nid yw'r plentyn wedi drysu; mae ef/hi yn syml yn gwneud defnydd o'r iaith sydd ganddo/ganddi.
- Mae rhai astudiaethau newydd yn awgrymu y gall dwyieithrwydd gynnig rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn dirywiad gallu gwybyddol wrth heneiddio, mewn heneiddio arferol a heneiddio patholegol.
- **Mae gan Ddwyieithrwydd effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol ac addysgol plant.** Pan fydd plant yn parhau i ddatblygu eu galluoedd mewn dwy neu fwy o ieithoedd drwy gydol eu blynyddoedd ysgol gynradd, maent yn ennill dealltwriaeth ddyfnach o iaith a sut i'w ddefnyddio'n effeithiol. Cant fwy o ymarfer o brosesu iaith, yn enwedig pan fyddant yn datblygu llythrennedd yn y ddwy iaith, ac maent yn gallu cymharu â chyferbynnu ffyrdd y mae eu dwy iaith yn trefnu realiti.
- Mae ymchwil yn awgrymu y gall plant dwyieithog hefyd ddatblygu mwy o hyblygrwydd yn eu ffordd o feddwl o ganlyniad i brosesu gwybodaeth trwy gyfrwng dwy iaith wahanol.

## Nid oes yr un astudiaeth/adroddiad ymchwil yn nodi bod y sgil o fod yn ddwyieithrwydd yn anfanteisiol

*Yn seiliedig yn bennaf ar waith Prifysgol Bangor, Prifysgol Caeredin (Antonella Sorace) a Jim Cummins (Sefydliad Astudiaethau mewn Addysg, Prifysgol Toronto)*





<https://www.bangor.ac.uk/bilingualism/>

<http://www.cam.ac.uk/research/news/bilingualism-is-good-for-learning>

[https://en.wikipedia.org/wiki/Cognitive\\_advantages\\_of\\_bilingualism](https://en.wikipedia.org/wiki/Cognitive_advantages_of_bilingualism)

<https://www.britishcouncil.org/voices-magazine/does-being-bilingual-make-you-smarter>

<http://www.bbc.co.uk/news/world-35170392>

<http://theconversation.com/speaking-in-tongues-the-many-benefits-of-bilingualism-49842>

<http://www.spring.org.uk/2013/09/10-superb-psychological-advantages-of-learning-another-language.php>

**Canolfan ESRC Centre**  
dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd  
for Research on Bilingualism

## Potential Advantages for Children

- Communication**
- Cultural**
- Curriculum**
- Cognitive**
- Character**
- Cash**

Therefore, is a child not given the chance to become bilingual being disadvantaged?

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP**

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 43 ac Adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig y canlynol:

- Cau Ysgol Babanod Llangennech, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (a gynhelir gan y Cyngor ar hyn o bryd) ar 31 Awst 2017;
- Cau Ysgol Lau Llangennech, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (a gynhelir gan y cyngor ar hyn o bryd) ar 31 Awst 2017;
- Sefydlu ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd (yr "Ysgol Newydd") a fydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed o 1 Medi 2017.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion hyn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

O 1 Medi 2017 ymlaen, yn amodol ar ddewisiadau a fynegai gan rieni, bwriedir i'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech a'r rhai a fyddai, oni bai am y cynnig hwn, wedi disgwyl mynychu'r ysgolion hynny – gael eu haddysg yn yr "Ysgol Newydd". Dalgylchoedd presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech fydd dalgylch yr "Ysgol Newydd".

Ni fwriedir i'r trefniadau derbyn i'r "Ysgol Newydd" ddarparu ar gyfer dewis disgyblion ar sail dawn na gallu (bandio disgyblion).

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol gynradd gymunedol.

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer yr "Ysgol Newydd".

Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4/5 oed yn yr ysgol newydd yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y cynigion hyn yn cael eu gweithredu fydd 60. Capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion 3-11 oed ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 461. Bydd 60 o leoedd meithrin.

Categori Iaith yr Ysgol Newydd arfaethedig, fel y'i diffiniwyd yn nogfen wybodaeth rhif: 023/2007 Llywodraeth Cymru, "Diffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth Gymraeg", fydd Cyfrwng Cymraeg.

Darperir cludiant i'r "Ysgol Newydd" yn unol â pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddo i Ysgolion Uwchradd yn parhau heb eu newid.

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 2 Hydref 2016, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Robert Sully, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at [aaprma@sirgar.gov.uk](mailto:aaprma@sirgar.gov.uk)

**Llofnodwyd: Mr Robert Sully**  
Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant  
Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

**Dyddiedig: 5 Medi 2016**

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

- Bwriad yr awdurdod yw ad-drefnu addysg gynradd yn ardal Llangennech a chreu un ysgol gynradd gymunedol newydd, i gymryd lle Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech. Bydd yr ysgol newydd ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech.
- Bwriad yr Awdurdod yw cynnwys darpariaeth feithrin yn yr ysgol newydd a darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.  
Nid yw cael lle yn y meithrin yn golygu bod gan y plentyn hawl awtomatig i le llawn-amser yn yr ysgol a bydd rhaid cyflwyno cais newydd.  
Mae gan ddisgyblion meithrin yr hawl i gael addysg ran-amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Y diffiniad o ran-amser yw 5 sesiwn yr wythnos yn y bore neu'r prynhawn. Bydd gan ddisgyblion meithrin yr hawl i fynychu'r ysgol yn llawn-amser ar ddechrau'r tymor cyn eu pen-blwydd yn 4 oed.
- Y categori iaith ar gyfer Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech yw Dwy Ffrwd. Bwriad yr Awdurdod yw sefydlu'r ysgol newydd yn ysgol categori iaith Cyfrwng Cymraeg.

Mae dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru "Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg" yn nodi disgrifiadau a chategoriâu o ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir wrth addysg a dysgu. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad canlynol:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=cym>

- Mae'r polisi cyfredol ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cadarnhau y bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth cludiant yn achos disgyblion sy'n bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:-
  - yn byw yn Sir Gaerfyrddin;
  - maent wedi cyrraedd oed ysgol gorfodol;
  - maent yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Lleol; ac
  - maent yn byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol. Diffinir y pellter cerdded statudol fel 2 filltir ar gyfer ysgolion cynradd.
 Cyfrifoldeb rhieni yw trefnu a thalu am gludo disgyblion i'r ysgol os nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim.
- Bydd Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Lau Llangennech yn cau ar 31 Awst 2017.

Bydd yr ysgol gynradd gymunedol Cyfrwng Cymraeg newydd sy'n darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed yn cael ei sefydlu o 1 Medi 2017.

**CARMARTHESHIRE COUNTY COUNCIL**

**County Hall, Carmarthen, SA31 1JP**

Notice is hereby given in accordance with Section 43 and Section 41 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) and the School Organisation Code that Carmarthenshire County Council (the Council) having consulted such persons as required, propose the following:

- To discontinue Llangennech Infants School, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (currently maintained by the Council) on 31 August 2017;
- To discontinue Llangennech Junior School, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (currently maintained by the Council) on 31 August 2017;
- To establish a new Welsh Medium (WM) school (the "New School") to be maintained by Carmarthenshire County Council at the existing sites and buildings of the current Llangennech Infants and Llangennech Junior schools for boys and girls aged 3-11 from 1 September 2017.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish these proposals. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn is available on [www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

From 1 September 2017, subject to any expression of parental preference, it is proposed that those pupils registered at Llangennech Infants School and Llangennech Junior school and who, but for this proposal, would have expected to attend those schools will be educated at the "New School". The existing catchment areas of Llangennech Infants School and Llangennech Junior School will become the catchment area of the "New School".

It is not intended that admission arrangements to the "New School" will make any provision for selection of pupils by aptitude or by ability (pupil banding).

The proposed new school will be a community primary school.

Carmarthenshire County Council will be the admission authority for the "New School".

The admission number (AN) for pupils aged 4/5 at the new school in the first school year in which the proposals have been implemented will be 60. The capacity of the school for pupils aged 3-11 once the proposal is implemented will be 461. There will be 60 nursery places.

The language category of the proposed new school, as defined by "Defining schools according to Welsh medium provision", Welsh Government Information document No: 023/2007 will be Welsh Medium.

Transport to the "New School" will be provided in accordance with Carmarthenshire County Council's home to school transport policy.

Transfer to Secondary School will remain as per current arrangements.

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 2 October 2016, any person may object to these proposals. Objections should be sent to Mr Robert Sully, Director of Education and Children's Services, Carmarthenshire County Council, Building 2, St David's Park, Job's Well Road, Carmarthen, SA31 3HB or e-mail to [DECMEP@carmarthenshire.gov.uk](mailto:DECMEP@carmarthenshire.gov.uk)

**Signed: Mr Robert Sully**  
Director of Education and Children's Services  
For Carmarthenshire County Council

**Dated: 5 September 2016**

**EXPLANATORY NOTE**

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

- It is the Authority's intention to re-organise primary education in the Llangennech area and create one new community primary school, to replace the existing Llangennech Infants and Llangennech Junior schools. The new school is to be located on the current sites and buildings of the existing Llangennech Infants and Llangennech Junior schools.
- It is the Authority's intention to include nursery provision at the new school and to provide education to pupils between the ages of 3-11.  
Admission to the nursery does not automatically entitle a child to a full-time place in the school and a new application must be made.  
Nursery pupils are entitled to part-time education from the beginning of the term following their third birthday. Part-time is defined as 5 morning or afternoon sessions per week. Nursery pupils will be entitled to attend on a full-time basis at the start of the term preceding their 4th birthday.
- The language category of both the current Llangennech Infants and Llangennech Junior Schools is categorised as Dual Stream. It is the Authority's intention to establish the new school as a Welsh Medium (category WM) language category school.  
The Welsh Government information document "Defining schools according to Welsh medium" sets out descriptions and categories of schools according to the amount of Welsh used in teaching and learning. The document is available on the Welsh Government website at the following address:  
<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/defining-schools-welsh-medium/?lang=en>
- Current home to school transport policy confirms that assistance with transport will be provided by the Authority for pupils who meet each of the following criteria:-
  - are residents of Carmarthenshire;
  - are of compulsory school age;
  - attend the nearest or the school designated by the Local Authority; and
  - who reside over the statutory walking distance from the school. The statutory walking distance is defined as 2 miles for primary schools.
 The arrangement and cost of transport to school for pupils who do not qualify for free transport is a parental responsibility.

The new Welsh Medium, community primary school which caters for boys and girls between the ages of 3-11 years old will be established from 1 September 2017.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

---

# **ADRODDIAD GWRTHWYNEBU**

**Y Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn y Dyfodol ar gyfer Plant sy'n Byw yn Ardal  
Llangennech**

---

## Crynodeb Gweithredol

### Y Broses Ymgynghori

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyhoeddi cynigion i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yng nghymuned Llangennech. Mae cynnig y Cyngor Sir yn cynnwys y tair elfen ganlynol:

- Cau Ysgol Babanod Llangennech, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (a gynhelir ar hyn o bryd gan y Cyngor) ar 31 Awst 2017;
- Cau Ysgol Iau Llangennech, Llangennech, Llanelli, SA14 8YB (a gynhelir ar hyn o bryd gan y Cyngor) ar 31 Awst 2017;
- Sefydlu ysgol Cyfrwng Cymraeg (yr "Ysgol Newydd") newydd a fydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar safleoedd ac yn adeiladau presennol Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed o 1 Medi 2017.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ynghylch y cynnig hwn ar 25<sup>ain</sup> Ionawr 2016 a'r bwriad oedd dod ag ef i ben ar 11<sup>eg</sup> Mawrth 2016, ond mewn ymateb i geisiadau gan rai partïon â diddordeb, cytunodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant i ymestyn y cyfnod ar gyfer cael ymatebion am un wythnos hyd at 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016. Cafwyd **267** o sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghori ffurfiol.

Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, paratowyd Adroddiad Ymgynghori a oedd yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu – Addysg a Gwasanaethau Plant ac yna i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer penderfyniad ar gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. Ar 26<sup>ain</sup> Gorffennaf 2016 penderfynodd y Bwrdd Gweithredol fwrw ati i gyhoeddi hysbysiad statudol.

### Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig trwy hysbysiad statudol ar 5<sup>ed</sup> Medi 2016 am 28 diwrnod hyd at 2<sup>il</sup> Hydref 2016. Roedd y cynnig a gyhoeddwyd yn cynnwys y tair elfen a nodir uchod.

Mae cyhoeddi'r cynnig trwy hysbysiad statudol wedi rhoi bod i ymateb helaeth gan bartïon â diddordeb, a hynny o blaid ac yn erbyn y cynnig. Daeth **1,230** o ymatebion i'r hysbysiad statudol i law erbyn 2 Hydref 2016. Mewn ymateb i gais gan barti â diddordeb, cytunodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant i ymestyn y cyfnod gwrthwynebu statudol am un wythnos hyd at 9<sup>fed</sup> Hydref 2016.

Mae'n bwysig nodi bod **188** o ymatebion eraill wedi dod i law yn ystod yr wythnos yn dilyn 2<sup>il</sup> Hydref 2016. Felly, gan gynnwys yr ymatebion hyn, cyfanswm yr ymatebion a gafwyd mewn ymateb i'r hysbysiad statudol yw **1,418**.

O blith y **1,418** o ymatebion a ddaeth i law; roedd **698** yn cefnogi'r cynnig ac roedd **720** yn gwrthwynebu'r cynnig.

Gweler **Atodiad A** i gael rhagor o fanylion am y gwrthwynebiadau a ddaeth i law.

Gweler **Atodiad B** i gael rhagor o fanylion am y sylwadau cefnogol a ddaeth i law.

### **Yr Ymatebion a Ddaeth i Law**

Mae cynnwys yr ymatebion ddaeth i law i'r hysbysiad statudol wedi bod yn debyg o ran cynnwys i'r rheiny gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Unwaith eto, ychydig iawn o sylwadau sydd wedi cael eu gwneud yn yr ymatebion hyn ar yr elfen o'r cynnig sy'n cynnig sefydlu ysgol gynradd newydd yn lle'r ysgol babanod bresennol a'r ysgol iau bresennol. Fel y nodwyd yn yr adroddiad ymgynghori, mae'r ddwy ysgol wedi bod yn gweithredu o dan ffederasiwn ffurfiol ers mis Ebrill 2015, gydag un corff llywodraeth a phennaeth a rennir. Mae'r ymatebion ddaeth i law i'r elfen hon o'r cynnig yn cydnabod bod y ffederasiwn wedi bod yn llwyddiant a bod uno'r ddarpariaeth yn ffurfiol mewn un ysgol gynradd yn gam naturiol a chadarnhaol ymlaen ar gyfer yr ysgolion.

Mae sylwadau wedi dod i law mewn perthynas â'r elfen o'r cynnig sy'n cynnig newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 a darparu darpariaeth feithrin ran-amser yn yr ysgol. Unwaith eto, yn gyffredinol, ceir cefnogaeth dros gyflwyno darpariaeth feithrin ran-amser ac mae'n cael ei gydnabod y bydd hyn yn rhoi cyfle i blant Llangennech gael addysg ffurfiol yn iau. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr yn poeni am yr effaith y gallai'r newid hwn ei chael ar ddarparwyr meithrin a gofal plant presennol yn y sector annibynnol yn y gymuned. Hefyd, mae gan rai ymatebwyr bryderon a oes digon o le yn yr ysgol ar gyfer 60 o ddisgyblion meithrin.

Fodd bynnag, fel o'r blaen, yr elfen o'r cynnig sydd wedi ysgogi'r ymateb mwyaf yw'r cynnig i newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn lle'r trefniant deul presennol. Mae'r system gyfredol yn caniatáu darpariaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg ochr wrth ochr. Fodd bynnag byddai newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion fyddai'n dechrau yn yr ysgol ar ôl y dyddiad gweithredu yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae nifer fawr o ymatebion wedi dod i law gan ymatebwyr sy'n gwrthwynebu'r newid yn y categori iaith yn gryf a chan ymatebwyr sy'n cefnogi'r cynnig yn gryf. Mae'r rheiny sy'n cefnogi'r cynnig wedi ystyried y bydd hwn yn newid naturiol i'r ysgolion o gofio'r newidiadau sydd wedi digwydd o ran cydbwysedd y ddarpariaeth iaith dros y blynyddoedd diwethaf, ac y bydd y newid hwn yn rhoi cyfle i'r holl blant fod yn ddwyieithog ac elwa ar fanteision bod yn ddwyieithog. Mae'r rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig wedi cyflwyno nifer o resymau pam y maent yn ystyried na fydd y newid hwn yn ddymunol nac yn fuddiol i gymuned Llangennech.

## Yr Adroddiad Gwrthwynebu

Yn dilyn cael nifer fawr o ymatebion i'r hysbysiad statudol, mae'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn yn crynhoi'r sylwadau a gafwyd mewn cefnogaeth ac mewn gwrthwynebiad i'r cynnig, ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn. Hefyd mae'r adroddiad yn nodi sawl gwaith y codwyd pob pwynt yn y sylwadau a ddaeth i law.

At ddiben yr adroddiad hwn, mae pob un o'r **1,418** o sylwadau wedi cael eu hystyried.



# **Atodiad A**

**Crynodeb o'r Gwrthwynebiadau Statudol a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddi'r  
Hysbysiad Statudol ac ymatebion cysylltiedig yr Awdurdod Lleol**

## Y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law

Fel y nodwyd yn y Crynodeb Gweithredol, daeth cyfanswm o 720 o wrthwynebiadau i law mewn ymateb i'r hysbysiad statudol.

Cafodd y rhain eu llunio o:

18 e-bost; a

702 llythyr a ffurfiwyd ar dempled llythyr gwrthwynebu. (Mae rhai o'r llythyrau hyn yn cynnwys atodiadau ychwanegol.)

### **Fodd bynnag:**

Tynnwyd 1 gwrthwynebiad yn ôl yn ysgrifenedig;

Roedd 6 llythyr yn aneglur a oeddent yn gwrthwynebu ai peidio.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r pwyntiau a godwyd yn y gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r pwyntiau hyn. Hefyd mae'r tabl yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob pwynt:

<u>Rhif y Pwynt</u>	<u>Y Pwynt a Godwyd</u>	<u>Ymateb yr Awdurdod Lleol</u>	<u>Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt</u>	<u>% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt</u>
1.	<p><b><u>Gwaredu'r Dewis</u></b></p> <p>Amddifadu'r gymuned rhag cael dewis. Ar hyn o bryd gall disgyblion ddewis mynychu'r ysgol naill ai drwy'r ffrwd Gymraeg neu'r ffrwd Saesneg – os caiff y cynnig hwn ei weithredu ni fydd gan y disgyblion y dewis o gael mynychu'r ffrwd Saesneg mwyach. Mae gwaredu'r ffrwd Saesneg yn gwaredu'r dewis o gymharu ag ardaloedd eraill yn Llanelli sydd â dewis o addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg o fewn cyrraedd hwylus. Credir y dylai rhieni fod yn gallu dewis ym mha iaith yr addysgir eu plant ac na ddylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud gan yr Awdurdod Lleol / Cynghorwyr Sir. Mae amddifadu'r rhieni a'r disgyblion o'r dewis hwn yn mynd yn groes i'w hawliau.</p>	<p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Mae'r strategaeth yn mynnu bod gweithredu'n digwydd o ran 73 o bwyntiau, y mae 21 ohonynt yn ymwneud â'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a chatau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth</p>	283	40%

		<p>iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y canlyniadau canlynol penodol o ran y cynnig ar gyfer Llangennech:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1 Cynyddu nifer y dysgwyr 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>2 Cael rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.</li> <li>3 Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg.</li> </ol> <p>Hefyd nod y Cynllun yw cyflawni'r canlyniadau a'r amcanion penodol trwy gyfrwng y camau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bod y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethu ysgolion ffrydiau deuel Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion Cymraeg.</li> <li>2. Targedu newid tair ysgol ffrwd ddeuol yn rhai cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.</li> </ol> <p>Mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r elfen bwysicaf ohono yw bod dewis ar gael i blant yn ystod eu haddysg a'u bywyd cynnar. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r sgiliau i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae cynnig yr</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Awdurdod Lleol i ddatblygu plant fel eu bod yn ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i blant wrth iddynt gamu ymlaen i'r ysgol uwchradd. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir yn gyffredinol yn y proffesiwn addysg nad yw astudio Cymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog.</p> <p>Mae'r ysgolion yn Llangennech wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym i fod yn rhai cyfrwng Cymraeg oherwydd y cynnydd yn niferoedd y ffrwd Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, fel y tystia'r data.</p> <p>Yn ogystal, mae'r safonau ledled y ddwy ysgol wedi bod yn gyson dda, gan amlygu bod y plant yn llwyddo'n dda yn yr holl bynciau ac yn gallu ffynnu drwy gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod Lleol nad yw'r cynigion o ran y mater hwn yn mynd yn groes mewn unrhyw fodd i gyfreithiau Ewrop na'r gyfraith ddomestig o ran hawliau dynol.</p>		
2.	<p><b><u>Llwyddiant System Ddwy Ffrwd</u></b></p> <p>Mae'r system ddwy ffrwd wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer ac mae'n gweithio'n hynod dda fel y mae. Ar hyn o bryd mae disgyblion o'r ddwy ffrwd yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg a'r Saesneg. Nid oes</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod Ysgol Babanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech yn perfformio'n dda iawn ac yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach y cyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgolion sicrhau bod y canlyniadau'n dal i wella. Mae gan Gyngor</p>	228	32%

	<p>angen newid system sy'n gweithio eisoes a dylai'r ysgol aros yn un ddwy ffrwd. Os bydd angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Llangennech, dylai'r ysgol aros yn un ddwy ffrwd ond dylid cynyddu canran y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Gan fod y trefniant dwy ffrwd yn gweithio'n dda yn yr ysgol ar hyn o bryd gan ddarparu addysg wych drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, dylid ystyried newid ysgolion cyfrwng Saesneg eraill yn ysgolion dwy ffrwd. Bydd hyn yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd eraill, ond ni fydd yn effeithio ar addysg y disgyblion.</p>	<p>Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Mae'r strategaeth yn mynnu bod gweithredu'n digwydd o ran 73 o bwytiau, y mae 21 ohonynt yn ymwneud â'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a champau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y canlyniadau canlynol penodol o ran y cynnig ar gyfer Llangennech:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>3. Cynyddu nifer y dysgwyr 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>4. Cael rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.</li> <li>5. Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg.</li> </ol>		
--	--	--	--	--

		<p>Hefyd nod y Cynllun yw cyflawni'r canlyniadau a'r amcanion penodol trwy gyfrwng y camau canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>6. Bod y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethu ysgolion ffrydiau deul Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion Cymraeg.</li><li>7. Targedu newid tair ysgol ffrwd ddeuol yn rhai cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.</li></ol> <p>Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgolion yn Llangennech wedi'u nodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym i fod yn gyfrwng Cymraeg oherwydd y cynnydd yn niferoedd y ffrwd Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, fel y tystia'r data.</p> <p>Yn ogystal, mae'r safonau ledled y ddwy ysgol wedi bod yn gyson dda, gan amlygu bod y plant yn</p>		
--	--	--	--	--

		<p>Ilwyddo'n dda yn yr holl bynciau ac yn gallu ffynnu drwy gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>		
256	<p><b><u>Gwahaniaethu ac Eithrio</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn achosi rhwyg yn y gymuned ac mae'n gwneud hynny eisoes. Credir bod y cynnig yn gwahaniaethu ac yn gwahanu teuluoedd Saesneg eu hiaith a theuluoedd sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg. Os caiff y cynnig ei weithredu, gorfodir disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall, a thrwy hynny eu heithrio ymhellach o'u cymuned leol.</p>	<p>Nid yw'n fwriad gan y cynnig hwn i wahaniaethu yn erbyn teuluoedd Saesneg eu hiaith nac i eithrio unrhyw aelodau o'r gymuned o'u cymuned leol eu hunain mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod y plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bod Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhai gwersi eraill yn ystod y blynyddoedd olaf yn yr ysgol.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddynt fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn</p>	124	17%



		gadael yr ysgol gynradd. Nod y cynnig hwn yw rhoi cyfle i bawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.		
4.	<b><u>Dim rheswm</u></b>  Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu gwrthwynebiad.		100	14%
5.	<b><u>Trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg</u></b>  Mae'n annheg bod disgyblion sy'n dymuno/sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall y tu allan i'w hardal leol. Hefyd, bydd disgyblion sy'n cael anhawster â'r Gymraeg yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall y tu allan i'r ardal leol yn hytrach na throsglwyddo i'r ffrwd Saesneg. Mae gan ddisgyblion yr hawl i gael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg yn eu hardal leol.	Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod y plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref, gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bod Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhai gwersi eraill yn ystod y blynyddoedd olaf yn yr ysgol. Unwaith eto, bydd cefnogaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r holl blant yn y dyfodol, yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.  Gweler <b>pwnt 9</b> sy'n cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac a	85	12%

Tudalen 258		<p>fydd yn dal i gael eu darparu i'r holl ddisgyblion a rhieni o ran yr iaith Gymraeg.</p> <p>Gweler <b>pwyt 12</b> sy'n cyfeirio at ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, a'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i'r disgyblion ac a fydd yn dal i gael eu darparu iddynt.</p>		
6.	<p><b><u>Y Gymuned</u></b></p> <p>Mae'r cynnig yn anghyson â chyfansoddiad y gymuned ac yn mynd yn groes i ddymuniadau'r rhan fwyaf o'r gymuned. Ni ellir ei galw'n ysgol gymunedol os nad yw'n darparu ar gyfer y gymuned gyfan.</p> <p>Credir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar y gymuned gan y bydd teuluoedd yn symud o'r pentref er mwyn ceisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall. Yn ogystal, gallai darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unig olygu y bydd llai o bobl yn symud i'r ardal gan y bydd y ddarpariaeth addysg yn anaddas. Bydd hyn yn arwain at gwmp yng ngwerth eiddo a dirywiad yn yr economi yn yr ardal leol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhai aelodau o'r gymuned yn methu siarad Cymraeg a bod llawer o'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg. Felly mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr ardal a sicrhau bod pobl plentyn yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddynt fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod cymunedau'n newid gyda threigl amser a bod symudedd cymdeithasol yn dal i gynyddu. Mae'r Cyngor Sir yn ystyried bod y pwynt hwn yn</p>	76	11%

		<p>cyfnerthu'r angen am wreiddio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cynifer o gymunedau â phosibl er mwyn cryfhau'r iaith ac er mwyn sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn cael cyfle i ymddatblygu'n ddinasyddion gwirioneddol ddwyieithog ac yn elwa ar y manteision personol a ddaw yn sgil dwyieithrwydd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref.</p> <p>Anodd yw rhagweld yr effaith gaiff newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg ar nifer y teuluoedd sy'n symud i'r ardal. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio y bydd pobl sy'n symud i'r ardal yn deall y buddion sydd ynghlwm wrth addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd a'r manteision y gall eu darparu. Bydd y cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion yn y dyfodol ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd ac elwa ar y manteision hyn drwy gydol eu bywydau.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Yn ogystal mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol drwy roi cyfle i aelodau'r gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu eu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mwyfwy o fantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p>		
7.	<p><b><u>Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach</u></b></p> <p>Credir y bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar addysg disgyblion ac yn gosod plant dan anfantais o ran cael addysg bellach neu addysg uwch, ac yn ddiweddarach mewn bywyd pan fyddant yn gwneud cais am swyddi ac ati. Credir na fydd yr holl ddisgyblion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn a chael y graddau gorau posibl drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad, gallai hyn osod plant dan anfantais wrth wneud cais am leoedd mewn addysg bellach neu addysg uwch. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn ei chael yn anodd addasu i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg mewn prifysgolion ar ôl cael eu haddysg flaenorol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan effeithio ar eu haddysg</p>	<p>Barn yr Adran, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Mae'r dystiolaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion Llangennech yn dangos bod y plant yn y ffrwd Gymraeg yn cyrraedd safonau da o ran y</p>	65	9%

	<p>uwch. Rhaid nodi mai'r iaith fwyaf cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, yn y byd gwaith a'r byd busnes, yw Saesneg, ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith Saesneg er mwyn sicrhau eu bod mor llwyddiannus â phosibl yn y byd go iawn.</p>	<p>Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag nid yw'r plant yn y ffrwd Saesneg yn cyrraedd yr un safonau o ran sgiliau Cymraeg wrth iddynt ddilyn rhaglen astudio Cymraeg ail iaith. Yn ogystal mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod plant o gartrefi di-Gymraeg sydd yn y ffrwd Gymraeg yn cael canlyniadau cyson dda yn yr holl bynciau, gan gynnwys Saesneg.</p> <p>Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu eu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mwyfwy o fantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Mae ysgolion yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc fynychu prifysgolion ym mhedwar ban byd, ac ni ddylid ystyried y Gymraeg yn anfantais. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fo pobl ifanc yn cystadlu am le astudio.</p>		
Tudalen 261	<b><u>Trafnidiaeth a Theithio</u></b>	Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill,	62	8.7%

	<p>Ni ddarperir trafndiaeth i ddisgyblion y mae eu rhieni'n dewis eu hanfon i ysgolion cyfrwng Saesneg eraill. Mae'n annheg disgwyl i rieni dalu a darparu trafndiaeth i ddisgyblion allu mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg eraill. Bydd hyn yn rhoi mwy o wasgfa ar deuluoedd yn ariannol a bydd yn anodd iawn i deuluoedd sydd heb eu trafndiaeth breifat eu hunain. Wedi dweud hynny, bydd trafndiaeth yn cael ei darparu /costau yn cael eu talu ar gyfer disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sydd am fynychu'r ysgol newydd.</p> <p>Mae gwaredu'r ffrwd Saesneg yn amddifadu'r plant rhag defnyddio'r llwybrau diogel i'r ysgol a gallu cerdded i ysgol cyfrwng Saesneg. Nid oes dim llwybrau cerdded diogel i ysgolion cyfrwng Saesneg eraill ac nid oes asesiad risg wedi ei gynnal. Efallai mai hwn yw'r unig gyfle a gaiff rhai plant i ymarfer corff.</p> <p>Bydd cynnydd mewn traffig a thagfeydd yn yr ardal gan y bydd teuluoedd yn cludo eu plant i ysgolion cyfrwng Saesneg eraill y tu allan i'r ardal a bydd teuluoedd yn cludo eu plant i'r ardal i fynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd.</p>	<p>byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys goblygiadau o ran cludiant. Os bydd unrhyw rieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydynt yn ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni yw cludo eu plant i'r ysgol.</p> <p>Bydd gan y disgyblion fynediad o hyd i lwybrau diogel i ysgol Llangennech, gan nad yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys gallu'r disgyblion i gerdded i'r ysgol a mynediad i lwybrau diogel i'r ysgol.</p> <p>Gan na fydd dim newidiadau yn achos disgyblion presennol yr ysgolion, o ganlyniad ni fydd angen i unrhyw blentyn gael ei symud o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod holl ddisgyblion y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref. Fodd bynnag, o achos dewis rhieni, mae'n bosibl y bydd rhai rhieni'n dewis i'w plant fynychu ysgolion eraill y tu allan i'r dalgylch a hefyd gall teuluoedd o'r tu allan i'r dalgylch ddewis i'w plant fynychu Ysgol Llangennech. Dyma fel y mae eisoes yn nalgylch Llangennech, ac er ei bod yn anodd rhagweld, nid oes disgwyl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith ddrastig ar draffig a thagfeydd yn yr ardal leol.</p>		
--	---	---	--	--

9.	<p><b><u>Ymdopi â'r Gymraeg</u></b></p> <p>Credir na fydd yr holl blant yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg. Hefyd mae pryderon y bydd rhieni di-Gymraeg yn ei chael yn anodd cefnogi a helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol a'u gwaith cartref os bydd yr ysgol yn troi'n un cyfrwng Cymraeg. Ychydig iawn o gefnogaeth sydd wedi cael ei rhoi hyd yn hyn, os o gwbl. Mae rhieni yn amharod i gredu addewidion.</p>	<p>Mae'r ysgol a'i staff wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r holl ddisgyblion a rhieni.</p> <p>Bydd yr ysgol yn dal i ddarparu cefnogaeth i'r disgyblion presennol drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg drwyddi ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig, bydd yr holl ddisgyblion yn y dyfodol yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bydd Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhai gwersi eraill yn ystod y blynyddoedd olaf yn yr ysgol. Bydd cefnogaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r holl ddisgyblion newydd yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd mae'n bwysig nodi ei bod yn ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl. Yn ogystal bydd "Athrawon Bro" sy'n rhoi cefnogaeth i ysgolion ledled y sir yn cefnogi'r ysgol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol. Mae disgyblion a rhieni yn cael cymorth ar hyn o bryd a byddant yn dal i gael cefnogaeth gan yr ysgol drwy'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Polisi drws agored lle gall athrawon gyfieithu'r gwaith i'r rhieni a rhoi eglurhad o'r</li> </ol>	60	8%
----	---	---	----	----

		<p>hyn sy'n ofynnol ar y pryd e.e. naill ai cyn ysgol neu ar ôl ysgol;</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>2. Gall rhieni gysylltu â'r ysgol dros y ffôn neu drwy'r e-bost;</li> <li>3. Darperir gwaith cartref yn ddwyieithog pan fo angen;</li> <li>4. Darperir gwersi Cymraeg i rieni ar adegau penodol drwy gydol y flwyddyn;</li> <li>5. Yn y Cyfnod Sylfaen, anfonir llyfrau arbennig adref yn rheolaidd at rieni yn iaith y cartref, sy'n eu galluogi i weld beth mae'r disgyblion yn ei gyflawni yn yr ysgol;</li> <li>6. Cynhelir clwb gwaith cartref am awr ar ôl ysgol unwaith yr wythnos i roi cefnogaeth i ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt â'u gwaith cartref;</li> <li>7. Cynhelir clybiau chwaraeon, côr ac i-Pad yn ddwyieithog;</li> <li>8. Clwb yr Urdd – mae llawer o blant o'r ffrwd Saesneg yn mynychu ar hyn o bryd;</li> <li>9. Gwefan Ysgol ddwyieithog;</li> <li>10. Staff dwyieithog yn y ddwy ffrwd;</li> </ol>		
--	--	--	--	--



		<p>11. Gwasanaethau ysgol a sesiynau canu dwyieithog. Disgyblion yn dysgu caneuon Cymraeg a Saesneg;</p> <p>12. Cynyrchiadau ysgol dwyieithog;</p> <p>13. “Athrawon Bro” yn darparu cefnogaeth i helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion;</p> <p>14. “Athrawon Bro” yn cynnal canolfan iaith am wythnos lawn yn ystod tymor yr haf i grwpiau o ddisgyblion blwyddyn 5. Disgyblion yw'r rhain sy'n perfformio ar lefel 3 ar hyn o bryd ond a allai gyrraedd lefel 4 gyda mewnbwn proffesiynol.</p> <p>15. Mae gan y disgyblion hŷn sgiliau Cymraeg cryf sy'n eu galluogi i egluro'r gwaith cartref i'w rhieni;</p> <p>16. “Athrawon Bro” yn darparu hyfforddiant i staff sy'n llai hyderus yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg;</p> <p>17. Mae disgyblion y ffrwd Saesneg yn clywed y Gymraeg yn ddyddiol.</p> <p>Mae'r ysgol hefyd yn bwriadu cynnal noson i rieni pob dosbarth ar ddechrau'r flwyddyn, er mwyn rhoi gwybod iddynt am themâu'r gwaith a chynnwys y gwaith ar gyfer y flwyddyn.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Hefyd gallai rhieni gael cymorth drwy;</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ofyn i'r plentyn egluro'r gwaith cartref – gallai'r disgybl gyfieithu'r gwaith cartref ar gyfer aelodau o'r teulu nad ydynt yn siarad Cymraeg;</li> <li>2. Defnyddio offer cyfieithu ar-lein.</li> <li>3. Gofyn i gyfaill/perthynas/cymydog sy'n siarad Cymraeg am help.</li> </ol> <p>Mae nifer o sefydliadau hefyd wedi cynnig eu cymorth a'u cefnogaeth i'r gymuned gyda datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig nodi bod llawer o ddisgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg yn bresennol drwy'r ffrwd Gymraeg ac yn symud ymlaen yn dda ac yn cyflawni safonau da.</p>		
10.	<p><b><u>Gorfodi'r iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Dylai'r gymuned gael dewis pa un ai i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg ar neb. Mae dysgu Cymraeg yn bwysig ac mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion am ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd, ond ni fydd pob disgybl am gael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd gorfodi'r Gymraeg yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, a dweud y gwir, i'r gwrthwyneb. Bydd newid y categori iaith i gyfrwng Cymraeg yn gorfodi disgyblion i geisio addysg</p>	<p>Cynnig yr Adran Addysg a Phlant yw y dylai'r ddarpariaeth i'r holl ddisgyblion yn y dyfodol yn Ysgol Gynradd newydd Llangennech fod trwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n digwydd yn llwyddiannus eisoes mewn llawer o ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.</p>	45	6%

	<p>cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, a fydd yn golygu na ddaw'r disgyblion i gysylltiad â'r Gymraeg.</p>	<p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod y plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref, gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bod Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhai gwersi eraill yn ystod y blynyddoedd olaf yn yr ysgol.</p> <p>Mae'n bwysig cofio bod yr iaith Saesneg yn dal i gael ei haddysgu a'i datblygu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd at y safonau uchaf, fel rhan statudol o'r cwricwlwm.</p> <p>Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra'n datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Mae'r dystiolaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ysgolion Llangennech yn dangos bod y plant yn y ffrwd Gymraeg yn cyrraedd safonau da o ran y Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag nid yw'r plant yn y ffrwd Saesneg yn cyrraedd yr un safonau o ran sgiliau Cymraeg wrth iddynt ddilyn rhaglen astudio Cymraeg ail iaith. Yn ogystal mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod plant o gartrefi di-Gymraeg sydd yn y ffrwd Gymraeg yn cael canlyniadau cyson dda yn yr holl bynciau, gan gynnwys Saesneg. Mae safonau'r ddwy ysgol wedi bod yn gyson dda, gan amlygu bod y plant yn llwyddo'n dda yn yr holl bynciau ac yn gallu ffynnu drwy gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>		
11.	<p><b><u>Materion ag ysgolion eraill</u></b></p> <p>Ni ddarperir unrhyw ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig.</p> <p>Nid oes lle mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, pe bai rhieni am anfon eu plant i ysgolion eraill. Gan fod posibilrwydd y bydd Ysgol Llanedi yn cau, bydd hyn yn rhoi pwysau ar Ysgol yr Hendy gan arwain at hyd yn oed ragor o faterion yn codi o ran lle.</p> <p>Bernir Ysgolion Llangennech yn rhai 'gwyrdd' ar hyn o bryd. Nid yw ysgolion cyfrwng Saesneg eraill o'r un safon.</p>	<p>Dymuniad y Cyngor Sir yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chred yr Adran y bydd ysgol gynradd Gymraeg ei chyfrwng yn Llangennech yn dal i gynnig addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion. Dymuniad yr adran yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Felly nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill.</p>	34	5%

	<p>Mae llefydd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn ardal Llanelli y gallai disgyblion eu mynychu os ydynt yn dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Dim ond un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd yn Llanelli.</p>	<p>Yr unig rwymedigaeth sydd ar y Cyngor Sir o ran hwyluso dewis y rhieni yw pan fo'r dewis hwnnw'n gyson â darparu addysg mewn modd effeithiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Nid oes gan yr un rhiant hawl i fynnu lle mewn ysgol benodol i'w blentyn neu i'w blant. Caiff y lleoedd yn yr ysgolion eu dyrannu ar sail meini prawf derbyniadau cyhoeddedig y Cyngor, sy'n ffafrio bod plant yn mynychu eu hysgol leol neu ysgol "ddynodedig". Ar gais y rhieni caiff plant eu derbyn mewn ysgol heblaw eu hysgol ddynodedig a hynny pan fo lleoedd ar gael ac yn unol â'r meini prawf o ran gorolw yn y polisi derbyn disgyblion cyhoeddedig. Dymuniad y Cyngor Sir yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chynllunnir lleoedd mewn ysgolion ar sail yr egwyddor hon.</p> <p>Bydd y Cyngor Sir yn dal i fonitro'r galw am leoedd yn Ysgol yr Hendy, yn enwedig mewn perthynas â'r datblygiadau tai newydd sy'n cael eu codi yn y cyffiniau yn y dyfodol rhagweladwy ac mewn perthynas ag adolygu ysgol Llanedi, a bydd yn ymateb mewn modd priodol. Mae darpariaeth yn Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ar gyfer buddsoddi yn Ysgol yr Hendy yn y tymor canolig er mwyn helaethu a moderneiddio adeiladau a chyfleusterau'r ysgol, a dylai fod modd cysoni'r buddsoddiad hwn â'r angen am gynyddu'r lleoedd petai galw am hynny.</p> <p>Cydnabyddir bod Ysgolion Llangennech yn perfformio'n dda a bod safonau'n uchel ac yn cael</p>		
--	--	--	--	--

		<p>eu categoreiddio'n 'wyrdd'. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys safonau'r ysgolion eraill.</p> <p>Mae'n wir fod rhai lleoedd gwag yn Ysgol y Ffwrnes ac Ysgol Brynsierfel ar hyn o bryd. Codwyd adeilad newydd Ysgol y Ffwrnes i sicrhau bod digon o le yno er mwyn diwallu'r rhagamcanion yn ardal Llanelli, lle mae'r galw am addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Roeddid yn llwyr gydnabod y byddai lleoedd gwag yn Ysgol y Ffwrnes adeg ei hagor, ond y byddai'r rhain yn cael eu llenwi dros ychydig flynyddoedd. Ar sail y ceisiadau am leoedd ym mis Medi 2016, mae'r adran yn disgwyl y bydd 400 o blant yn mynychu Ysgol Gymraeg y Ffwrnes ym mlwyddyn academaidd 2016/2017, sydd â lle i 480 o ddisgyblion; a bydd dosbarthiadau'r blynyddoedd cynnar yn llawn neu bron â bod yn llawn, gan amlygu y bydd yr ysgol yn llawn ymhen ychydig flynyddoedd. Y disgwyl yw y bydd cyfanswm o 209 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Brynsierfel ym mis Medi, sydd â lle i 243 o ddisgyblion.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ymdrechu i reoli'r lleoedd gwag yn eu hysgolion, a hynny o fewn goddefiant o 10% ar</p>		
--	--	---	--	--

		<p>draws yr holl ysgolion, gan dderbyn bod y niferoedd mewn ysgolion unigol yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau. Yn ôl y Côd Trefniadaeth Ysgolion "mae rhai lleoedd dros ben yn angenrheidiol er mwyn galluogi ysgolion i ymdopi â'r amrywiadau o ran niferoedd disgyblion". Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gormod o leoedd gwag mewn ysgol unigol os oes ganddi fwy na 25% o leoedd gwag. Nid yw Ysgol y Ffwrnes nac Ysgol Brynsierfel yn perthyn i'r categori hwn. Felly er mwyn ymdopi ag amrywiadau a'r cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanelli, mae angen darparu ysgol cyfrwng Cymraeg arall.</p> <p>Mae Ysgol y Strade yn ysgol uwchradd ddwyieithog categori 2A sydd wedi'i lleoli yn ardal Llanelli. Mae'r ysgol yn addysgu o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae un neu ddau o bynciau'n cael eu haddysgu i rai disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. Mae iaith yr ysgolion o ddydd i ddydd yn dibynnu ar y cyd-destun ieithyddol, fodd bynnag defnyddir y naill iaith a'r llall ar gyfer cyfathrebu â'r disgyblion ac ar gyfer gweinyddu'r ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. Mae gan Ysgol y Strade le ar gyfer disgyblion o'r holl ysgolion sy'n ei bwydo, ac mae'n galluogi'r disgyblion i ddewis parhau â'u haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf os ydynt yn dymuno.</p>		
--	--	--	--	--

	<p><b><u>AAA / ADY</u></b></p> <p>Efallai na fydd plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd angen addysg cyfrwng Saesneg arnynt o bosibl. Mae'n annheg cymryd yn ganiataol y bydd pob plentyn sydd ag AAA/ADY yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant.</p> <p>Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.</p> <p>Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni leoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyraidd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Phlant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif</p>	31	4%
--	---	--	----	----



		<p>ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser.</p> <p>Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol ac er mwyn sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i'r staff dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Trefnir bod y plentyn yn mynychu ysgol briodol lle gellir diwallu ei anghenion. Mae'n bosibl ar adegau prin na ellir</p>		
--	--	--	--	--

		<p>diwallu anghenion plentyn yn yr ysgol leol, er gwaethaf ymrwymiad y Cyngor i addysg gynhwysol, gan ei bod yn syml ddigon yn anymarferol inni ddarparu ar gyfer pob angen ym mhob ysgol. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant wedi ymwneud â dim ond un neu ddau achos yn flynyddol pryd y cynghorwyd bod y plentyn yn symud i ysgol arall. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae cyfundrefn ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gwasanaethu cyfanswm o ryw 27,000 o ddisgyblion, felly prin iawn yw'r troeon y mae disgyblion yn symud oherwydd anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.</p> <p>O ran y cynnig ar gyfer Llangennech, bydd y gefnogaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig, bydd yr holl ddisgyblion yn y dyfodol yn cael y cymorth hwn drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf,</p>		
--	--	---	--	--

		gan wneud addasiadau priodol er mwyn diwallu anghenion ychwanegol unigol y disgyblion.		
13.	<p><b><u>Y Broses Ymgynghori</u></b></p> <p>Credir nad yw'r broses ymgynghori wedi cael ei chynnal yn deg ac nad oedd mor dryloyw ac agored â phosibl. Soniwyd am 'gytundeb' mewn perthynas â'r cynnig ac at osod ystafell ddosbarth ddwbl symudol. Gan fod yr ystafell ddosbarth ddwbl symudol wedi cael ei gosod yn barod, mae'n ymddangos y cytunwyd ar y cynnig eisoes.</p> <p>Nid yw ymatebwyr yn credu bod eu sylwadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon. Hefyd credir na roddwyd gwybod i randdeiliaid o bwys mewn modd priodol am y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys Ysgol Bryngwyn. Nid yw rhanddeiliaid eraill y bydd y cynnig yn effeithio arnynt o bosibl wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae nifer sylweddol o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch y cynnig gan gynnwys Unsain, Ysgol Bryngwyn, a Nia Griffith AS. Hefyd, er bod gwrthwynebwyr wedi datgelu eu henwau a'u perthynas â'r ysgol, mae rhai cefnogwyr wedi dal y wybodaeth hon yn ôl.</p> <p>Yn ogystal, mae sawl camgymeriad yn y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys nodi nad oes dim disgyblion yn mynychu'r ffrwd Saesneg yn y blynyddoedd derbyn. Mae wedi dod i'r amlwg yn y misoedd diwethaf bod y dosbarthiadau derbyn wedi cael eu trochi yn y Gymraeg dros y blynyddoedd</p>	<p>Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion statudol.</p> <p>Mae'r Adran Addysg a Phlant wedi bod yn trafod y cynnig presennol â chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol am rai blynyddoedd, ac mae gohebiaeth wedi cael ei chyfnewid rhwng y partïon. Mae'r Adran wedi rhannu gohebiaeth ynghylch y mater hwn â'r gwrthwynebwyr, gan amlygu ei bod yn agored ac yn dryloyw.</p> <p>Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion gyfrifoldeb statudol dros eu hysgolion, ac mae trafodaethau rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion ynghylch cynigion i newid pethau yn cychwyn bob amser â thrafodaeth gyda'r cyrrff llywodraethu. Cynhelir trafodaethau ac ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid ar yr adegau priodol yn y broses yn unol â'r disgwyliadau statudol.</p> <p>Bwriad yr ohebiaeth rhwng y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant a'r cyrrff llywodraethu oedd bod y partïon hyn yn cytuno ar egwyddorion y cynnig ac ar y modd y gellid ei weithredu, gan roi sylw hefyd i ffactorau eraill, megis sut y gellid rhoi sylw i'r diffyg lle yn yr ysgol fabanod a sut y gallai'r cyllid lles cynllunio oedd ar gael ar gyfer yr ardal gael ei ddefnyddio mewn modd defnyddiol.</p>	25	3.5%

	<p>diwethaf ac nad ydynt wedi bod yn cael addysg cyfrwng Saesneg. Mae'n ymddangos bod rhieni/rhanddeiliaid wedi bod yn cael gwybodaeth ffug/dim gwybodaeth am hyn gydag ymatebion amrywiol. Fodd bynnag, mae Ysgol Babanod Llangennech wedi cael ei gategoreiddio fel ysgol Ffrwd Ddeuol.</p>	<p>Yn ei llythyr ar 29<sup>ain</sup> Ionawr 2015 at Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Babanod Llangennech, yr anfonwyd copi ohono at Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Iau Llangennech, roedd y Cyfarwyddwr wedi datgan yn glir y bydd yn rhaid i'r Cyngor Sir gynnal proses statudol i ffurfio ysgol gynradd newydd yn lle'r ddwy ysgol bresennol, i ymestyn ystod oedran yr ysgol ac i sefydlu'r ysgol newydd fel ysgol Gymraeg ei chyfrwng, gan danlinellu'r heriau amsereddol o ran cwblhau'r broses statudol.</p> <p>Hefyd roedd y llythyr yn cyfeirio at ymrwymadau i ddarparu ystafell ddosbarth ddwbl symudol ychwanegol er mwyn darparu rhagor o le yn yr ysgol fabanod (mae hyn wedi'i gwblhau bellach) ac yn cytuno i ryddhau arian lles cynllunio i'w fuddsoddi yn yr ysgolion, drwy gytundeb gyda'r Adran.</p> <p>Mae'r ffaith bod yr adeilad modiwlaidd newydd wedi ei osod yn yr ysgol eisoes yn dangos yn glir nad yw'r elfen hon wedi ei chysylltu â'r cynnig statudol. Felly mae'r cyfeiriad yn llythyr y Cyfarwyddwr at "becyn ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth sector cynradd" yn dangos yn eglur fod ymgais i gael cytundeb o ran egwyddor.</p> <p>Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn amlinellu'r strategaeth eang ar gyfer datblygu'r iaith yn y gwasanaeth addysg. Lle roedd angen gwneud newidiadau mewn ysgolion unigol er</p>		
--	---	---	--	--

		<p>mwyn gwneud cynnydd, o ran cyfran y cwricwlwm a ddarperir yn y naill iaith neu'r llall, bydd proses statudol yn ofynnol, ac ymgynghoriad ar bob cynnig penodol. Dyna beth sy'n digwydd yn Llangennech ar hyn o bryd.</p> <p>Yn unol â disgwyliadau statudol, cafodd cyfnod ymgynghori ffurfiol ei gynnal rhwng Ionawr 25<sup>ain</sup> 2016 ac 11<sup>eg</sup> Mawrth 2016. Roedd y cyfnod ymgynghori yn gyfle i'r holl randdeiliaid gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Addysg a Phlant, cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn am wythnos, hyd at 18<sup>fed</sup> Mawrth 2016. Roedd yr holl sylwadau a gafwyd wedi cael eu cyflwyno ar ffurf Adroddiad Ymgynghori i'r Bwrdd Gweithredol eu hystyried ochr yn ochr ag ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn. Yn debyg i'r cyfnod ymgynghori, mewn ymateb i gais gan barti â diddordeb, cytunodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant i ymestyn y cyfnod gwrthwynebu statudol am un wythnos hyd at 9fed Hydref 2016. Drwy gydol y broses hon, mae'r Adran wedi lletya pob cais gan bartion â diddordeb er mwyn gwneud y broses yn gwbl gynhwysol i'r holl randdeiliaid.</p> <p>Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud hyd yn hyn ynghylch y cynnig hwn. Yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ar 5<sup>ed</sup> Medi 2016, bydd aelodau'r Cyngor Sir llawn yn ystyried yr holl sylwadau a ddaeth i law yn sgil yr Hysbysiad</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Statudol, (y rhai sy'n gwrthwynebu a'r rhai sy'n cefnogi), ynghyd ag ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r sylwadau hyn cyn gwneud penderfyniad terfynol. Gall y Cyngor Sir gymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau.</p> <p>Cafodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Ysgol Bryngwyn, eu hysbysu am y cyfnod ymgynghori drwy'r e-bost ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori yn unol â gofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion. Er bod yr Awdurdod Lleol yn hysbysu'r holl randdeiliaid allweddol am unrhyw gyfnod ymgynghori, penderfyniad y rhanddeiliad unigol yw cyflwyno sylwadau ai peidio mewn perthynas ag unrhyw gynigion, ac nid oes rheidwydd arnynt i ymateb. Mae gan yr holl randdeiliaid yr hawl i fynegi eu sylwadau, waeth beth yw eu statws unigol, a chaiff yr holl sylwadau hyn eu hystyried wrth wneud penderfyniad. Os yw'r rhanddeiliad yn dymuno, gall gyflwyno'r sylwadau hyn yn ddiennw.</p> <p>Fel y nodwyd yn flaenorol, nid oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud hyd yn hyn ar y cynnig, ac mae'n rhaid i'r penderfyniad i weithredu'r cynnig ai peidio, yn statudol, gael ei wneud ar sail lles pennaf y dysgwyr. Felly mae'n rhaid penderfynu ar sail y rhinweddau addysgol yn hytrach nag ar sail nifer yr ymatebion a ddaeth i law, boed o blaid neu yn erbyn y cynnig.</p> <p>Y trefniant presennol yn yr ysgol yw y dysgir holl ddisgyblion y dosbarthiadau derbyn drwy gyfrwng y</p>		
--	--	--	--	--

		<p>Gymraeg yn bennaf, ac y defnyddir Saesneg fel cyfrwng hwyluso yn ôl anghenion y plant unigol. Cyflwynwyd y trefniadau hynny yn sgil cynnal trafodaethau rhwng yr ysgol a'r rhieni. Roedd un o swyddogion y Cyngor yn rhan o'r trafodaethau ar gais yr ysgol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae gan rieni disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ddewis o ran gosod eu plant naill ai yn y ffrwd Gymraeg neu yn y ffrwd Saesneg. Os gweithredir y cynnig, bydd yr holl ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, cyn i'r cynnig ddigwydd, yn dal i gael dewis o ffrydiau ym Mlynnyddoedd 1 a 2.</p> <p>Nid yw'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth ffug honedig a roddwyd i rieni/rhanddeiliaid ynghylch y ddarpariaeth iaith yn y blynnyddoedd derbyn.</p> <p>Mae'r holl wybodaeth a ffigurau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r cynnig yn gywir.</p> <p>Mae'r ddogfen Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 2007 yn nodi diffiniadau a chategorïau o ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel cyfrwng cyfarwyddyd a busnes arferol yr ysgol. Nid oes gan y diffiniadau unrhyw sail mewn deddfwriaeth, ond maent wedi cael eu dyfeisio i ddarparu gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth ar y graddau y mae disgyblion yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>		
--	--	--	--	--

		Nid yw'r diffiniadau yn ceisio nodi'n union beth y gall disgybl unigol dderbyn mewn ysgol.		
289	<p><b><u>Polisiau'r Cyngor ac Arbed Arian</u></b></p> <p>Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn nad yw dilyn polisiau'r Cyngor Sir a'r Llywodraeth megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-2017 yn rheswm digon da dros gymeradwyo a gweithredu'r newid i'r categori iaith. Hefyd credir bod y cynnig hwn yn cael ei gynnig er mwyn arbed arian a bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn derbyn mwy o gyllid nag ysgolion eraill.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn Llangennech gan ei fod yn barnu'n bendant taw hyn sydd orau o ran addysg y plant. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb hefyd i ddilyn ei bolisiau ei hun ochr yn ochr â pholisiau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Mae cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, yn cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, i ymateb i'r Ddeddf ac i Strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, ac mae pob awdurdod yn atebol yn unigol i Lywodraeth Cymru. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin 2014-2017 wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y canlyniadau canlynol penodol o ran y cynnig ar gyfer Llangennech:</p>	15	2%



		<p>4. Cynyddu nifer y dysgwyr 7 oed a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>5. Cael rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.</p> <p>6. Cael rhagor o fyfyrwyr sydd â sgiliau iaith da yn Gymraeg.</p> <p>Hefyd nod y Cynllun yw cyflawni'r canlyniadau a'r amcanion penodol trwy gyfrwng y camau canlynol:</p> <p>7. Bod y Cyngor Sir yn gweithio'n agos gyda staff a chyrrff llywodraethu ysgolion ffrydiau deuol Sir Gaerfyrddin er mwyn iddynt ddod yn ysgolion Cymraeg.</p> <p>8. Targedu newid tair ysgol ffrwd ddeuol yn rhai cyfrwng Cymraeg erbyn 2017.</p> <p>Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cael y canlyniadau penodol fel y manylir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ni fyddai'n cyrraedd ei nod o wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg yn ôl argymhellion Llywodraeth Cymru.</p> <p>Yn gyffredinol mae gweithredu ysgol ddwy ffrwd yn ddrutach na gweithredu ysgol uniaith, felly os bydd y cynnig yn llwyddiannus bydd yn rhoi bod i fwy o effeithlonrwydd ariannol ymhen amser. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig hwn wedi ei gynnig er mwyn arbed arian. Nid yw ysgolion cyfrwng</p>		
--	--	--	--	--

		Cymraeg yn derbyn mwy o arian nag unrhyw ysgolion eraill.		
	<p><b><u>Gwahanu Brodyr a Chwiorydd</u></b></p> <p>Efallai y bydd y cynnig yn gwahanu brodyr a chwiorydd na fyddant o bosibl yn gallu mynychu'r un ysgol yn sgil gwaredu'r ffrwd Saesneg. Mewn rhai teuluoedd, o achos gwahanol anghenion, mae rhai disgyblion yn y ffrwd Gymraeg tra bo eraill yn y ffrwd Saesneg. Mae hyn yn gweithio'n dda mewn ysgol ddwy ffrwd fel Llangennech ac yn caniatáu i bob plentyn o'r un teulu fynychu'r un ysgol. Efallai na fydd hyn yn bosibl os daw'r ysgol yn un cyfrwng Cymraeg. Wedyn gallai hyn arwain at oblygiadau trafnidiaeth i deuluoedd o ran gorfod cludo disgyblion i ddwy ysgol wahanol.</p>	<p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion eraill heblaw ysgol Llangennech ar gyfer y plant lleol.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn ysgol Llangennech ac yn dal i gael eu haddysg drwy gyfrwng y trefniadau iaith presennol tan iddynt adael i fynd i'r ysgol uwchradd. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod y plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref, gan dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bod Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng dysgu ar gyfer rhai gwersi eraill yn ystod y blynyddoedd olaf yn yr ysgol. Unwaith eto, bydd cefnogaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r holl blant yn y dyfodol, yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Gweler <b>pwyt 9</b> sy'n cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac a fydd yn dal i gael eu darparu i'r holl ddisgyblion a rhieni o ran yr iaith Gymraeg.</p>	10	1.4%

		<p>Gweler <b>pwynt 12</b> sy'n cyfeirio at ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, a'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i'r disgyblion ac a fydd yn dal i gael eu darparu iddynt.</p> <p>Os bydd rhieni'n dewis gosod brodyr a chwiorydd mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys gwahanu brodyr a chwiorydd ac unrhyw oblygiadau o ran cludiant. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydynt yn ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni yw cludo eu plant i'r ysgol.</p>		
16.	<p><b><u>Disgyblion o'r Tu Mewn a'r Tu Allan i'r Dalgylch</u></b></p> <p>Mae llawer o ddisgyblion o'r tu mewn i ddalgylch ysgolion Llangennech yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg eraill y tu allan i'w dalgylch – o bosibl gan fod lle yn y ffrydiau cyfrwng Saesneg yn Ysgol Llangennech wedi cael ei wrthod iddynt. Fodd bynnag mae llawer o ddisgyblion wedi cael eu derbyn i ysgolion Llangennech o'r tu allan i'r dalgylch. Mae'r disgyblion hyn yn mynychu'n bennaf drwy'r ffrydiau Cymraeg ac felly maent yn rhoi hwb i nifer y disgyblion sy'n mynychu drwy'r ffrydiau Cymraeg.</p>	<p>Mae ysgolion Llangennech yn gallu darparu ar gyfer yr holl blant sy'n byw yn y dalgylch. Mae'r plant hyn yn cael blaenoriaeth dros blant sy'n byw'r tu allan i'r dalgylch o dan y polisïau derbyn sefydledig.</p> <p>Nid oes yr un plentyn o ddalgylch ysgolion Llangennech wedi cael ei amddifadu rhag lle yn ysgolion Llangennech gan y Cyngor Sir fel yr Awdurdod Derbyn statudol.</p> <p>Mae'r Rhifau Derbyn cyhoeddedig ar gyfer ysgolion Llangennech yn berthnasol i'r ysgol gyfan ac nid ydynt yn ystyried dewis iaith. Gall plant ond gael eu derbyn i'r ysgolion gan yr awdurdod lleol fel y corff derbyn disgyblion statudol. Nid oes gan ysgolion yr hawl i dderbyn disgyblion na gwrthod lleoedd eu hunain. Nid yw'r Cyngor Sir wedi gwrthod lle yn y</p>	8	1.1%

		<p>rownd derbyn arferol i unrhyw blentyn sy'n byw yn y dalgylch, beth bynnag ei ddewis iaith.</p> <p>Mae'n gyffredin i ddisgyblion symud rhwng dalgylchoedd ysgolion a hynny ledled y wlad yn yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd trefol. Fel y nodwyd eisoes, mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn cael blaenoriaeth o ran mynychu ysgolion eu dalgylch dros blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Fodd bynnag, gall rhieni nodi eu bod yn ffafrio ysgol heblaw ysgol ddynodedig y dalgylch, ac maent yn gwneud hyn am nifer o resymau, e.e. bod rhieni sy'n gweithio yn gallu cael cymorth gan eu teulu estynedig, hwylustod cludo plant, bod yr ysgol yn agos i'r cartref, enw da, ffydd, ac yn y blaen.</p> <p>Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi. Dyma'r sefyllfa i ddisgyblion sy'n byw'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion Llangennech, ac i'r disgyblion sy'n byw yn dalgylch Ysgol Llangennech sy'n mynychu ysgolion eraill.</p> <p>Gyda'i gilydd, cyfanswm y disgyblion oedd yn mynychu'r ddwy ysgol ym mis Ionawr 2016 oedd 446, gyda 336, neu 75% yn byw yn y dalgylch a 110 o blant, neu 25% yn byw'r tu allan i'r dalgylch.</p> <p>Ym mis Ionawr 2016, roedd 96 o'r plant oedd yn byw yn dalgylch ysgolion Llangennech yn mynychu</p>		
--	--	--	--	--

		<p>ysgolion eraill. O blith y rhain, roedd 16 o blant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, 7 yn mynychu ysgolion dwy ffrwd, a 73 yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd 39 o blant, sef dros hanner y rheini oedd yn gadael y dalgylch, yn mynychu Ysgol y Bryn. Roedd 3 o'r plant yn mynychu ysgolion ar sail ffydd.</p> <p>Perthnasol yw nodi, oherwydd ffurf dalgylch ysgolion Llangennech, fod nifer fawr o'r plant sy'n byw yn ne'r dalgylch yn byw'n agosach i ysgolion eraill nag y maent i ysgolion Llangennech. Un o'r ysgolion eraill yw Ysgol y Bryn, a oedd, ym mis Ionawr 2016, yn derbyn 39 disgybl o ddalgylch Llangennech sy'n byw yn Heol Penllwyngwyn, Parc Hendre, Harddfaf, Bryn Uchaf a Heol Pendderi a'r cyffiniau, ac yn byw'n agosach o lawer i'r ysgol hon.</p>		
17.	<p><b><u>Darpariaeth Feithrin</u></b></p> <p>Mae rhai ymatebwyr wedi mynegi pryderon a oes angen i'r ysgol ddarparu darpariaeth feithrin gan fod eisoes darparwyr meithrin yn y gymuned sy'n darparu addysg a gofal gwych. Yn ogystal, mae'r meithrinfeydd hyn hefyd yn gallu darparu gofal am oriau hwy o gymharu â'r hyn mae'r ysgol yn gallu ei gynnig. Mae'n bosibl y bydd darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cael effaith niweidiol ar ddarparwyr meithrin annibynnol yn y gymuned. Mae rhai ymatebwyr yn poeni a oes lle yn yr ysgol ar gyfer 60 o leoedd meithrin, gan fod yr ysgol yn llawn eisoes.</p>	<p>Er bod addysg feithrin ledled Sir Gaerfyrddin yn cael ei darparu drwy fodel "economi cymysg" sef gan ysgolion, cyrff sector annibynnol a chwmnïau preifat, barn y Cyngor Sir yw y darperir addysg feithrin yn fwy effeithiol mewn ysgol, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, a hynny o dan gyfarwyddyd proffesiynol athrawon cymwysedig ac o dan arweiniad pennaeth proffesiynol. Yn gyffredinol ystyrir ei bod yn well lleoli'r ddarpariaeth feithrin ar safle ysgol gan fod hynny'n hwyluso mynediad y plentyn i addysg llawn-amser mewn modd mwy effeithiol. Ar y cyfan, y model hwn sy'n cael ei ffafrio gan ysgolion Sir Gaerfyrddin.</p>	5	0.7%

		<p>Mae gan ddisgyblion meithrin yr hawl i gael addysg ran-amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Y diffiniad o ran-amser yw 5 sesiwn yr wythnos yn y bore neu'r prynhawn. Bydd gan ddisgyblion meithrin yr hawl i fynychu'r ysgol yn llawn-amser ar ddechrau'r tymor cyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd angen darpariaeth gofal plant y tu allan i'r oriau y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer.</p> <p>Mae 4 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn Llangennech ar hyn o bryd, y mae 2 ohonynt wedi'u comisiynu i ddarparu addysg feithrin ran-amser ac y mae 1 ohonynt yn gallu darparu hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod y bydd goblygiadau i'r ddau ddarparwr hyn petai'r cynnig yn mynd rhagddo, gan y bydd y cyllid y maent yn ei gael ar hyn o bryd am ddarparu addysg feithrin ran-amser yn dirwyn i ben.</p> <p>O ran lle yn yr ysgol, mae ystafell ddosbarth ddwbl symudol newydd wedi cael ei gosod eisoes yn yr ysgol fabanod er mwyn helpu â'r sefyllfa. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dal i fonitro ac asesu'r sefyllfa o ran lle ac os bydd angen, caiff camau priodol eu cymryd.</p>		
18.	<b><u>Staffio</u></b>	Mae aelodau dwyieithog o'r staff yn gweithio ar hyn o bryd yn y ddwy ffrwd yn yr ysgolion. Yn hytrach na chyfyngu ar gyfleoedd i staff nad ydynt yn	5	0.7%

	<p>Bydd newid categori iaith yr ysgol i gyfrwng Cymraeg yn cyfyngu ar gyfleoedd i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg ac yn cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth i unrhyw un nad yw'n siarad Cymraeg. Yn ogystal, a oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn yr ysgol er mwyn i'r newid hwn fod yn effeithiol? Hefyd mae pryderon ynghylch ymrwymiad y Pennaeth i'r ysgol.</p>	<p>siarad Cymraeg, bydd y cynnig hwn yn helpu'r staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Bydd "Athrawon Bro" yn darparu hyfforddiant i aelodau o'r staff sy'n llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg a bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cymorth hyfforddiant i unrhyw aelodau o'r staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg. Hefyd mae'n bwysig nodi y bydd y cynnig yn cymryd 7 mlynedd i gael ei weithredu'n llawn ac i'r ysgol ddod yn ysgol hollol Gymraeg. Mae hyn yn rhoi amser i'r ysgol a'r staff newid eu trefniadau presennol er mwyn darparu cyfleoedd i'r staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn amgylchedd yr ysgol a pharatoi'r ysgol yn ei chyfanrwydd i fod yn un cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Mae gan yr Awdurdod bolisïau a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion a gellir argymhell bod y rhain yn cael eu gweithredu os bydd angen. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi staff yr ysgol i gael cyflogaeth arall addas os bydd modd drwy brosesau adleoli.</p> <p>Mae'r Pennaeth, ynghyd ag aelodau'r staff, wedi ymrwymo'n llawn i'r ysgol ac i ddatblygiad yr ysgol.</p>		
--	--	---	--	--

# **Atodiad B**

**Crynodeb o'r Sylwadau Cefnogol a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddi'r Ddogfen  
Ymgynghori ac ymatebion cysylltiedig yr Awdurdod Lleol**



## Y Sylwadau Cefnogol a ddaeth i law

Fel y nodwyd yn y Crynodeb Gweithredol, daeth cyfanswm o **698** o sylwadau cefnogol i law mewn ymateb i'r hysbysiad statudol.

Cafodd y rhain eu llunio o:

119 e-bost; a

579 llythyr. (Cafodd y rhain eu llunio o llythyrau unigol a llythyrau templed cefnogaeth.)

### **Fodd bynnag:**

Roedd yn aneglur a oedd 1 llythyr yn gefnogol i'r cynigion ai peidio.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r pwyntiau a godwyd yn y sylwadau cefnogol a ddaeth i law ac ymatebion yr Awdurdod Lleol i'r pwyntiau hyn. Hefyd mae'r tabl yn dangos nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob pwynt:

<u>Nifer y Pwynt</u>	<u>Y Pwynt a Godwyd</u>	<u>Ymateb yr Awdurdod Lleol</u>	<u>Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt</u>	<u>% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt</u>
1.	<p><b><u>Dwyieithrwydd</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion ddod yn ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hefyd bydd yn helpu i ddatblygu dwyieithrwydd yng nghymuned Llangennech a'r cyffiniau.</p> <p>Mae dwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision i'r holl ddisgyblion ac ni ddylid ystyried dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais. Ymhlith y manteision lu o fod yn ddwyieithog y mae:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. datblygu sgiliau ehangach, megis gallu gwybyddol, deall tasgau a hyblygrwydd, gwell pwerau canolbwyntio;</li> <li>2. medru newid o'r naill iaith i'r llall yn hwylus;</li> <li>3. manteision cymdeithasol ac economaidd;</li> <li>4. helpu â'r gallu i ddysgu trydedd iaith;</li> <li>5. rhagolygon gyrfa gwell a datblygiad personol;</li> <li>6. ehangu profiadau diwylliannol unigolion.</li> </ol>	<p>Barn yr Adran, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Mae'r adran yn cydnabod y bydd dwyieithrwydd yn sgîl mwyfwy pwysig yn y byd gwaith gydag amser. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu eu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mwyfwy o fantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>	617	89%

	Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa ar yr holl fanteision sydd ynghlwm wrth fod yn ddwyieithog.			
2.	<p><b><u>Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal Llangennech a Sir Gaerfyrddin, yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn dilyn y cwmp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn 2011 a amlygwyd gan gyfrifiad 2011, bydd y cynnig hwn yn helpu i gynnal yr iaith Gymraeg yn y dyfodol.</p>	<p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddynt fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>	544	78%
